# CDLl2

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## 2018 - 2033

## Papur Pwnc: Y Gymraeg

## Diweddariad ar gyfer Strategaeth 2019 a Ffefrir

Draft

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost [ldp@ceredigion.gov.uk](mailto:ldp@ceredigion.gov.uk) neu dros y ffôn 01545 572123**

Drafft

# Cynnwys


Nodyn i’r darllennydd **Error! Bookmark not defined.**

1. Crynodeb Gweithredol 2
2. Cyflwyniad 4
3. Tabl diweddaru 5
4. Cyd-destun Lleol 29
5. Adolygu'r Materion (y Sbardunau) 31
6. Newidiadau Deddfwriaeth neu Bolisi 32
7. Tystiolaeth 36
8. Dadansoddiad (opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r mater) 46
9. Ffactorau sy’n dylanwadu ar y Gymraeg a Goblygiadau ar gyfer y CDLl 71
10. Casgliadau / Argymhellion 75

1. Cyflwyniad 1
2. Casgliad 66


Draft

# Nodyn i'r darllenydd

Cafodd y Papurau Pwnc diweddaru ar gyfer Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) eu cyhoeddi ar yr un pryd (Rhagfyr 2010) ac maent yn parhau i fod ar gael ar wefan y Cyngor neu ar gopi papur yn ôl y gofyn.

Prif ddiben y Papur Pwnc Diweddaru hwn yw dangos a oes unrhyw newidiadau wedi bod o ran y canlynol ers adneuo a chyhoeddi'r Cynllun Datblygu Lleol ac, wedi hyn, y CDLl a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2013: canllawiau, polisïau neu strategaethau perthnasol; gwybodaeth a thystiolaeth; neu faterion a amlygwyd drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol neu'r apeliadau; sy'n awgrymu bod y materion a gafodd sylw yn y CDLl a fabwysiadwyd wedi newid neu nad ydynt yn cael sylw llawn gan y polisïau.

Bydd pob papur pwnc yn darparu tabl cryno o unrhyw faterion a gododd ers adneuo, gan nodi a yw'r rhain yn sbarduno'r angen am ymchwiliad pellach i bennu a oes angen newid fel rhan o'r gwaith o adolygu'r CDLl, neu eglurhad pellach ynghylch pam nad oes angen newid. Os bydd angen trafodaeth bellach, bydd hon yn cael ei chynnwys o fewn y papur diweddaru.

Draft

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1.1 Diben y papur hwn yw amlinellu'r sefyllfa bresennol yng Ngheredigion o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru, er mwyn nodi'r materion allweddol sy'n wynebu'r Gymraeg, nodi'r cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol sy'n ceisio diogelu'r Gymraeg ac edrych ar brif ystyriaethau'r CDLl o ran y Gymraeg.

1.1.2 Mae Ceredigion yn parhau i fod yn gadarnle'r Gymraeg. Ein cymunedau dwyieithog a Chymraeg eu hiaith yw sylfaen ein diwylliant a'n bywydau bob dydd. Fodd bynnag, mae'r cymunedau hyn yn newid, ac mae'r newid hwn yn effeithio ar y Gymraeg a'i diwylliant. Gwnaeth canlyniadau Cyfrifiad 2011 gyflwyno llawer o heriau i Geredigion. Erbyn Cyfrifiad 2011, roedd canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi disgyn o dan hanner (47.3%) am y tro cyntaf mewn hanes. Yng Nghyfrifiad 2011, adroddwyd y gallai 34,964 o boblogaeth Ceredigion dros dair blwydd oed siarad Cymraeg. Roedd hyn yn is na'r nifer a'r ganran a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2001, sef 37,918 (52%) – gostyngiad o 2,954 o unigolion a chwymp o 4.7 pwynt canran. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o wead cymunedau, felly er mwyn sicrhau bod cymunedau'n datblygu mewn modd cynaliadwy, rhaid ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar y sefyllfa wrth feddwl am newidiadau, a sicrhau bod datblygiadau newydd arfaethedig yn briodol ac yn berthnasol. Felly, mae'r CDLl cyfredol wedi cadw at ei amcanion o gefnogi datblygiad y Gymraeg a hybu cymunedau dwyieithog cynhwysol o fewn Ceredigion, a bydd yn parhau i wneud hyn yn y cynllun newydd.

1.1.3 Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu ym mis Ebrill 2013, mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth lunio polisïau sy'n ymwneud â defnydd tir ac yn y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio.

1.1.4 Ym mis Hydref 2017, cyhoeddwyd y ddogfen ddiwygiedig Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg, sy'n gofyn am newidiadau i'r polisïau yng Nghynllun Ceredigion. Mae TAN 20 yn rhoi canllawiau pellach ar sut dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth lunio neu wneud penderfyniadau cynllunio, a chan hynny, gyfrannu at ei llesiant.

Draft

1.1.5 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd wedi'i chyhoeddi, sy'n cynnwys saith nod y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt. Un o'r nodau yw, 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.' Felly, fel Awdurdod Lleol, rhaid i Geredigion ystyried y nod hwn wrth wneud penderfyniadau. Oherwydd hyn, mae'n hanfodol fod y CDLl yn cynnwys polisïau sy'n cyd-fynd â hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg, sef strategaeth i hybu a hwyluso'r Gymraeg. Mae'n nodi dull gweithredu hirdymor Llywodraeth Cymru o gyflawni'r weledigaeth o gael iaith Gymraeg sy'n ffynnu a miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er bod poblogaeth Ceredigion yn fach o'i chymharu â'r cyfanswm dros Gymru, mae cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg, ac oherwydd hyn, mae Ceredigion yn anelu at wneud cyfraniad pwysig i'r nod hwn.

1.1.6 Mae adran olaf y papur yn ystyried yr argymhellion ar gyfer y newidiadau i'r polisïau sy'n gysylltiedig â diogelu'r Gymraeg. Yr argymhelliad mwyaf ffafriol yw'r gofyniad i hap-safleoedd mawr (pum uned neu fwy) gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Cyflwynir y drafodaeth ynghylch yr argymhellion yn adran 7.

Draft

# 2. Cyflwyniad

2.1.1 Mae'r papur hwn yn ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ceredigion a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2013. Mae'r papur yn canolbwyntio ar agweddau cynllunio defnydd tir ar y Gymraeg, a sut y bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried o fewn y CDLl diwygiedig (CDLl2). Mae hefyd yn cyflwyno gwybodaeth am sefyllfa bresennol y Gymraeg yng Ngheredigion.

2.1.2 Yn ogystal, mae Atodiad 1 y papur hwn yn cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd ar y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl yng Ngheredigion. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y Cynllun i ddod, ynghyd â'r opsiynau a ffefrir ar gyfer twf a dosbarthu. Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys y polisïau strategol a fydd yn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a nodwyd. Bydd hefyd yn cynnwys y safleoedd datblygu allweddol, sef y safleoedd datblygu mwyaf, sy'n hanfodol i lwyddiant y strategaeth ddatblygu. Mae'r asesiad o'r effaith ar yr iaith ar gyfer y Strategaeth wedi cynnwys asesu'r polisïau strategol. Mae'r asesiad wedi llywio Arfarniad Cynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir.

### 2.2 Cefndir yr adolygiad o'r CDLl

2.2.1 Ar ôl y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol, sbardunodd CDLl Ceredigion adolygiad ffurfiol; lluniwyd adroddiad adolygu a oedd yn amlygu bod angen asesu polisïau'r Gymraeg yn sgil y canllawiau newydd o fewn y TAN 20 diwygiedig.

### 2.3 Rôl y papur hwn

2.3.1 Mae'r papur hwn yn edrych ar yr hyn sydd wedi newid ers rhyddhau'r Papur Pwnc Diweddaru diwethaf, ac a oes angen diweddariad mwy manwl i drafod unrhyw faterion a godwyd. Os felly, bydd diweddariad mwy manwl yn cael ei gynnwys o fewn y papur hwn.

Draft

Draft

## 3. Tabl diweddaru

3.1.1 Mae'r tabl isod yn cyflwyno crynodeb o'r newidiadau sydd wedi digwydd neu'r materion sydd wedi codi o ran y Gymraeg. Gall y rhain ddod yn sgil newidiadau i bolisïau, strategaethau ac ati neu bolisïau a strategaethau newydd, newidiadau mewn tystiolaeth neu wybodaeth/tystiolaeth neu wybodaeth newydd neu faterion a gododd yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol neu'r apeliadau.

| **Mater i'w adolygu / Newid arfaethedig** | **Ffynhonnell / Sbardun** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Cam gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Oes angen adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Polisi cynllunio cenedlaethol newydd | Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg | Hydref 2017 | Angen newid. Adolygu strategaeth, polisïau a dyraniadau'r CDLl yn unol â TAN 20. | Mae'r cyflwyniad i'r TAN yn nodi'r cyd-destun cynllunio ac yn amlygu pwysigrwydd:<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r nod llesiant; 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu',<br>• Mesur y Gymraeg 2011,<br>• Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg<br>Mae Rhan A o'r TAN yn darparu | Oes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cyngor polisi ar y canlynol:<br>• Ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth lunio pob cam o'r CDLl (Cynlluniau Cynnwys Cymunedau, sylfaen dystiolaeth, opsiynau strategol, y strategaeth a ffefrir, adneuo, monitro), gan gynnwys llunio Arfarniad o Gynaliadwyedd. Y ffordd fwyaf priodol o ystyried y Gymraeg yn ôl pob golwg yw wrth gynllunio'r gwaith paratoadol ar gyfer y CDLl.<br>• Ystyried y Gymraeg fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth bennu ceisiadau ac apeliadau cynllunio, cynnal Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a chymryd mesurau lliniaru priodol.<br>• Arwyddion a hysbysebion | |

Draft

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae Rhan B yn darparu cyngor ymarferol ar y canlynol:<br>• Sut gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.<br>• Ystyried materion y Gymraeg wrth baratoi, monitro ac adolygu CDLlau, gan gynnwys casglu tystiolaeth a dadansoddi<br>• Nodi cwmpas a chynnwys Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith<br>5 cam:<br>Cam 1 - Sefydlu'r llinell sylfaen<br>Cam 2 - Dadansoddi'r data<br>Cam 3 - Asesu opsiynau CDLl, polisïau, dyraniadau safle ac amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd o ran y Gymraeg<br>Cam 4 - mesurau lliniaru<br>Cam 5 - Monitro'r CDLl a chadw'r dystiolaeth yn gyfredol | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Goblygiadau ar gyfer adolygu'r CDLl a pharatoi'r cynllun newydd<br>• Integreiddio asesiadau o'r Gymraeg yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (dim un newydd)<br>• Nod a Chynllun Llesiant yn lle Cynllun Integredig Sengl<br>• Dull a arweinir gan y cynllun datblygu – asesu'r strategaeth ofodol, polisïau ac effaith dyraniadau ar ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Asesu effeithiau cronnus posibl datblygiadau ar y Gymraeg ledled ardal y cynllun<br>• Tystiolaeth i gyfiawnhau trothwyon lleol penodol (llai na 10 uned ar gyfer hap-safleoedd) ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith – goblygiadau adnoddau<br>• Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | lleol mewn modd cadarnhaol<br>• Swm a dosbarthiad gofodol datblygiadau a seilweithiau newydd i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol<br>• Cyflwyno datblygiadau o ran tai a chyflogaeth strategol yn raddol;<br>• Nodi ardaloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol;<br>• Cyfeirio safleoedd strategol at gymunedau lle yr awgryma'r dystiolaeth y bydd yr effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg yn debygol o fod yn gadarnhaol;<br>• Nodi mesurau lliniaru priodol<br><br>Mae'r prif feysydd polisi i'w hystyried yn cynnwys y canlynol:<br>• Tai<br>o graddfa a lleoliad y twf<br>o math, deiliadaeth a maint | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cartrefi newydd arfaethedig<br>o polisïau a thargedau tai fforddiadwy<br>o polisi cyflwyno'n raddol<br>o datblygiadau tai ar hap-safleoedd.<br>• Tir cyflogaeth<br>o graddfa a lleoliad y ddarpariaeth<br>o darpariaeth ar gyfer busnesau lleol, busnesau bach a chanolig a chynlluniau buddsoddi mawr sy'n dod ag arian i mewn.<br>• Cyfleusterau cymunedol a seilwaith addysg<br>o lleoliad cyfleusterau arfaethedig a'u hagosrwydd at ardaloedd preswyl<br>• Rhwymedigaethau cynllunio<br>o defnyddio cytundebau adran 106 a/neu amserlen codi tâl yr | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ardoll Seilwaith Cymunedol yn briodol ar gyfer cyflawni seilwaith sy'n cefnogi'r Gymraeg.<br>• Arwyddion<br>o anogaeth ar gyfer arwyddion yn y Gymraeg, a all arwain at ddatblygu’r Gymraeg fel nodwedd weladwy mewn ardal. | |
| Y Gymraeg fel ystyriaeth gynllunio berthnasol. | Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 | 2015 | Angen newid | Gwnaeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 gyflwyno'r Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol wrth baratoi'r cynllun datblygu ac wrth bennu ceisiadau cynllunio. Hefyd, mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn diwygio Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gynnwys gofyniad i'r Gymraeg gael ei chynnwys yn Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLl. | Oes |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol Cymunedol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Gymraeg | Canllawiau Cynllunio Atodol Cymunedol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Gymraeg | 2015 | Angen newid yn dilyn y TAN newydd. | Wedi mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol ac wedi parhau i weithredu polisi DM01 | Oes |
| Cyfraniad cynlluniau defnydd tir at Gymraeg sy'n ffynnu | Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 10 | 2018 | Angen newid | Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y bydd dyfodol llesiant y Gymraeg yn dibynnu ar nifer o ffactorau, ond dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n effeithio ar yr iaith ac sy'n cyfrannu tuag at gyflawni iaith Gymraeg sy'n ffynnu. | Oes |
| Nod llesiant sy'n canolbwyntio ar Gymraeg sy'n ffynnu | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 | 2015 | | Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn arbennig o bwysig i'r Gymraeg, oherwydd un o'r saith nod llesiant yw, 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Dylai gweledigaeth, amcanion a pholisïau'r CDLl gyd- | Oes |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | fynd â'r nodau llesiant cenedlaethol a'r blaenoriaethau ac amcanion llesiant lleol. Dylai Ceredigion, fel Awdurdod Lleol, sicrhau bod y nod hwn yn cael ei ystyried yn ystod y broses benderfynu. | |
| Llunio Strategaeth y Gymraeg | Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg | 2017 | Ystyriwch sut gall y CDLl helpu i gyflawni'r weledigaeth, y targedau a'r camau gweithredu a nodwyd yn y strategaeth genedlaethol drwy gynllunio defnydd tir | Gweledigaeth - miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050<br><br>Y flwyddyn 2050: Mae'r Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cyrraedd miliwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Mae ewyllys da ac ymdeimlad o berchenogaeth tuag at yr iaith ymhlith y rhai hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg, ac mae pawb yn cydnabod ei chyfraniad tuag at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. | Oes |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Rydym wedi nodi tair thema strategol i gyflawni'r weledigaeth hon.<br>1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg<br>2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg<br>3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun<br><br>**Strategaeth Genedlaethol**<br>Mae hon yn strategaeth ar gyfer Cymru gyfan, ac rydym eisiau i bob rhan o'r wlad rannu'r weledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae lle i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd yng Nghymru sydd â phoblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg. Ar yr un pryd, mae angen i ni sicrhau hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn y | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dyfodol fel lleoedd sy'n hwyluso'r defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.<br><br>Ein gweledigaeth yw sicrhau amgylchiadau ffafriol drwy gydol y wlad sy'n cefnogi pobl i ddysgu'r iaith a defnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym eisiau gweld mwy o drosglwyddo iaith ymhlith teuluoedd, drwy gyflwyno Cymraeg yn gynnar i bob plentyn, darparu system addysg sy'n darparu sgiliau Cymraeg i bawb a mwy o werthfawrogiad o sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Ar yr un pryd, rydym yn ymrwymedig i gefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gwaith ac wrth ddefnyddio gwasanaethau.<br><br>Mae hyn yn golygu ystyried pob | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ardal yng Nghymru ar sail ei chyfansoddiad ieithyddol ei hun, a chynllunio er mwyn cael y cydbwysedd priodol yn lleol. Er enghraifft, yr her mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith yw sicrhau bod gan bobl swyddi o ansawdd da, gyrfaoedd boddhaus a chartrefi fel y gallant aros neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Mewn ardaloedd eraill, bydd defnyddio'r Gymraeg fel iaith y gweithle a busnes yn dod yn fwyfwy pwysig.<br><br>Rhaid i'r Gymraeg fod yn rhan o'r chwyldro digidol, sy'n cwmpasu tair thema'r strategaeth hon. Rhaid i ni sicrhau bod technoleg Gymraeg o safon uchel ar gael yn ystod camau cynnar y strategaeth hon er mwyn cefnogi addysg, gweithleoedd a | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.<br><br>Dyma'r targedau trosfwaol ar gyfer y strategaeth hon.<br>• Cael un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>• Cynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau yn Gymraeg, o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.<br><br>Bydd dangosyddion 36 a 37 o Ddangosyddion Cenedlaethol Cymru yn cael eu defnyddio i olrhain cynnydd yn erbyn y nod llesiant cenedlaethol a thuag at ddau darged trosfwaol y strategaeth hon. Mae'r dangosyddion fel a ganlyn:<br>• Dangosydd llesiant 36: Canran y | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau yn Gymraeg.<br>• Dangosydd llesiant 37: Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.<br><br>**Datblygiad a'r Gymraeg**<br><br>Mewn economi marchnad agored fel Cymru, bydd twf a datblygiad economaidd yn cael eu dosbarthu'n anghyfartal i raddau. Fodd bynnag, mae gan y llywodraeth rôl mewn ceisio sicrhau y gall pob rhan o Gymru elwa ar dwf economaidd. I gefnogi hyn, byddwn yn cymryd camau i gyflwyno dimensiwn rhanbarthol i ddatblygu economaidd sy'n cefnogi cyflawniad cenedlaethol. Drwy gyflwyno ffocws rhanbarthol, byddwn ni'n helpu | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cymru gyfan, gan gynnwys cymunedau Cymraeg eu hiaith, i elwa ar ffyniant a dod yn lleoedd deniadol y mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu a buddsoddi ynddyn nhw.<br><br>Dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg drwy greu amodau addas ar gyfer cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu, a gefnogir gan ymwybyddiaeth o egwyddorion perthnasol cynllunio iaith.<br><br>Mae gan benderfyniadau o ran math, graddfa ac union leoliad datblygiadau o fewn cymuned benodol y potensial i effeithio ar y defnydd o iaith ac, o ganlyniad, ar gynaliadwyedd a bywiogrwydd yr | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | iaith. Mae hyn yn galw am berthynas gryfach rhwng cynllunio iaith a chynllunio defnydd tir.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gredu y dylai ystyriaethau'r Gymraeg lywio'r broses o baratoi cynlluniau datblygu lleol, ac mae canllawiau ar gael i gynorthwyo awdurdodau lleol yn hyn o beth. O dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, mae cynllunio datblygiadau ar bob lefel yn gofyn i gynlluniau o'r fath gynnwys asesiad o effeithiau tebygol eu polisïau ar y Gymraeg.<br><br>Ein nod: cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith. Rhaglen waith 2017-2021 | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 9. Cymuned ac economi<br>Ein nod: cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith.<br><br>Datblygiadau diweddar<br>Cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol 20 ym mis Hydref 2017, sy'n gam pwysig o ran amlygu ymhellach yr angen i ystyried y Gymraeg o fewn polisïau cynllunio. Rydym wedi cyfrannu'n weithredol at gynigion ar gyfer datblygiad Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu fframwaith ar gyfer asesu a rheoli'r risgiau a'r buddion i'r Gymraeg. Bydd y fframwaith a'r canllawiau yn becyn cymorth arfer gorau a fydd yn galluogi awdurdodau cynllunio a datblygwyr i lunio llinell sylfaen | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gadarn ar fywiogrwydd yr iaith a nodi'r risgiau a'r buddion a fydd yn cefnogi mesurau lliniaru ar gyfer datblygiadau mawr/hap-safleoedd.<br><br>Rydym wedi cefnogi a dangos diddordeb brwd mewn datblygiadau arloesol sy'n cyflwyno buddion economaidd ac/neu ieithyddol, fel Yr Egin, sef datblygiad gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant sydd â'r potensial i greu nifer o swyddi, a'r canolfannau Cymraeg, sydd wedi creu hwb i fentrau Cymraeg lleol weithio mewn modd cydgysylltiedig a gofod i gyflwyno rhaglenni allweddol fel y Rhaglen Dysgu Cymraeg yn y Gweithle.<br><br>Roedd yr amserlen wreiddiol a gyhoeddwyd erbyn 2021 yn | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cynnwys y canlynol:<br>1. Cyhoeddi'r Nodyn Cyngor Technegol 20 diwygiedig: Cynllunio a'r Gymraeg.<br>2. Datblygu ffocws rhanbarthol newydd i ddatblygu economaidd er mwyn helpu pob rhan o Gymru i elwa ar ffyniant a chefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth unigryw ei hun.<br>3. Gweithredu ac adolygu fframwaith y Gymraeg a'r pecyn cymorth canllaw a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â datblygwyr Wylfa Newydd.<br>4. Wrth ystyried cynnwys y Gymraeg mewn Cynlluniau Strategol Addysg, byddwn yn edrych am dystiolaeth fod<br>addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hystyried yn llawn fel rhan o | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | bolisïau a datblygiadau cynllunio awdurdodau lleol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer darpariaeth Gymraeg drwy gytundebau adran 106.<br>5. Buddsoddi mewn rhaglenni entrepreneuraidd sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd gwledig.<br>6. Llywio'r Comisiwn Seilwaith er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei hystyried wrth ddarparu cyngor i Weinidogion ar fuddsoddi mewn seilwaith.<br>7. Ar ôl Brexit, sicrhau cymorth parhaus i'r diwydiant amaethyddiaeth fel cyflogwr/busnes allweddol o fewn y bröydd Cymraeg eu hiaith.<br>8. Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn ymdrin â phob rhan o | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gymru, a chynorthwyo â'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol pan fydd eu hangen, gyda phob cynllun yn rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg.<br>9. Lansio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd a fydd yn cynnwys y Gymraeg fel ystyriaeth bwysig. | |
| Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru | Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 | Medi 2016 | Ystyried sut gall CDLl Ceredigion helpu i gyflawni'r camau hyn. | Y Gymraeg<br>Gweithio tuag at gael un filiwn o bobl yn siarad Cymraeg erbyn 2050.<br>• Parhau i fuddsoddi mewn annog mwy o<br>• bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.<br>• Diwygio Mesur y Gymraeg fel y gall busnesau ac eraill fuddsoddi mewn hybu'r defnydd o'r Gymraeg a sefydlu Cronfa Defnyddio'r Iaith. | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Cyfeirio at nod llesiant Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i gael diwylliant bywiog ac iaith sy'n ffynnu. | |
| % y siaradwyr Cymraeg | Cyfrifiad 2011 | 2011 | Ystyried y dystiolaeth | Tystiolaeth allweddol. Ei defnyddio i nodi ardaloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol | Oes |
| Tystiolaeth llinell sylfaen | Adroddiad technegol: Rhagamcaniad a thrywydd ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dair blwydd oed a hŷn, rhwng 2011 a 2050, StatsCymru | Gorffennaf 2017 | Ystyried y dystiolaeth | Tystiolaeth ddefnyddiol | Oes |
| Tystiolaeth llinell sylfaen | Proffil ieithyddol o Geredigion Wedi'i baratoi ar ran | Mawrth 2016 | Ystyried tystiolaeth fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar | Data llinell sylfaen defnyddiol ar gyfer yr adolygiad o'r CDLl. Dadansoddiad da o effaith newidiadau yn y proffil demograffig | Oes |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cered: Menter Iaith Ceredigion Mawrth 2016 | | gyfer y CDLl | ar niferoedd a % y siaradwyr Cymraeg. | |
| Llunio Llawlyfr Cynlluniau Datblygu newydd | Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 (Drafft ymgynghoriad) | 2018 | | Mae'n ailadrodd pwysigrwydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan ystyried effaith polisïau a strategaethau'r CDLl ar y Gymraeg yn ystod cyfnod paratoi'r cynllun. | |
| Cyhoeddwyd Bil sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | Bil Eiddo a Chynllunio er Budd ein Cymunedau (Cymru) | Tachwedd 2014 | Angen ystyried hwn | Cyhoeddwyd y Bil hwn gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ym mis Tachwedd 2014 a rhaid ei ystyried. Gellir gweld tebygrwydd rhwng y Bil hwn a pholisïau cynllunio cenedlaethol eraill, ond mae rhai o awgrymiadau Cymdeithas yr Iaith i gryfhau a hybu'r Gymraeg yn groes i'r deddfwriaethau cenedlaethol.<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Gall y ADLl benderfynu mai'r | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gymraeg yw'r brif ystyriaeth berthnasol wrth ddod i benderfyniad;<br>• Gall ADLl wrthod neu ganiatáu datblygiad arfaethedig dim ond ar sail ei effaith ar ffyniant y Gymraeg;<br>• Ni all ADLl ganiatáu datblygiad arfaethedig oni bai:<br>o Bod unrhyw arwydd a gaiff ei godi neu ei ailwampio fel rhan o'r datblygiad arfaethedig (y tu mewn neu'r tu allan) yn Gymraeg;<br>o Bod unrhyw le neu enwau tai a ddefnyddir fel rhan o'r datblygiadau yn Gymraeg<br>• Rhaid i unrhyw ddatblygiad tai newydd wella darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu wella'r mynediad iddi. | |

Draft

### 3.2 Casgliad

3.2.1 Fel y nodwyd yn y tabl uchod, mae newidiadau yn y polisi/canllawiau/tystiolaeth/materion wedi golygu bod angen trafodaeth fwy manwl o ran y papur pwnc hwn.

3.2.2 Dylai'r strategaeth genedlaethol newydd gael ei hystyried ochr yn ochr â pholisïau'r CDLl.

## 4. Cyd-destun Lleol

### 4.1 Cefndir

4.1.1 Mae'r Papurau Pwnc a ysgrifennwyd ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir a'r Adneuo yn nodi rhagor o fanylion o ran y Gymraeg o fewn y sir. Mae'r manylion hyn yn parhau i fod yn berthnasol, felly ni chânt eu hailadrodd yma. Fodd bynnag, mae'r adran ganlynol yn crynhoi sut mae'r wybodaeth ym mhapur 2010 wedi dylanwadu ar gynnwys y CDLl a'r dull o'i gynhyrchu.

4.1.2 O'r sylfaen dystiolaeth, nodwyd nifer o amcanion a lywiwyd gan faterion allweddol (gweler CDLl Cyfrol 1 tudalen 26-27) a oedd yn gallu cael sylw, o leiaf yn rhannol, gan y CDLl/yr amcan perthnasol, ac mae'r materion allweddol hyn fel a ganlyn:

**Amcan 8:**
Cynorthwyo datblygiad y Gymraeg a hybu cymunedau dwyieithog a chynhwysol yng Ngheredigion.

Materion Allweddol: MA 1.2, MA 2.1, MA 4.1 a MA 5.1

4.1.3 Cafodd y materion allweddol ac amcanion hyn sylw wedyn, lle'n bosibl, o fewn polisïau'r CDLl. Y polisïau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg yw DM01: Rheoli Effeithiau Datblygiad ar Gymunedau a'r Gymraeg a DM08: Arwyddion ac Enwau Lleoedd Dwyieithog. Dyma'r polisïau a fydd yn cael eu trafod yn y papur hwn o ran dibenion yr adolygiad hwn. Mae'r polisi a nodwyd uchod yn pwysleisio'r angen i ddiogelu cymunedau lleol a'r Gymraeg, cyn belled â bo'n bosibl, gan y broses gynllunio.

Draft

## 4.2 Sefyllfa Bresennol

4.2.1 Mabwysiadwyd y CDLl ym mis Ebrill 2013 a dechreuodd yr adolygiad cyntaf yn ystod 2017-18. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflenwi, a mabwysiadwyd y rhain yn ffurfiol yn ystod Gwanwyn 2018.

4.2.2 Yn ogystal â hyn, mae pum Adroddiad Monitro Blynyddol wedi'u llunio sy'n monitro effeithiolrwydd y CDLl yn erbyn y dangosyddion. Mae targedau wedi'u cynnwys sy'n monitro effeithiolrwydd polisïau'r Gymraeg, a rhestrir y rhain isod:

| **Amcan Cynaliadwyedd** | **Enw** |
|---|---|
| 10a | Hybu'r defnydd o'r Gymraeg |

4.2.3 Mae pedwar dangosydd o fewn yr amcan uchod. Nodir y rhain isod, ynghyd â chanlyniadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol diweddaraf (2018).

| **Dangosydd** | **Perfformiad (1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018)** |
|---|---|
| Nifer a % y bobl sy'n dair blwydd oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl blwyddyn Cyfrifiad. | 31 Mawrth 2011:<br>• Pob unigolyn sy'n dair blwydd oed neu'n hŷn: 73,847<br>• Unigolion sy'n gallu siarad Cymraeg: 34,964<br>• Unigolion nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg: 38,883<br>• Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg: 47% |
| % yr unigolion tair blwydd oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl amcangyfrif o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. | 31 Rhagfyr 2017, unigolion sy'n dair blwydd oed a hŷn:<br>• Pob unigolyn tair blwydd oed a hŷn: 75,000<br>• Unigolion sy'n gallu siarad |



Draft

| | |
|---|---|
| | Cymraeg: 43,900<br>• Unigolion nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg: 29,700<br>• Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg: 58.6% |
| Nifer a % y disgyblion yng Ngheredigion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref. | Mae'r data ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017-2018:<br>• Siarad Cymraeg yn y cartref: 3,356 (35.01%)<br>• Nid ydynt yn siarad Cymraeg yn y cartref: 3,961 (41.33%)<br>• Amherthnasol (methu siarad Cymraeg): 2,215 (23.11%)<br>• Dim gwybodaeth wedi'i darparu: 52 (0.05%) |
| Nifer a % y disgyblion sy'n derbyn Asesiad Athro yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. | Data ar gyfer y flwyddyn 2016-17: Cafodd 470 o ddisgyblion eu hasesu yn Gymraeg allan o gyfanswm o 704 o ddisgyblion (66.76%) |

# 5. Adolygu'r Materion (y Sbardunau)

5.1.1 Mae Tabl 1 sef Materion Allweddol wrth adolygu cynlluniau yn crynhoi'r dadansoddiad o'r Adroddiad Monitro Blynyddol, deddfwriaethau/canllawiau/polisïau newydd/diwygiedig a thystiolaeth newydd/diwygiedig. Darperir rhagor o wybodaeth am y materion hyn isod.

## 5.2 Dangosyddion Adroddiadau Monitro Blynyddol

5.2.1 Mae'r dadansoddiad o amcanion y Gymraeg yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol diweddaraf yn nodi bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amcangyfrif fod nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi cynyddu rywfaint. Ym mis Rhagfyr 2017, gallai 58.6% o bobl yng Ngheredigion siarad Cymraeg. Mae hyn yn o'i gymharu â 53% (2016), a 52.3% (2015 a 2014), 54.3% (2013).

Draft

5.2.2 Yn ôl data addysg a gymerwyd o Gyfrifiad Ysgol blynyddol Ceredigion a Dangosydd Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, nid oes llawer o wahaniaeth wedi'i weld yn nifer y plant sy'n siarad a ddim yn siarad Cymraeg yn y cartref neu'n derbyn asesiadau ysgol yn Gymraeg yn ystod y cyfnod monitro.

5.2.3 Mae polisi DM01 o'r CDLl yn nodi bod angen asesu effaith datblygiadau ar y Gymraeg a'r gymuned mewn amgylchiadau penodol. Er mwyn cefnogi'r gwaith o roi'r polisi hwn ar waith, mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar 23 Mehefin 2015. Ers mabwysiadu'r CCA, mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar berfformiad gofynion Polisi DM01 yn yr Adroddiad Monitro'r Gymraeg blynyddol er mwyn Asesu'r Effaith Ieithyddol ar Gymuned. Fodd bynnag, nid yw'r canllaw hwn o reidrwydd yn adlewyrchu'r TAN 20 diweddaraf a bydd angen ei ddiwygio yn unol â'r polisi newydd yn ystod y broses adolygu.

### 5.3 Newidiadau i /Polisi Newydd / Deddfwriaeth

5.3.1 Ers i'r CDLl gael ei adneuo, mae'r ddeddfwriaeth/polisi/canllaw canlynol wedi'i ryddhau neu ei ddiweddaru.

## 6. Newidiadau Deddfwriaeth neu Bolisi

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20

6.1.1 Newid arwyddocaol i'r polisi ers mabwysiadu'r CDLl cyfredol yw'r diweddariad i TAN 20: Cynllunio a'r Gymraeg ym mis Hydref 2017. Mae TAN 20 yn cyflwyno canllawiau ar rôl y system gynllunio i gefnogi'r Gymraeg pan fydd CDLlau yn cael eu paratoi a phan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar geisiadau cynllunio. Mae'r TAN wedi'i rannu'n ddwy brif adran, gyda'r un gyntaf yn ymdrin â chyngor ar bolisi a'r ail ran yn darparu canllawiau ymarferol. Noda'r TAN mai'r brif ffordd o ystyried y Gymraeg yw drwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystod cyfnod paratoi'r cynllun.

6.1.2 Mae TAN 20 yn cydnabod y gall y ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg amrywio'n fawr rhwng ardaloedd awdurdod. Er mwyn ystyried a chynllunio ar gyfer hyn, gall Awdurdodau Cynllunio Lleol ddiffinio ardaloedd lle y mae

Draft

arwyddocâd neu sensitifrwydd penodol i'r iaith. Gall mesurau lliniaru gael eu hawgrymu o fewn yr ardaloedd hyn er mwyn lleihau effeithiau datblygiadau ar y Gymraeg.

6.1.3 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghorai o'r CDLl, a dylid ymgynghori ag ef yn gynnar i ystyried effeithiau cynigion a pholisïau'r CDLlau ar y Gymraeg.

6.1.4 Gofyniad pwysig a nodir yn TAN 20 yw na ddylai ceisiadau cynllunio gael Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn rheolaidd, oherwydd byddai hyn yn dyblygu'r Asesiad o Gynaliadwyedd a phroses dyrannu safle'r CDLl. Yr unig eithriad i hyn yw ar gyfer datblygiadau mawr ar hap-safleoedd (mewn ardaloedd sydd wedi'u diffinio fel rhai sensitif neu arwyddocaol yn ieithyddol – os yw'r rhain yn cael eu dewis, fel arall, y sir gyfan). Y rheswm dros hyn yw na wyddys union leoliad a graddfa datblygiadau ar hap-safleoedd yn ystod y cyfnod cynllunio, felly ni wyddys chwaith yr effaith ar y Gymraeg. Y trothwy arferol ar gyfer datblygiad mawr yw 10 uned breswyl neu fwy, ond gellir gosod trothwyon lleol ar sail tystiolaeth.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

6.1.5 Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg, a oedd yn adeiladu ar ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Roedd prif ganlyniadau'r Mesur fel a ganlyn:

- sefydlu statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg yng Nghymru
- sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg
- sefydlu system o safonau Cymraeg
- sefydlu hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg

6.1.6 Mae'r Mesur yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai pobl Cymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

6.1.7 Yn unol â'r Mesur hwn, sefydlwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg, sy'n gyfrifol am osod Safonau'r Gymraeg ar sefydliadau. Cyflwynwyd hysbysiad

Draft

cydymffurfio i Gyngor Sir Ceredigion ar 30 Medi 2015 o dan adran 44 y Mesur, sy'n nodi'r safonau y dylai'r Awdurdod eu dilyn. Mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i'r ffordd y mae awdurdodau cynllunio lleol yn cyfathrebu ar y CDLl a'i ddiwygiad. O ran llunio polisïau (gan gynnwys proses adolygu'r CDLl), mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn gofyn i'r Awdurdod ystyried sut gellid llunio polisi newydd (neu sut gellid newid y polisi cyfredol) fel bod y penderfyniad polisi naill ai:

- Yn cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol neu
- Ddim yn cael effaith niweidiol, neu lai o effaith niweidiol ar y Gymraeg

6.1.8 Dylai'r penderfyniad polisi hefyd sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

6.1.9 Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio hefyd yn gofyn i'r Awdurdod lunio Strategaeth Iaith (Safonau Hyrwyddo 145/146), sydd â'r nod o amlinellu sut bydd yr awdurdod yn gweithio i hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang o fewn yr ardal leol. Yn Strategaeth Iaith Ceredigion, cydnabyddir fod system cynllunio defnydd tir yn gallu cyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg. Felly, nodwyd y bydd asesiad o effeithiau tebygol polisïau cynllunio ar y Gymraeg yn cael ei gynnal ar bob cam.

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015

6.1.10 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yn cynnwys saith nod llesiant sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf hon yn berthnasol ac yn bwysig iawn i'r Gymraeg, oherwydd un o'r saith nod llesiant yw, 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.’ Rhaid ystyried y Ddeddf llesiant a'i nodau wrth baratoi CDLl. Mae angen llunio cynllun llesiant lleol yn unol â'r cynllun cenedlaethol a fydd yn benodol i'r sir. Dylai gweledigaeth, amcanion a pholisïau'r CDLl gyd-fynd â'r nodau llesiant cenedlaethol a'r blaenoriaethau ac amcanion llesiant lleol.

Draft

Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050

6.1.11 Cyhoeddwyd Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050 yn 2017 ac mae'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru y bydd y Gymraeg yn ffynnu ac yn cael ei siarad gan filiwn o bobl erbyn 2050. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid gwyrdroi'r dirywiad sydd wedi digwydd dros y degawdau blaenorol. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, mae tair thema strategol wedi'u nodi, sef:

Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

1. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
2. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

6.1.12 Gall cynllunio gael dylanwad ar y drydedd thema strategol. Mae'r strategaeth yn nodi y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg drwy greu amodau addas ar gyfer cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu, a gefnogir gan ymwybyddiaeth o egwyddorion perthnasol cynlluniau iaith. Mae'n pwysleisio'r angen i gryfhau'r berthynas rhwng cynlluniau defnydd tir a chynlluniau iaith. Gall rhai mathau penodol o ddatblygiadau, eu graddfa a'u lleoliad effeithio ar yr iaith, felly mae angen ystyried yn ofalus yn ystod y camau cynllunio a phenderfynu. I atal hyn rhag digwydd, dylid ystyried y Gymraeg wrth baratoi'r CDLl, a dylid cynnal asesiad o effeithiau tebygol y polisïau ar y Gymraeg.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

6.1.13 Mae'r Ddeddf hon yn diwygio Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gynnwys y gofyniad i'r Gymraeg gael ei chynnwys yn Asesiad o Gynaliadwyedd y CDLl. Dylai hwn gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal yr awdurdod.

Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 (Rhagfyr 2018)

6.1.14 Mae pum 'Canlyniad Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol' o fewn fersiwn ddiweddaraf Polisi Cynllunio Cymru, y dylid eu defnyddio i lywio'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu ac asesu cynigion datblygu. Mae pwysigrwydd y Gymraeg yn amlwg, oherwydd dylai Canlyniad Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol: Creu a Chynnal Cymunedau, alluogi'r Gymraeg i ffynnu.



Draft

6.1.15 Trafodir y Gymraeg a Chreu Lleoedd ymhellach yn y polisi, oherwydd mae'n nodi bod yr iaith yn rhan o'r gwead cymdeithasol a diwylliannol, a bydd ei llesiant yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, megis addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau a lleoedd cynaliadwy sy'n ffynnu. Mae gan y system cynllunio defnydd tir rôl i chwarae yn nyfodol y Gymraeg ac mae'n cyfrannu at y nod llesiant, Cymraeg sy'n ffynnu. Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

6.1.16 Dylid rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth nodi strategaeth briodol ar gyfer cyflenwi tai yn ardal y cynllun yn ystod Amcanestyniad awdurdod lleol diweddaraf Llywodraeth Cymru o aelwydydd ar gyfer Cymru, Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r cynllun Llesiant ar gyfer ardal y cynllun. Rhaid hefyd rhoi ystyriaeth briodol i'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach yn ardal y cynllun er mwyn sicrhau bod lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynus yn cael eu creu.

# 7. Tystiolaeth

## 7.1 Sefyllfa'r Gymraeg

7.1.1 Roedd bron hanner y boblogaeth yng Nghymru yn siarad Cymraeg ar ddechrau'r $20^{fed}$ Ganrif. Nododd Cyfrifiad 1911 fod bron miliwn o bobl yn siarad Cymraeg, ond gwnaeth % y siaradwyr Cymraeg ym mhob grŵp oedran ddirywio o un cyfrifiad i'r llall dros y ganrif honno.

## 7.2 Proffil Ieithyddol Ceredigion

7.2.1 Ers i'r CDLl gael ei adneuo, mae'r dystiolaeth ganlynol wedi'i rhyddhau/diweddaru.

7.2.2 Mae'n bwysig ystyried niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg o fewn Ceredigion. Dangosir y rhain isod, ynghyd â'r ffigurau dros Gymru.

Draft

**Y nifer a'r canran o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (tair blwydd oed a hŷn) 2001-2011**

| | **2011** | | **2001** | | **Gwahaniaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **Ceredigion** | 34,964 | 47.3% | 37,918 | 52% | -2,954 | -4.7% |
| **Cymru** | 562,016 | 19% | 582,368 | 20.8% | -20,352 | -1.7% |

7.2.3 Fel yr amlygir yn y tabl uchod, disgynnodd nifer a chanran y bobl dros dair blwydd oed a nododd y gallent siarad Cymraeg yng Ngheredigion a thros Gymru gyfan. Felly, ar sail y Cyfrifiad diweddaraf, mae'r sefyllfa ieithyddol yng Ngheredigion yn adlewyrchu'r tueddiadau cenedlaethol i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae paragraff 5.2.1 yn amlygu fod data'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn amcangyfrif cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion. Er bod y data Cyfrifiad diweddaraf yn mynd yn ôl i 2011, hwn yw'r data a fydd yn cael ei drafod yma fel y ffynhonnell fwyaf dibynadwy.

7.2.4 Mae adroddiad Cyfrifiad 2011 wedi dangos bod dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg wedi newid yng Nghymru. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn awdurdodau de-ddwyrain Cymru yn benodol, ond gwelwyd dirywiad yng nghanrannau'r pedwar awdurdod gyda'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Un o brif elfennau'r proffil ieithyddol cenedlaethol yn ystod y degawd rhwng 2001 a 2011 oedd symudiad y boblogaeth a'r newidiadau demograffig a ddaeth yn sgil hyn.

7.2.5 Gall y sefyllfa ieithyddol amrywio o un ardal i'r llall, gyda gwahanol ffactorau cymdeithasol yn effeithio ar ardaloedd unigol mewn gwahanol ffyrdd. Yn gyffredinol, gwelwyd cwymp yng nghanran y bobl a nododd eu bod yn siarad Cymraeg ledled y sir. Yn ôl adroddiad Cyfrifiad 2001, roedd 70% o boblogaeth pedair cymuned yn gallu siarad Cymraeg, ond erbyn 2011, nid oedd unrhyw gymuned yng Ngheredigion gyda mwy na 70% o'i phoblogaeth yn siarad Cymraeg. Yn ogystal â hyn, syrthiodd nifer y wardiau â mwy na 60% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg o 17 o wardiau yn 2001 i saith ward

Drafft

yn 2011 (gweler y tabl isod). Ar nodyn mwy cadarnhaol, o'r 40 o wardiau, cofnodwyd fod gan 24 ohonynt boblogaeth lle roedd dros hanner y boblogaeth dros dair blwydd oed yn gallu siarad Cymraeg. Nododd Arolwg Defnydd Iaith 2014-15 fod 73% o siaradwyr Cymraeg rhugl yng Ngheredigion yn siarad Cymraeg bob dydd.

7.2.6 Tregaron (67%), Llandysul (64%) ac Aberaeron (60%) oedd y wardiau â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn 2011, a hyn hefyd oedd yr achos yn 2001. Ardal Aberystwyth oedd â'r ganran isaf, gydag oddeutu chwarter i draean o drigolion wardiau Aberystwyth wedi'u cofnodi fel siaradwyr Cymraeg, sy'n dangos dylanwad y Brifysgol a sefydliadau eraill ar y dref. Y tu allan i Aberystwyth, roedd mwy na 45% o boblogaeth bron pob ward yn siarad Cymraeg. Gweler y tablau isod

**Newidiadau i'r % sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion yn ôl Adroddiad Cyfrifiad 2001 a 2011**

| **Ward** | **% sy'n gallu siarad Cymraeg 2001** | **% sy'n gallu siarad Cymraeg 2011** | **Newid** |
|---|---|---|---|
| Aberaeron | 71.2 | 64.6 | -6.6 |
| Aber-porth | 49.6 | 49 | -0.6 |
| Aberteifi | 63.9 | 59.2 | -4.7 |
| Aberystwyth / Llanbadarn | 43.1 | 34.5 | -8.6 |
| Beulah | 60 | 54.2 | -5.8 |
| Borth | 43.9 | 42.8 | -1.1 |
| Ceinewydd | 50.6 | 46.2 | -4.4 |
| Ceulanamaesmawr | 61.7 | 55.9 | -5.8 |
| Ciliau Aeron | 62.4 | 58.4 | -4 |
| Faenor | 50.9 | 39.9 | -11 |
| Llanbedr Pont Steffan | 72.6 | 51.7 | -20.9 |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llanarth | 63.4 | 57.6 | -5.8 |
| Llandyfriog | 64.4 | 58.1 | -6.3 |
| Llandysiliogogo | 56.3 | 52.1 | -4.2 |
| Llandysul (Cymuned) | 65.5 | 63.2 | -2.3 |
| Llanfarian | 59.6 | 55.1 | -4.5 |
| Llanfihangel Ystrad | 66 | 63.1 | -2.9 |
| Llangeitho | 60.3 | 56.9 | -3.4 |
| Llangybi | 54.7 | 54.6 | -0.1 |
| Llanrhystud | 67.7 | 62 | -5.7 |
| Llansanffraid | 62.4 | 55.4 | -7 |
| Llanwenog | 71.4 | 64.6 | -6.8 |
| Lledrod | 65.6 | 59.7 | -5.9 |
| Melindwr | 58.1 | 51.6 | -6.5 |
| Penbryn | 54.7 | 52.8 | -1.9 |
| Penparc | 60.8 | 57.5 | -3.3 |
| Tirymynach | 65.3 | 60.5 | -4.8 |
| Trefeurig | 60.2 | 57.4 | -2.8 |
| Tregaron | 78.4 | 68.3 | -10.1 |
| Troed-yr-aur | 63.3 | 57.8 | -5.5 |
| Ystwyth | 64.2 | 58.7 | -5.5 |

**Gwelwyd y dirywiad mwyaf mewn siaradwyr Cymraeg rhwng dyddiadau'r cyfrifiad mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith traddodiadol:**

| **Ward** | **% sy'n gallu siarad Cymraeg 2001** | **% sy'n gallu siarad Cymraeg 2011** | **Newid** |
|---|---|---|---|
| Llanbedr Pont Steffan | 72.6 | 51.7 | -20.9 |
| Faenor | 50.9 | 39.9 | -11 |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tregaron | 78.4 | 68.3 | -10.1 |
| Aberystwyth / Llanbadarn | 43.1 | 34.5 | -8.6 |

**Y % uchaf o siaradwyr Cymraeg mewn wardiau yng Ngheredigion yn ystod 2011**

| **Ward** | **% sy'n gallu siarad Cymraeg 2001** | **% sy'n gallu siarad Cymraeg 2011** | **Newid** |
|---|---|---|---|
| Tregaron | 78.4 | 68.3 | -10.1 |
| Llandysul (Cymuned) | 65.5 | 63.2 | -2.3 |
| Aberaeron | 71.2 | 64.6 | -6.6 |
| Llanwenog | 71.4 | 64.6 | -6.8 |

### 7.3 Sgiliau iaith

7.3.1 Nid yw sgiliau iaith yn fater du a gwyn. Mae ystadegau iaith y Cyfrifiad yn seiliedig ar ganfyddiad unigolion ac aelodau o'u teuluoedd o'u sgiliau eu hunain, ac mae'n amlwg y gall y canfyddiadau hynny fod yn oddrychol ac yn amrywiol. Fodd bynnag, mae Cyfrifiad 2011 yn amlygu'r amrediad o sgiliau sydd yn y sir.

**Yr amrediad o sgiliau Cymraeg yng Ngheredigion 2001-2011**

| | **Siarad Cymraeg** | **Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg** | **Deall Cymraeg yn unig** | **Dim sgiliau Cymraeg** |
|---|---|---|---|---|
| 2011 | 47% | 39% | 8% | 42% |
| 2001 | 52% | 44% | 7% | 39% |

Draft

7.3.2 Wrth ddadansoddi'r duedd tuag at afael gwannach trigolion y sir ar eu sgiliau Cymraeg, rhaid ystyried y newidiadau mawr sydd wedi digwydd i'r boblogaeth o fewn y sir yn ystod y degawd diwethaf. Fodd bynnag, maent yn adlewyrchu'r ffaith bod yn rhaid i strategaethau iaith y sir gynnal cysylltiad ieithyddol trigolion y sir â'r Gymraeg, yn ogystal â'u rhuglder a'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn arwyddocaol yng nghyd-destun y gwasanaethau a ddarperir, defnyddio'r Gymraeg at ddibenion gwaith a defnyddio'r Gymraeg yng nghyd-destun cyfryngau torfol a chyfryngau cymdeithasol.

## 7.4 Symudiad y boblogaeth

7.4.1 Mae symudiad y boblogaeth wedi bod yn ffactor amlwg yn nemograffeg Ceredigion ers rhai degawdau bellach. Cafodd cyfran sylweddol o boblogaeth y wlad yn 2011 – gan gynnwys 9,000 o fyfyrwyr – eu geni y tu allan i Gymru.

**Tabl 5: Man geni poblogaeth Ceredigion 2001 – 2011 [1]**

| | Geni yng Nghymru | Geni yn Lloegr | Geni mewn man arall | Pawb |
|---|---|---|---|---|
| **2011** | 42,005 | 28,385 | 5,532 | 75,922 |
| | 55.3% | 37.4% | 7.3% | |
| **2001** | 43,903 | 27,299 | 3,739 | 74,941 |
| | 58.6% | 36.4% | 4.5% | |

7.4.2 Yn ystod 2011, syrthiodd canran trigolion y sir a anwyd yng Nghymru ymhellach i 55.3% - neu 57.9% y tu allan i dymor y coleg[2]. Yn ystod 2011, roedd 74.6% o boblogaeth Ceredigion a anwyd yng Nghymru (gan gynnwys myfyrwyr) yn gallu siarad Cymraeg o'u cymharu â 47.3% o'r boblogaeth gyfan yn ystod tymor y coleg.[3]

[1] Ffynhonnell data: Tabl 2011 KS204EW; Tabl 2001 KS05
[2] Tabl OT203EW – Gwlad enedigol (o'r boblogaeth y tu allan i amser tymor), Nomis.
[3] Cyfrifiad 2011: Data ar y Gymraeg – trydydd argraffiad, 16 Mai 2013.

Draft

7.4.3 Y tu allan i drefi prifysgol Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan, mae'r twf yn nifer y trigolion a anwyd y tu allan i Gymru yn fwy ymhlith y grwpiau oedran hŷn. Gwelir ffigurau tebyg yng nghwymp cyfatebol y canrannau o siaradwyr Cymraeg. Yn gyffredinol, Cymraeg yw iaith y bobl o dan 50 oed yng Ngheredigion bellach - nid iaith y genhedlaeth hŷn.

7.4.4 Mae'r proffil ieithyddol ar sail grwpiau oedran ar gyfer cymuned Llandysiliogogo yn nodweddiadol o gymunedau mwyaf gwledig y sir.

**Tabl 6: Canrannau'r siaradwyr Cymraeg yn ôl grŵp oedran: Cymuned Llandysiliogogo 2011.**

| Grŵp Oedran | % |
|---|---|
| 3-15 oed | 89.0% |
| 16-24 oed | 78.4% |
| 25-34 oed | 66.7% |
| 35-49 oed | 50.5% |
| 50-64 oed | 38.5% |
| 65+ oed | 37.5% |

## 7.5 Oedran a'r Gymraeg

7.5.1 Fel y gwelir yn y tabl isod, mae % uchaf y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn y grŵp oedran 3-15 oed. Mae Polisi Iaith Ysgolion Ceredigion yn bendant wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau sgiliau disgyblion y sir

| | 3-15 oed | 16-64 oed | 65+ oed | Pawb dros 3 oed |
|---|---|---|---|---|
| **Gallu siarad Cymraeg** | 7,175 (78.4%) | 20,503 (41.8%) | 7,286 (46.4%) | 34,964 (47.3%) |

Draft

## 7.6 Cyflogaeth a'r Gymraeg

7.6.1 Ym maes cyflogaeth, mae trigolion Ceredigion yn dibynnu'n fawr ar y sector cyhoeddus am waith. Amcangyfrifwyd fod oddeutu 40% o swyddi'r sir yn y sector cyhoeddus. Mae addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog yn gyflogwyr amlwg yn y sector hwnnw. Mae amaethyddiaeth, twristiaeth, adeiladu a manwerthu yn gyflogwyr mawr hefyd.

**Tabl 7: Canrannau cyflogaeth meysydd gwaith 2011[4]**

| Maes cyflogaeth | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|
| Addysg | 15.4% | 10.1% |
| Manwerthu | 14.8% | 15.6% |
| Iechyd a gofal | 13.3% | 14.5% |
| Llety ac arlwyo | 8.7% | 6.2% |
| Adeiladu | 8.5% | 8.2% |
| Amaethyddiaeth | 7.1% | 1.7% |

7.6.2 Oherwydd y gyfran uchel o fyfyrwyr llawn amser a'r gyfran uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o drigolion hŷn sydd wedi ymgartrefu yng Ngheredigion, mae cyfran poblogaeth Ceredigion sy'n economaidd weithgar yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol – 26% o boblogaeth Ceredigion sy'n economaidd weithgar o'u cymharu â 36% ledled Cymru.

7.6.3 Hefyd, mae cyfran lai na'r cyffredin yn cael eu cyflogi a chanran uwch o boblogaeth y sir yn hunangyflogedig. Roedd ychydig mwy o'r boblogaeth sy'n economaidd weithgar yn hunangyflogedig neu mewn gwaith rhan-amser yn 2011 nag yn 2001.

[4] Cyfrifiad 2011, tabl KS605EW.



Draft

**Tabl 8: Patrymau cyflogaeth yng Ngheredigion 2001-2011[5]**

| | 2011 | | 2001 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ceredigion** | **Cymru** | **Ceredigion** | **Cymru** |
| **Cyflogedig – llawn amser** | 26.4% | 35.6% | 26.5% | 36.2% |
| **Cyflogedig – rhan-amser** | 11.5% | 13.9% | 9.5% | 11.3% |
| **Hunangyflogedig** | 14.4% | 8.6% | 14.1% | 2.7% |

7.6.4 Mae'n amlwg y dylai unrhyw strategaeth iaith gydnabod rôl graidd yr economi a chyflogaeth o ran hyfywedd y Gymraeg. Mae dwy elfen i'r berthynas honno - yr angen i sicrhau cyflogaeth amrywiol ac eang er mwyn cynnal a chryfhau ardaloedd Cymraeg eu hiaith y sir, ac yn ail, y gwerth a roddir ar sgiliau Cymraeg o fewn cyflogaeth, masnach a diwydiant yn y sir.

7.6.5 Gan ystyried y proffil uchod, mae'r heriau sy'n wynebu'r gymuned Gymraeg ei hiaith yn parhau. Y prif heriau hynny yw:

- Sicrhau cynnydd yn y cyfraddau trosglwyddo iaith a chymdeithasoli'r iaith o fewn y sir
- Cynyddu rhuglder a hyder siaradwyr Cymraeg yn eu sgiliau iaith, ynghyd â'u hymglymiad i'r Gymraeg
- Cynnal a chynyddu'r defnydd cymdeithasol ac economaidd o'r Gymraeg – yn benodol, cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith ac at ddibenion hamdden
- Sicrhau seilwaith cymdeithasol ac economi gadarn sy'n gallu cynnal rhwydweithiau a chymunedau Cymraeg eu hiaith y sir yn y dyfodol.

## 7.7 Arolwg Deiliadaeth Tai 2018

7.7.1 Mae hefyd yn bwysig ystyried canlyniadau'r Arolwg Deiliadaeth Tai Blynyddol. Mae hwn yn nodi o ble mae meddianwyr tai newydd wedi symud (a ydynt wedi dod o rywle o fewn Ceredigion, Cymru, y DU neu dramor) ac a yw'r meddianwyr yn siarad Cymraeg. Dengys arolwg 2018 y daeth 28 o'r

[5] Cyfrifiad 2011, tabl KS601EW.



Draft

ymatebion (atebodd 27% o feddianwyr tai a gwblhawyd yn 2017-2018) o dai a oedd wedi'u cwblhau yn ddiweddar. Mae'r tabl isod yn dangos o ble roedd meddianwyr wedi symud:

| | | |
|---|---|---|
| Ceredigion | 21 | 75% |
| Cymru | 6 | 21% |
| y DU | 1 | 4% |
| Dramor | 0 | 0% |

7.7.2 Mae'r tabl uchod yn dangos bod y rhan fwyaf (75%) o feddianwyr cartrefi newydd yng Ngheredigion eisoes yn byw o fewn y sir. Dim ond saith o'r cartrefi oedd â meddianwyr nad oeddent eisoes yn byw yng Ngheredigion (roedd chwech o'r rhain yn byw yng Nghymru, ac o bosibl eisoes yn byw mewn awdurdod cyfagos).

7.7.3 Roedd 66 o feddianwyr o fewn y 28 o dai. Dangosir sgiliau Cymraeg y rhain yn y tabl isod:

| | | |
|---|---|---|
| Rhugl | 44 | 67% |
| Canolradd | 8 | 12% |
| Dysgwr | 4 | 6% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 10 | 15% |

7.7.4 Mae'r tabl uchod yn dangos bod y mwyafrif o bobl sy'n meddiannu tai newydd yng Ngheredigion yn siaradwyr Cymraeg, ac mae 67% o'r rhain yn rhugl. Gall datblygiadau mawr gael effaith ar y Gymraeg, ond fel y nodwyd yn flaenorol, bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal ar bob safle a ddyrannwyd. Os canfyddir y bydd y safle'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg, bydd y safle hwnnw naill ai ddim yn cael ei ddyrannu neu bydd mesurau lliniaru'n cael eu defnyddio.

Draft

# 8. Dadansoddiad (opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r mater)

## 8.1 Prif negeseuon:

8.1.1 Ceredigion yw un o gadarnleoedd y Gymraeg, a'r sir hon yw'r bedwaredd ardal awdurdod lleol uchaf o ran bod â'r gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

- Gwelwyd dirywiad o -4.7% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion rhwng 2001 a 2011.
- Mae rhai ardaloedd wedi gweld dirywiad gwaeth nag eraill. Gwelwyd y gwymp fwyaf yng Ngheredigion yn Llanbedr Pont Steffan (-20.9%) a
- Thregaron (-10.1%).
- Mae nifer y cymunedau lle mae dros 60% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg wedi dirywio (o 17 i saith cymuned)
- Yng Ngheredigion, trefi fel Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi sy'n debygol o weld y rhan fwyaf o fewnfudwyr di-gymraeg
- Mae cyfran uwch o blant yn siarad Cymraeg pan fydd dau riant y cartref yn siarad yr iaith.

8.1.2 O'r dystiolaeth uchod, mae'r Gymraeg yn chwarae rhan sylweddol yn y gymuned leol, felly mewn gwirionedd, mae gan bob rhan o Geredigion arwyddocâd ieithyddol. Gellir ymdrin â'r sir gyfan fel ardal ieithyddol sensitif, oherwydd mae'n hanfodol fod yr iaith yn cael ei diogelu a'i chryfhau yn y cyfnod cynllunio nesaf. Pwysleisir hyn drwy lunio'r Polisi Cymraeg Strategol yn CDLl 2, a drafodir yn y bennod Argymhellion. Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y sir wedi syrthio o dan 50% am y tro cyntaf mewn hanes. Mae'n hanfodol nad yw'r duedd hon yn parhau yn y dyfodol.

8.1.3 Nodir yr argymhellion ar gyfer y Cynllun diwygiedig yn yr adran ganlynol. Mae angen newid y polisïau Cymraeg cyfredol er mwyn bodloni gofynion polisïau newydd a pholisïau sydd wedi'u diweddaru, yn benodol, TAN 20. Mae pwysigrwydd y Gymraeg wedi'i amlygu mewn deddfwriaeth newydd, yn benodol, yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gyda nod penodol

Draft

sy'n canolbwyntio ar yr iaith, a hefyd gyda Strategaeth y Gymraeg 2050 yn cael ei chyhoeddi gyda'r nod hirdymor o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Drafft

**Dadansoddiad o gynlluniau awdurdodau cyfagos a'u dulliau o weithredu polisi**

| Awdurdod | Cam y CDLl | Cyd-destun Rhanbarthol | Polisïau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Gwynedd | Cyd-gynllun â Chyngor Ynys Môn a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2017 | Uchelgais Gogledd Cymru | POLISI STRATEGOL 1: Y GYMRAEG A DIWYLLIANT CYMRU<br>Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael<br>ei gyflawni trwy'r ffyrdd canlynol:<br>1. Ei gwneud yn ofynnol i gael Datganiad ar y Gymraeg, a fydd yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r Gymraeg, lle y bydd y datblygiad arfaethedig yn perthyn i un o'r categorïau<br>canlynol:<br>a. Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000m2 . neu fwy;<br>b. Datblygiad preswyl, a fydd naill ai'n unigol neu ar y cyd, yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai ddangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 1 - TAI 6;<br>c. Datblygiad preswyl o bump o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddyrannwyd neu safleoedd ar hap o fewn ffiniau datblygu nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodwyd mewn Asesiad o'r Farchnad Dai a ffynonellau tystiolaeth leol |



Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | perthnasol eraill.<br>2. Yn ei gwneud yn ofynnol i gael Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg, a fydd yn datgan sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau’r Gymraeg, lle y bydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai’n arwain at lif gweithlu sylweddol;<br>3. Gwrthod cynigion a fyddai’n achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned na ellir ei osgoi na’i liniaru’n foddhaol trwy ddefnyddio dulliau cynllunio priodol;<br>4. Yn ei gwneud yn ofynnol i gael Cynllun Arwyddion dwyieithog i ymdrin â’r holl arwyddion gweithredol a gaiff eu harddangos yn gyhoeddus, sydd wedi’u cynnig mewn cais cynllunio gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes;<br>5. Gosod disgwyliad y bydd enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd. |
| Cyngor Sir Powys | Mabwysiadwyd ym mis Ebrill 2018 | Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru | Polisi DM12- Datblygiadau yng Nghadarnleoedd y Gymraeg Bydd cynigion datblygu am 10 neu fwy o dai ar safleoedd ar hap o fewn, neu yn ffurfio estyniadau rhesymegol i’r anheddau canlynol yn ddarostyngedig i |

Draft

Draft

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td>Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg. Lle bydd yr Asesiad Effaith yn dangos y gallai’r datblygiad gael effaith niweidiol, mae’n rhaid i’r cynigion gynnwys Cynllun Gweithredu Iaith yn nodi pa fesurau y bwriedir eu cymryd i warchod, hyrwyddo a chryfhau’r Gymraeg a Diwylliant Cymru:<br><br>
<table>
<tr><td>Trefi</td><td>Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Machynlleth ac Ystradgynlais</td></tr>
<tr><td>Pentrefi mawr</td><td>Abercraf, Carno, Coelbren, Llanbrynmair, Llangynog, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin, Pontrobert, Pen-y-bont-fawr a Threfeglwys</td></tr>
</table>
<br>Bydd y broses o weithredu unrhyw fesurau a nodwyd o fewn y Cynllun Gweithredu Iaith yn cael ei sicrhau naill ai drwy amodau cynllunio, neu, lle y bydd angen, trwy rwymedigaethau cynllunio.<br><br>4.2.62 Mae’r Gymraeg a diwylliant</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cymru yn ystyriaethau cynllunio pwysig ym Mhowys. Bydd dyfodol y Gymraeg a diwylliant Cymru yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau gan gynnwys addysg, newidiadau demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy ffyniannus.<br><br>4.2.63 Mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn amrywio ar draws y sir, gyda lefelau uwch yn y gogledd-orllewin a'r de-orllewin. Mae Ardaloedd Cynghorau Cymuned lle mae mwy na 25% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011) yn cael eu cydnabod gan y Cynllun fel ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o wead cymdeithasol rhai neu'r cyfan o'r cymunedau hyn. Mae ardaloedd y Cynghorau Cymuned a ddynodwyd fel Cadarnleoedd y Gymraeg fel a ganlyn: Banwy, Cadfarch, Carno, Dwyriw, Glantwymyn, Llanbrynmair, Llanerfyl, Llanfair Caereinion, Llanfihangel, Llanfyllin, Llangynyw, Llangynog, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin, Llanwddyn, Llywel, Machynlleth, Pen-y-bont-fawr, Tawe Uchaf, Trefeglwys, Ystradgynlais. Yr ardaloedd hyn a welodd y lleihad mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y degawdau diwethaf. Mae diwylliant Cymru a'r |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gymraeg ym Mhowys, a sut i gynllunio ar gyfer eu gwarchod a'u cryfhau, yn cael ei ystyried yn fanwl ym Mhapur Pwnc y Gymraeg a Diwylliant Cymru.<br><br>4.2.64 Roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun yn cynnwys asesu effeithiau sylweddol tebygol y Cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg ym Mhowys. Yn unol â TAN 20, roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun yn asesu effaith polisïau, dyraniadau a'r strategaeth ofodol ar y Gymraeg a chanfuwyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan.<br><br>4.2.65 Ar y cyd â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg hefyd. Mae'r asesiad hwn yn rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd ac fe'i cynhaliwyd i helpu i ddeall beth fyddai effaith debygol datblygiad tai newydd ar gymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys effaith ar gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned o ganlyniad i ddatblygiad tai newydd. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol Powys – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yng Nghymunedau Cwmtawe Uchaf (Mehefin 2013). Daeth yr asesiad i'r casgliad pe bai cynnig datblygu'n debygol o effeithio ar grynodiad lleol o |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | siaradwyr Cymraeg, y byddai angen asesu hyn, a lle bo angen, lliniaru’r effaith drwy ddulliau a ddisgrifir yn yr asesiad.<br><br>4.2.66 Mae’r Cynllun yn cefnogi’r Gymraeg a diwylliant Cymru ar draws y sir gyfan drwy fod yn seiliedig ar strategaeth ofodol sy’n tywys a dosbarthu datblygiadau i leoliadau cynaliadwy, yn unol â’i amcanion a Pholisïau Strategol SP5 a SP6, a thrwy ddarparu cymorth polisi i greu economïau lleol cryf, drwy ddarparu, dosbarthu a rhoi dewis priodol o dai, gan gynnwys rhai fforddiadwy, a thrwy warchod yr amgylchedd hanesyddol ynghyd â chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol sy’n bodoli eisoes.<br><br>4.2.67 Yn ogystal â’r dull sirol hwn o weithredu polisi, awgryma’r dystiolaeth fod datblygiadau tai mawr newydd yn gallu effeithio ar grynodiadau lleol o siaradwyr Cymraeg. Mae’r Cyngor felly’n ystyried ei bod yn bosibl y bydd datblygiad tai newydd o 10 neu fwy o dai mewn aneddiadau haen uwch (trefi a phentrefi mawr) mewn ardaloedd Cynghorau Cymuned, lle mae mwy na 25% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg, yn cael effaith andwyol ar ddiwylliant Cymru a’r Gymraeg. |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 4.2.68 Bydd angen i gynigion datblygiadau tai yn y mannau hyn gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith yn nodi pa fesurau y bwriedir eu cyflwyno i warchod, hyrwyddo a chryfhau'r Gymraeg. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iaith mewn cysylltiad â datblygiadau tai ar hap ar raddfa fawr, a ddiffinnir fel datblygiadau o 10 annedd neu fwy, yn y trefi a phentrefi mawr a nodwyd yng Nghadarnleoedd y Gymraeg yn unol â gofynion TAN 20. Defnyddir canfyddiadau asesiad y Cyngor i bennu p'un a yw'r datblygiad yn debygol o gael effeithiau niweidiol ar y Gymraeg. Os felly, rhoddir cyfle i ymgeiswyr ddangos sut y gellid osgoi neu liniaru'r effeithiau a nodwyd trwy gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith. Mewn achosion lle mae'r Cyngor o'r farn na ellir lliniaru effaith y datblygiad ar y Gymraeg yn effeithiol, gellid gwrthod y cais.<br><br>4.2.69 Bydd manylion gofynion Cynllun Gweithredu Iaith a mesurau priodol i liniaru'r effeithiau ar y Gymraeg a diwylliant Cymru yn adlewyrchu canfyddiadau ac argymhellion allweddol yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, a bydd yn ofynnol eu gweithredu trwy amodau cynllunio, neu, lle bo angen, |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | trwy rwymedigaethau cynllunio. Bydd esboniad pellach yn cael ei ddarparu yn y Rhwymedigaethau Cynllunio – Canllaw Cynllunio Atodol. Gallai enghreifftiau o fesurau lliniaru priodol gynnwys cymorth a chyllid ar gyfer mentrau a phrosiectau ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru, neu reolaeth dros gyflwyno datblygiadau tai newydd yn raddol.<br><br>4.2.70 Disgwylir i'r holl hysbysebion, enwau lleoedd ac arwyddion yng Nghadarnleoedd y Gymraeg fod yn ddwyieithog i warchod eu traddodiad a'u cymeriad ieithyddol lleol a hyrwyddo hynodrwydd diwylliannol. |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Mabwysiadwyd ym mis Chwefror 2019 | Gogledd Cymru / 3 pharc cenedlaethol | Y Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau<br><br>5.45 Mae'r Gymraeg yn sylfaenol i gyfoeth diwylliannol Eryri. Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol yr holl gymunedau yn Eryri. Mae cynnal a sicrhau ffyniant yr iaith yn y dyfodol yn ffurfio rhan amlwg o'r gwaith amddiffyn treftadaeth o fewn y parc, a thrwy hynny'n cyflawni un o brif amcanion y Parciau Cenedlaethol a'u dyletswydd gysylltiedig i 'feithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol'. |



Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan 58.6% o'r boblogaeth gyfan ac mewn rhai cymunedau mae'r iaith yn cael ei siarad gan dros 75% o'r preswylwyr. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel mater cynllunio. Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau’r Gymraeg a thrwy hynny gyfrannu at ei lles. Mae'r Gymraeg wedi ei hystyried wrth ffurfio polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys gallu gwahanol ardaloedd a chymunedau i ddarparu ar gyfer datblygiad heb gael effaith niweidiol ar y Gymraeg. I sicrhau bod cymunedau'n datblygu mewn modd cynaliadwy, mae'n hanfodol, wrth feddwl am newid, ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar y sefyllfa ac a yw'r datblygiad newydd sy'n cael ei gynllunio'n addas a pherthnasol.<br><br>5.47 Er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch ceisiadau a allai gael effaith ar ddyfodol y Gymraeg mewn cymunedau, mae'r Awdurdod wedi paratoi Canllaw Cynllunio Atodol (3) Cynllunio a'r Gymraeg. Mae'r canllaw yn ceisio delio â’r mater drwy edrych ar gymunedau mewn modd cyfannol, gan roi ystyriaeth briodol i iaith fel elfen sy'n rhan hanfodol o weithgareddau a bywyd cymunedol. |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r canllaw hefyd yn nodi'r gofynion gwybodaeth mewn perthynas â'r Gymraeg sydd eu hangen i ategu ceisiadau cynllunio nad ydynt ar safleoedd a ddyrannwyd neu o fewn ffiniau datblygiadau tai. Ar gyfer datblygiadau llai, gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol' i ategu eu ceisiadau cynllunio. Ystyrir bod datblygiadau llai yn yr achos hwn yn gynigion ar gyfer pump neu fwy o unedau preswyl ar safle/tir nad yw wedi'i ddyrannu yn y cynllun datblygu at ddefnydd preswyl; datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristaidd sy'n ymestyn dros 1000m2 neu fwy; datblygiad sy'n debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol neu gyfleoedd cyflogaeth a datblygiad twristiaeth sy'n creu 10 neu fwy o unedau gwyliau. Ni fwriedir i'r broses o ddarparu datganiad fod yn feichus ar y datblygwr. Ymdrinnir â nifer o agweddau ar y datganiad yn y Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM) a byddai ychwanegiad pellach at y DDM i gynnwys gofynion am Ddatganiad Ieithyddol fel yr eglurir yn y Canllaw Cynllunio Atodol yn dderbyniol. Ar gyfer datblygiadau graddfa fwy, bydd yn ofyniad gan yr awdurdod cynllunio dderbyn dadansoddiad manylach o effeithiau posib, a fydd yn cael ei gyflwyno ar ffurf 'Asesiad Effaith |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cymunedol ac Ieithyddol'. Yn yr achos hwn, ystyrir bod datblygiadau mwy yn gynigion sy'n llawer iawn uwch na throthwyon datblygiadau llai ac yn debygol o gael eu lleoli ar safleoedd heb eu dyrannu, yn meddu ar ryw arwyddocâd y tu hwnt i ffin y Parc Cenedlaethol ac o bosib heb fod yn perthyn i bolisïau penodol yn y Cynllun. Ni fydd eu heffaith bosibl ar gymunedau wedi'i hystyried fel rhan o broses paratoi'r Cynllun, ac felly bydd angen asesiad ieithyddol manylach i sicrhau arfarniad priodol. Lle mae'n debygol y bydd ffactorau ieithyddol difrifol a fydd yn effeithio'n niweidiol ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned, bydd yr Awdurdod yn ystyried gwrthod y cynnig am y rheswm hwn yn unig.<br><br>5.48 Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, gan weithio gyda'i bartneriaid, hefyd yn ymrwymedig i annog cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol sydd ar gael yn lleol sy'n cyfrannu at fywiogrwydd y gymuned, lles yr iaith ac i gefnogi mentrau sy'n cryfhau cydlynu a grymuso cymunedol.<br><br>5.49 Gall arwyddion gael effaith weledol fawr ar gymeriad Eryri, gan gynnwys y cymeriad ieithyddol. Mae arwyddion yn ddull o hyrwyddo diwylliant nodedig |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Eryri, a gallant gyfrannu'n sylweddol at y Synnwyr o Le, sydd o bwysigrwydd i hunaniaeth cymunedau unigol yn ogystal â'r diwydiant twristiaeth.<br><br>Polisi Datblygu 18: Y Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol cymunedau (18)<br><br>Wrth benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio o fewn y Parc Cenedlaethol bydd anghenion a buddiannau'r Gymraeg yn cael eu hystyried. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy'r ffyrdd canlynol:<br><br>i. Cefnogi datblygiad sy'n cynnal neu'n gwella cyfanrwydd y Gymraeg.<br><br>ii. Gwrthod datblygiad a fyddai, oherwydd ei faint, graddfa neu leoliad, yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned. Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth am geisiadau a allai gael effaith ar ddyfodol y Gymraeg o fewn cymunedau, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno:<br><br>a) 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol' i ategu cais cynllunio am safleoedd ar hap annisgwyl sydd â phump neu fwy o unedau preswyl; datblygiad masnachol, |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | diwydiannol neu dwristaidd sy'n ymestyn dros 1000m2 neu fwy; datblygiad sy'n debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol neu gyfleoedd cyflogaeth a datblygiad twristiaeth sy'n creu deg neu fwy o unedau gwyliau.<br><br>b) Asesiad mwy manwl ar ffurf 'Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol' i ategu cais cynllunio lle bydd y datblygiadau ar raddfa fwy. Yn yr achos hwn, ystyrir bod datblygiadau mwy yn gynigion sy'n llawer iawn uwch na'r trothwyon a amlinellir mewn meini prawf ac yn debygol o gael eu lleoli ar safleoedd heb eu dyrannu, yn meddu ar ryw arwyddocâd y tu hwnt i ffin y Parc Cenedlaethol a heb fod yn perthyn i bolisïau penodol yn y Cynllun.<br><br>iii. Lliniaru rhag unrhyw effaith andwyol trwy ei gwneud yn ofynnol, dan yr amgylchiadau priodol, i gael cyfraniad ariannol trwy gyfrwng cytundeb Adran 106.<br><br>iv. Annog yr holl arwyddion gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes i fod yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig i amddiffyn a hyrwyddo amwynder diwylliannol nodedig y Parc Cenedlaethol.<br>v. Annog defnyddio enwau lleoedd |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd ac enwau tai a strydoedd. |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Strategaeth 2019 a Ffefrir. Disgwylir ei mabwysiadu rhwng mis Tachwedd a Rhagfyr 2021. | Rhanbarth Dinas Abertawe | **Polisi Strategol – PS 7: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru<br>Mae'r Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu sy'n diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y sir. Ni fydd cynigion datblygu sy'n cael effaith niweidiol ar fywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru yn cael eu derbyn oni bai y bydd modd lliniaru'r effaith.<br>11.66 Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd preswylwyr Sir Gaerfyrddin a'i hymwelwyr. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn sylweddol uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac, oherwydd hyn, mae'n rhan sylweddol o wead cymdeithasol cymunedau'r sir, gan gynnig ymdeimlad cadarn o le a hunaniaeth.<br><br>11.67 Nod y Cynllun yw 'hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru' ac mae'n ymrwymedig i gyfrannu at nod hirdymor Llywodraeth Cymru o sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd y Cyngor yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy sicrhau bod cyfleoedd digonol a |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | chymesur ar gyfer cyflogaeth a thai er mwyn cynnal cymunedau gwledig a threfol y sir. Drwy wneud hyn, mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod y boblogaeth leol yn aros yn Sir Gaerfyrddin yn lle gorfod gadael i chwilio am gyflogaeth a thai.<br><br>11.68 Mae'r angen i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg yn berthnasol i ddatblygiadau arfaethedig ledled y sir ac nid yw'n gyfyngedig i ardaloedd penodol yn y sir. Bydd angen i gynigion datblygu gydnabod statws swyddogol y Gymraeg ac ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.<br><br>11.69 Bydd polisïau penodol yn darparu rhagor o arweiniad i sicrhau bod datblygiad o'r raddfa, math a chymeriad priodol yn cael ei gyflawni i ddiwallu anghenion y cymunedau. Yn ogystal â hyn, bydd yn anelu at sicrhau bod y datblygiad yn mynd rhagddo ar raddfa y gellir ei hamsugno a'i chymhathu heb niweidio cymeriad y gymuned.<br><br>11.70 Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin trwy amcanion polisi perthnasol eraill, yn bennaf drwy ddarparu tai a thai fforddiadwy, hyrwyddo economi fywiog a chyfleoedd |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyflogaeth, a darparu a chadw cyfleusterau cymunedol. |
| Cyngor Sir Benfro | Strategaeth 2019 a Ffefrir | Rhanbarth Dinas Abertawe | SP17 Y Gymraeg<br><br>Mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn ystyriaeth bwysig, fel sy'n cael eu nodi ar y Map Cynigion, bydd angen asesu effaith debygol cynigion datblygu mawr ar safleoedd ar hap ar y Gymraeg.<br><br>Bydd unrhyw ddatblygiad yn cael ei reoli'n sensitif mewn ardaloedd lle mae gan y Gymraeg ran sylweddol yn y gymuned leol. Gall hyn gynnwys y lleoliad, cyflwyno'n raddol, arwyddion a mesurau lliniaru priodol eraill.<br><br>Materion Allweddol Cysylltiedig: Cymunedau Dyfeisgar Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B, C, F.<br><br>6.94 Rhan bwysig o'r hyn sy'n gwneud Sir Benfro'n arbennig i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd yw ei diwylliant ieithyddol.<br><br>6.95 Cymraeg 2050 yw strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg. Mae'n cyflwyno dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyflawni ei gweledigaeth sef sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu a bod miliwn o |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | bobl yn siarad Cymraeg erbyn 2050. Caiff tair thema strategol eu nodi i helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.<br>• Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg<br>• Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg<br>• Creu amgylchiadau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.<br><br>6.96 Bwriad y strategaeth yw creu amgylchiadau ffafriol ar gyfer dysgu a defnyddio'r Gymraeg o fewn y teulu, yn y gweithle, trwy weithgareddau lleol neu gyda rhwydweithiau ehangach. Mae'r strategaeth yn cydnabod swyddogaeth y drefn cynllunio defnydd tir wrth gyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg trwy greu amgylchiadau addas ar gyfer cymunedau ffyniannus, cynaliadwy. Gall hyn gynnwys cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith a chefnogi economi gynaliadwy ffyniannus mewn ardaloedd gwledig. Mae'n bosibl y bydd penderfyniadau ynghylch math, maint a lleoliad datblygiad mewn cymuned benodol yn cael effaith ar y defnydd o'r iaith.<br><br>6.97 Ledled y sir roedd 19.2% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg ar adeg Cyfrifiad 2011. Mae hyn yn is na 21.8% o'r boblogaeth ar adeg Cyfrifiad 2001 ond yn uwch nag yn 1991 pan |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | oedd yn 18.3%.<br><br>6.98 Fodd bynnag, mae cryn amrywiad daearyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg, gyda chyfran fach iawn yn ne'r sir a llawer mwy o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd y sir.<br><br>6.99 Mae'r polisi hwn yn pwysleisio'r angen i gefnogi a gwella proffil ieithyddol a diwylliannol y cymunedau lleol hynny lle mae'r Gymraeg yn chwarae rhan sylweddol, a bydd yn berthnasol mewn cymunedau lle mae mwy nag 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.<br><br>6.100 Gwnaed Arfarniad o Gynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir, gan gynnwys yr effeithiau tebygol ar y defnydd o'r Gymraeg. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â TAN 20 'Cynllunio a'r Gymraeg' Hydref 2017 ac unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Safleoedd Datblygu sydd ar y gweill, a fydd yn nodi mesurau lliniaru priodol ar gyfer dyrannu tir yn y Cynllun.<br><br>6.101 Lle bydd cais am safle ar hap ar gyfer datblygiad mawr mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn arwyddocaol, bydd Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith yn cael ei baratoi ac efallai y bydd angen mesurau lliniaru. Gallai'r rhain gynnwys |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyflwyno'n raddol, arwyddion a chyfraniadau adran 106 i gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith. |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cynllun Adneuo 2018 | De-orllewin Cymru / 3 pharc cenedlaethol | Y Gymraeg<br><br>4.77 Amlinellir nodau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050. Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i ddarparu cyfleoedd hawdd eu cael i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'u sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol a gwaith. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi ei bod yn hanfodol creu amgylchiadau ffafriol i annog nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn golygu sicrhau ewyllys da tuag at yr iaith a darparu seilwaith iaith, fel technoleg a deddfwriaeth, ond mae hefyd yn ymwneud â sicrhau dyfodol economaidd a chymdeithasol i gymunedau sy'n siarad Cymraeg.<br><br>4.78 Bydd dyfodol yr iaith ar draws Cymru yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau y tu hwnt i'r system cynllunio gwlad a thref, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i sicrhau cymunedau cynaliadwy ffyniannus. Gall y system gynllunio gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy sefydlu'r amodau i alluogi |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cymunedau cynaliadwy i ffynnu. Er enghraifft, mae creu amodau ar gyfer cyfleoedd i gael gwaith sy'n talu'n dda ac ystod o opsiynau tai o safon yn rhan annatod o gynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy.<br><br>4.79 Mae'r Papur Cefndir ar y Gymraeg yn rhoi cyngor ar y dull a gymerwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol 2. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd yn darparu asesiad o effeithiau cynigion ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg.<br><br>4.80 Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol. Fe'i siaredir gan 19.2% o'r boblogaeth ac mae gan eraill rywfaint o wybodaeth o'r iaith neu maent wrthi'n ei dysgu, er enghraifft, trwy'r cynnydd yn yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn y sir. Mae amrywiadau sylweddol rhwng y gyfran sy'n siarad Cymraeg mewn gwahanol gymunedau. Mae strategaeth y Cynllun yn cydnabod ac yn amddiffyn yr iaith fel un o'r Nodweddion Arbennig (Gweler Polisi 8). Fel arfer bydd y polisi isod yn gymwys yn ardaloedd y Cynghorau Cymuned a Thref lle mae 19.2% neu ragor o bobl yn siarad Cymraeg, fel y nodwyd yn y Cyfrifiad. At ddibenion y polisi hwn, gelwir yr |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ardaloedd hyn yn 'ardaloedd Cymraeg sensitif'.<br><br>4.81 Mae cyngor y Llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi'i nodi yn Nodyn Cyngor Technegol 20 (Hydref 2017) sy'n dweud y dylai'r system cynllunio defnydd tir hefyd ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg, a thrwy wneud hynny, gall gyfrannu at ei lles.<br><br>Polisi 14 Datblygiad mewn Ardaloedd Cymraeg Sensitif<br><br>Bydd cynigion datblygu annisgwyl o fewn yr Ardaloedd Cymraeg Sensitif a nodwyd (a ddangosir ar y Map Cynigion), yr ystyrir eu bod yn debygol o gael effaith sylweddol ar y Gymraeg, yn destun Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, gan nodi'r mesurau i'w cymryd i ddiogelu , hyrwyddo a chryfhau'r iaith.<br><br>Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n achosi effaith andwyol annerbyniol ar y Gymraeg.<br><br>4.82 Gall mesurau lliniaru leihau neu ddileu effeithiau andwyol posibl datblygiad ar y Gymraeg. Fodd bynnag, lle gellir dangos yn rhesymol, ar sail cynllunio (er enghraifft, graddfa'r |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | datblygiad a gynigir), y gallai datblygiad achosi niwed i rôl a lles parhaus y Gymraeg yn y gymuned honno, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gwrthwynebu datblygiad o'r fath.<br><br>4.83 Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 ar y Gymraeg, Hydref 2017, yn cynghori y bydd polisïau mabwysiedig y Cynllun Datblygu Lleol eisoes wedi rhoi ystyriaeth i anghenion a buddiannau'r Gymraeg, gan gynnwys y goblygiadau o ran safleoedd ar hap, ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad sy'n cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun. Ni ddylai'r safleoedd hyn, na'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun felly fod yn destun asesiad o'r effaith ar y Gymraeg gan fod hyn eisoes yn ofyniad wrth baratoi'r Cynllun. Dim ond datblygiadau ar raddfa fawr ar safleoedd ar hap o fewn yr ardaloedd ieithyddol sensitif penodedig yr ystyrir eu bod yn debygol o gael effaith sylweddol ar y Gymraeg a fydd yn gofyn am asesiad o'r effaith debygol ar y Gymraeg. At ddibenion y polisi hwn ystyrir bod 'datblygiad ar raddfa fawr' yn 'ddatblygiad mawr' fel y'i diffinnir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (gweler Atodiad 1 Tir â Chaniatâd Cynllunio neu Orchymyn Caniatâd Datblygu am esboniad). Awdurdod y |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Parc Cenedlaethol fydd yn gyfrifol am gynnal unrhyw asesiad y mae'n ei ystyried yn ofynnol, a ffurf yr asesiad hwnnw.<br><br>4.84 Mae'r ardal wedi'i nodi ar y Map Cynigion. Fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried a fu unrhyw newid cyd-destunol sylweddol o ran y sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi'r polisi hwn. Bydd yr Awdurdod yn ystyried a oes angen newidiadau ac a oes angen cynnal adolygiad dewisol cyn yr un swyddogol ymhen pedair blynedd.<br><br>4.85 Efallai y bydd angen cymhwyso mesurau lliniaru i unrhyw ganiatâd, naill ai trwy osod amodau ar ganiatâd cynllunio neu drwy rwymedigaethau adran 106. Rhaid i bob rhwymedigaeth adran 106 mewn perthynas â lliniaru'r effeithiau ar y Gymraeg, y tybir eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio ac sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r datblygiad, gydymffurfio â rheoliadau. Mae mesurau priodol posibl yn cynnwys polisïau graddol sy'n ategu llwybr cyflawni cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>4.86 Ni ddylid dehongli'r polisi hwn fel un |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sy'n cyfiawnhau datblygiad na fyddai fel arall yn dderbyniol, dim ond am ei fod yn cyfrannu at ddiogelu'r Gymraeg yn y gymuned. Cyngor Llywodraeth Cymru yw na ddylai polisïau geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Rhaid i bolisïau cynllunio beidio â cheisio rheoli meddiannaeth o dai ar sail ieithyddol. |

# 9. Ffactorau sy'n dylanwadu ar y Gymraeg a Goblygiadau ar gyfer y CDLl

9.1.1 Er mwyn gwir ddeall sut y dylid asesu effaith y CDLl ar yr iaith, yn gyntaf oll mae'n bwysig dadansoddi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y Gymraeg. Mae llwyddiant a chynaliadwyedd y Gymraeg yn y dyfodol yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n cynnwys addysg, gweithgareddau cymunedol, newidiadau demograffig a datblygiad economaidd cynaliadwy.

9.1.2 Mae'r rhan hon o'r papur yn ymchwilio ymhellach i'r ffactorau hyn ac yn amlinellu sut y gall y CDLl ddylanwadu arnynt er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg.

## 9.2 Newid Demograffig

9.2.1 Mae newidiadau mewn poblogaethau o fewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg yn un o'r prif ffactorau sy'n tanseilio'r cymunedau hynny. Gall siaradwyr Cymraeg sy'n allfudo a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n mewnfudo gael effaith fawr ar gyfran y siaradwyr Cymraeg. Felly, mae'n bwysig bod y CDLl yn ystyried effeithiau mewnfudo ac allfudo ar y Gymraeg a hwyluso datblygiadau sy'n annog pobl i aros yn eu cymunedau.

9.2.2 Yn y degawdau diwethaf, y duedd ddemograffig mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith oedd bod pobl ifanc yn gadael a'r unig rai oedd yn debygol o gymryd eu lle oedd pobl hŷn, nad oeddent yn siarad Cymraeg. Caiff y



Draft

tueddiadau hyn effaith andwyol ar gydbwysedd cymdeithasol ac economaidd y gymuned ac mae goblygiadau cysylltiedig difrifol i'r Gymraeg gan fod pobl ifanc yn mynd â dyfodol yr iaith yn yr ardaloedd hynny gyda hwy.

9.2.3 Mae'n debygol mai newid demograffig fydd y prif ddylanwad ar gyfansoddiad cymuned ieithyddol ardal y Cynllun yn y blynyddoedd i ddod. Bydd yr allfudiad o siaradwyr Cymraeg ynghyd â'r mewnfudiad o bobl ddi-Gymraeg yn cael effaith sylweddol ar y gyfran sy'n siarad yr iaith. Fodd bynnag, prin yw'r dulliau sy'n gallu cyfyngu ar fewnfudo ac allfudo yn enwedig ym maes cynllunio defnydd tir.

9.2.4 Mae'n bwysig felly fod y CDLl yn:

- Cyfrannu at sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol ac
- ieithyddol y gymuned;
- Ystyried effeithiau mewnfudo ac allfudo ar y
- Gymraeg;
- Hyrwyddo datblygiad a fydd yn annog pobl i aros yn eu
- cymunedau. Bydd hyn yn golygu hyrwyddo datblygiad economaidd cynaliadwy, a cheisio gwella cyfleoedd a gwasanaethau.

## 9.3 Datblygiad Economaidd

9.3.1 Mae nifer uwch o gyflogwyr a gweithwyr yn cydnabod manteision economaidd y Gymraeg y dyddiau hyn. Ledled Cymru mae mwy a mwy o gyflogwyr - yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol - mewn ymateb i ddisgwyliadau cynyddol eu cwsmeriaid, yn dod yn ymwybodol o fanteision defnyddio'r iaith, er enghraifft i wneud y canlynol:

- Gwella ansawdd gwasanaethau cwsmeriaid
- Denu cwsmeriaid newydd
- Cynyddu ymlyniad cwsmeriaid
- Harneisio ewyllys da am gost gymharol isel
- Cael mantais farchnata dros gystadleuwyr
- Gwella ymdrechion cysylltiadau cyhoeddus

9.3.2 Mae sail economaidd gynaliadwy a darparu cyfleoedd busnes a chyflogaeth yn hanfodol er mwyn creu cymunedau cynaliadwy. Mae economi lewyrchus

Draft

yn annog pobl i aros yn eu cymunedau ac wrth wneud hynny, yn cyfrannu at gynnal y Gymraeg.

9.3.3 O ran datblygiad economaidd mae'n bwysig fod y CDLl yn:

- Cynnwys mesurau cadarnhaol a fydd yn hyrwyddo'r Gymraeg;
- Nodi cyfleoedd i hwyluso'r ddarpariaeth o dir/gwagle cyflogaeth ar
- raddfa fach a mawr.
- Hyrwyddo twf economaidd cydnaws ond ar yr un pryd, yn caniatáu
- mesurau penodol i wrthsefyll unrhyw effeithiau niweidiol posib a all ddeillio o rai mathau o ddatblygiadau.

## 9.4 Addysg Ddwyieithog

9.4.1 Mae addysg ddwyieithog yn chwarae rôl bwysig o ran cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg. Felly, bydd yn bwysig arwain datblygiadau tuag at ardaloedd ble mae darpariaeth ddigonol o gyfleusterau addysgol a fydd yn medru cynnal twf yn y boblogaeth.

9.4.2 Bydd yn bwysig fod y CDLl yn:

- Sicrhau bod datblygwyr yn cyfrannu at gyfleusterau addysgol mewn amgylchiadau priodol oherwydd gall y ddarpariaeth o dai newydd roi pwysau annerbyniol a gormodol ar allu ysgolion i weithredu'n effeithiol oherwydd y plant ychwanegol y bydd yn rhaid eu cynnal;

## 9.5 Darpariaeth Tai

9.5.1 Gwyddys bod datblygiadau tai ar raddfa fawr nad ydynt yn cyd-fynd o gwbl â maint ac anghenion y gymuned yn cael effaith andwyol ar gymeriad ieithyddol a diwylliannol ardaloedd. Mae mewnlifiad cyfradd fawr o drigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg i ardal yn debygol o danseilio'r cymunedau llai hynny sy'n siarad Cymraeg ac mae hyn yn gwneud cymhathu yn anodd.

9.5.2 Un o'r rhesymau sy'n egluro pam fod pobl ifanc yn mudo o gymunedau sy'n siarad Cymraeg yw'r diffyg tai marchnad agored priodol a thai fforddiadwy yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Cafwyd cynnydd sylweddol mewn prisiau tai hyd at 2007 ac o ganlyniad, roedd yn anodd i bobl leol (yn enwedig

Draft

prynwyr cyntaf) gystadlu yn y farchnad dai. Er bod prisiau tai wedi disgyn yn ystod y dirwasgiad, mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn ffactor pwysig.

9.5.3 Yn ogystal, gall ail gartrefi / cartrefi gwyliau effeithio ar gymeriad a gwead cymdeithasol ardal neu bentref. Fel arfer, ni fydd perchnogion y tai hyn yn siarad Cymraeg, ac felly bydd hyn yn amharu'n niweidiol ar fuddiannau'r iaith. Yn ychwanegol i hyn, mae'r tai hyn yn cael eu colli o'r stoc dai sydd ar gael i bobl fyw'n barhaol ynddynt, ac mae tueddiad i brisiau godi gan gyfyngu felly ar y dewis o dai i bobl leol Cymraeg eu hiaith.

9.5.4 Ffactor pwysig o ran diogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith, yw cynorthwyo pobl i fyw a phrynu a rhentu tai yn lleol. Bydd sicrhau bod y cymysgedd cywir o dai yn cael eu datblygu ar gyfer anghenion y cymunedau lleol yn bwysig o ran cynnal y Gymraeg.

9.5.5 Mewn cymunedau gwledig llai yn enwedig, efallai y bydd angen cyflogaeth a thai ychwanegol o'r math a'r raddfa gywir i ddiwallu anghenion lleol er mwyn cynnal cymunedau presennol. Dylai'r twf tebygol fod yn gymesur i anghenion cymdeithasol-economaidd y gymuned a'i chapasiti tebygol i newid dros amser heb niweidio'r iaith. Felly, dylai'r CDLl: Nodi cyfleoedd pellach i ddynodi tai fforddiadwy yn yr ardaloedd hynny ble mae angen amdanynt;

- Sicrhau bod graddfa dynodiadau tai marchnad yn briodol i'r ardal leol;
- Hyrwyddo datblygiadau graddol. Dywed Llywodraeth Cymru y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddarparu ar gyfer cyflwyno datblygiadau tai'n raddol a'u dosbarthu'n eang er mwyn sicrhau bod gwahanol ardaloedd a chymunedau yn gallu ymdopi â datblygiad heb erydu sefyllfa'r iaith;
- Cynnwys mesurau a fydd yn cyfyngu ar nifer yr ail gartrefi yn ardal y cynllun;
- Cynnwys mesurau i reoli meddiannaeth tai newydd mewn ardaloedd penodol e.e. lle mae eisoes cyflenwad gormodol o dai haf/gwyliau.

## 9.6 Gweithgareddau Cymunedol

9.6.1 Ffordd bwysig o greu cymunedau cynaliadwy yw sicrhau bod amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol yn cael eu cynnal, yn arbennig felly mewn



Draft

ardaloedd gwledig. Mae adeiladau cymunedol fel neuaddau pentref a chapeli sy'n cynnal gweithgareddau amrywiol, yn chwarae rôl annatod wrth greu cymunedau cynaliadwy. Drwy gynnal gweithgareddau mae adeiladau o'r fath yn dod â chymunedau at ei gilydd, sydd yn ei dro yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae gan y system gynllunio swyddogaeth bwysig i'w chyflawni o ran gwarchod cyfleusterau presennol a hyrwyddo'r ddarpariaeth o rai newydd.

9.6.2 Bydd yn bwysig fod y CDLl yn:

- Gwarchod a chynnal adeiladau lle cynhelir gweithgareddau cymunedol;
- Ystyried mesurau i wrthsefyll unrhyw effeithiau niweidiol posib.

# 10. Casgliadau / Argymhellion

## 10.1 Creu Polisi Strategol: Polisi S06 Cynllunio a'r Gymraeg

10.1.1 Mae'r CDLl cyfredol yn nodi pwysigrwydd y Gymraeg gan fod Mater Allweddol 5 yn canolbwyntio'n benodol ar y Gymraeg. Mae'n nodi:

10.1.2 Bod gan dros 50% o'r boblogaeth ddealltwriaeth o'r Gymraeg, felly mae angen sicrhau, cyhyd ag y bo'n bosibl, fod gwaith datblygu'n meithrin ac yn cryfhau'r iaith.

10.1.3 Yr amcan sy'n gysylltiedig â'r mater allweddol hwn yw:

**Amcan 8:**

Cynorthwyo datblygiad y Gymraeg a hybu cymunedau dwyieithog a chynhwysol yng Ngheredigion.

10.1.4 Nodwyd y Gymraeg fel rhan bwysig o wead cymdeithasol Ceredigion ac mae hynny'n parhau felly. Yn allweddol i hyn mae cynnal y cymunedau presennol ynghyd â'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysg ysgolion cynradd. Felly, wrth wraidd y Strategaeth mae'r egwyddor sylfaenol mai'r modd gorau o gynnal bywiogrwydd y Gymraeg yw trwy gynnal cymunedau. Mae cyfran fawr o'r boblogaeth bresennol yn byw mewn aneddiadau gwledig, felly mae Strategaeth sy'n cefnogi cymunedau gwledig, yn ogystal â chymunedau



Draft

trefol, yn hanfodol i iechyd yr iaith. Er mwyn cryfhau hyn yn CDLl 2, cynigiwyd Polisi Iaith Gymraeg Strategol:

**Polisi S06 Cynllunio a'r Gymraeg**

Bydd y Cyngor Sir yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg trwy ddynodi Ceredigion, yn ei chyfanrwydd, yn ieithyddol sensitif.

10.1.5 Bydd Polisi DM01 yn parhau i nodi manylion penodol sefyllfa pan fydd angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

**10.2 Newid arfaethedig**

10.2.1 Mae'r adolygiad hwn wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg mewn deddfwriaeth a pholisïau cyfredol. Mae hyn wedi nodi'r angen am CDLl 2 i warchod a chryfhau'r iaith wrth ddilyn y newidiadau mewn polisïau. Gwnaed dau argymhelliad i DM01 ac un mân ddiwygiad i'r geiriad yn DM08. Nodir y rhain isod:

## DM01: Rheoli Effeithiau Datblygiad ar Gymunedau a'r Gymraeg

**Argymhelliad 1: Dim ond ar safleoedd ar hap mawr (sydd â phump neu fwy o unedau) y bydd angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.**

**Argymhelliad 2: Dim ond ar safleoedd ar hap mawr (sydd â phump neu fwy o unedau) mewn ardaloedd a nodwyd yn ieithyddol sensitif neu arwyddocaol y bydd angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg..**

10.2.2 Mae'r ddau argymhelliad uchod yn unol â'r newidiadau a wnaed yn TAN 20. Mae'r polisi cyfredol parthed y Gymraeg (DM01) yn gymhleth gan ei fod yn dibynnu ar gyfradd y gwaith datblygu. Fodd bynnag, mae'r argymhellion uchod yn darparu gwell cysondeb ar gyfer gwneud Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ofynnol. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Strategaeth a Ffefrir; mae wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Cynllun Adneuo a bydd hefyd yn cael ei gynnal mewn perthynas â safleoedd a ddyrannwyd. Felly, trwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar safleoedd ar hap mawr, asesir pob datblygiad mawr ar sail yr iaith. Ni fydd



Draft

angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar safleoedd bach (pedair uned neu lai) gan nad ystyrir eu bod yn cael effaith niweidiol ar yr iaith.

10.2.3 Ystyrir Argymhelliad 1 fel yr opsiwn a ffefrir fwyaf. Mae hyn yn sgil nodi Ceredigion, yn gyffredinol, fel ardal ieithyddol sensitif ac arwyddocaol. O blith y 40 o wardiau yng Ngheredigion, cofnodwyd bod mwy na hanner y boblogaeth dros dair blwydd oed mewn 24 ohonynt yn gallu siarad Cymraeg. Dangosodd arolwg ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru rhwng 2013 a 2015 fod 73% o boblogaeth Cymraeg eu hiaith Ceredigion yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae gwarchod yr iaith ledled y sir yn hanfodol. Felly, am y rheswm hwn, ni ddylid nodi ardaloedd sy'n ieithyddol sensitif ac arwyddocaol a dylai Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fod yn ofynnol ledled Ceredigion.

### DM08: DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Lleoedd

10.2.4 Yr unig newid sydd ei angen yn DM08 yw mân ddiwygiad i eiriad y polisi. Geiriad y polisi cyfredol yw:

**‘Rhoddir caniatâd am arwyddion ar yr amod na fyddant yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl, eu bod yn hybu hynny'n gadarnhaol.’**

Yn dilyn y newid a argymhellir, geiriad newydd y polisi fydd:

**‘Rhoddir caniatâd am arwyddion ar yr amod na fyddant yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a’u bod yn hybu hynny'n gadarnhaol.’**

10.2.5 Felly, byddai'r newid yn dileu'r geiriau ‘lle bo'n bosibl’. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i arwyddion hybu cymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal bob amser.

### 10.3 Rheswm dros y newid arfaethedig

10.3.1 Mae'r newid ym mholisi DM01 yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a pholisïau newydd sydd wedi’u diweddaru. Bydd y newid



Draft

arfaethedig yn cryfhau'r polisi ac yn creu polisi iaith Gymraeg mwy cyson a fydd yn cyfrannu at hyrwyddo a hybu'r iaith yn y sir.

10.3.2 Maes o law, bydd angen diweddaru CCA y Gymraeg i gynnwys polisïau DM01 a DM08 sydd wedi'u diweddaru yn ogystal â'r newidiadau perthnasol yn y ddeddfwriaeth a'r polisïau a drafodir yn y papur hwn. Dylid cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn y CCA eto, fodd bynnag, bydd y meini prawf ar gyfer gwneud y ddogfen hon yn ofynnol yn wahanol.

Drafft

# CDLl2

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## 2018- 2033

Drafft

## Papur Pwnc: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

## Diweddariad ar gyfer Strategaeth 2019 a Ffefrir

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Draft

# Cynnwys

Drafft

Draft

# 1. Cyflwyniad

1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn darparu'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y Cynllun i ddod, ynghyd â'r opsiynau a ffefrir ar gyfer twf a dosbarthu. Mae'r Strategaeth hefyd yn cynnwys y polisïau strategol a fydd yn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a nodwyd. Bwriad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yw pennu a fydd y Strategaeth a Ffefrir yn cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol, a ph'un ai na fyddai'n cael effaith niweidiol, neu'n cael llai o effaith niweidiol ar y Gymraeg yn ystod cyfnod y Cynllun. Gwnaed hyn trwy ddarparu tystiolaeth a chyfiawnhad ar sawl agwedd ar y strategaeth. Dyma'r cyntaf o dri Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod y broses o fabwysiadu CDLl diwygiedig y sir, sef Strategaeth a Ffefrir, Safleoedd Ymgeisiol a Chynllun Adneuo.

1.1.2 Mae'r Gymraeg yn hollbwysig i ddiwylliant Ceredigion a, fel y noda'r cam yn y cynllun cyfredol, dylai'r CDLl gefnogi datblygiad y Gymraeg a hybu cymunedau dwyieithog cynhwysol a chydlynol yng Ngheredigion. Bydd hyn yn cefnogi'r nod a gyhoeddwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i greu diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Felly, rhaid mai nod hirdymor y sir yw diogelu a chryfhau'r Gymraeg.

Draft

**1. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at gynnydd/lleihad yn y boblogaeth a allai:**

a) Effeithio ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg/Saesneg (mewn ffordd negyddol/cadarnhaol)?

b) Arwain at leihad llwyr neu leihad cymesur yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

**Cefndir**

Er bod rhai ffurfiau o ddatblygu'n sefydlogi poblogaethau neu'n sbarduno twf, gall datblygiad hefyd arwain at fewnfudo. Er y gall mewnfudo fod yn rym cadarnhaol mewn cymunedau gwledig, mae lefelau sylweddol o dwf yn debygol o effeithio ar gydbwysedd cymdeithasol, ac yn ei dro, effeithio ar agweddau ar wead cymdeithasol ardal, gan gynnwys y Gymraeg.

**Dadansoddiad llinell sylfaen**

Mae data'r cyfrifiad yn nodi y bu cynnydd ym mhoblogaeth Ceredigion o 72,883 i 73,847 rhwng 2001 a 2011, sef cynnydd o 964 o bobl mewn cyfnod o ddeng mlynedd. Er gwaethaf cynnydd yn y boblogaeth, gwelwyd lleihad o 5% (cyfanswm o 2,951 o bobl) yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir (sy'n dair oed neu'n hŷn).

Yn ôl amcanestyniadau ar sail y boblogaeth yn 2014 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, bydd cynnydd cyson ym mhoblogaeth Ceredigion tan 2039. Gyda thwf parhaus, rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cyrraedd 82,100 erbyn 2039. Mae'r tablau isod yn darparu manylion y newidiadau rhagweledig hyn yn y boblogaeth.

**Tabl 1: Rhagamcan o boblogaeth Ceredigion rhwng 2014 a 2039 (ar sail 2014)**

| 2014 | 2019 | 2024 | 2029 | 2034 | 2039 |
|---|---|---|---|---|---|
| 75,400 | 76,600 | 77,900 | 79,400 | 80,800 | 82,100 |

**Tabl 2: % y newid a ragwelir yng nghyfanswm y boblogaeth o'i gymharu â 2014**

| 2019 | 2024 | 2029 | 2034 | 2039 |
|---|---|---|---|---|
| 1.51 | 3.30 | 5.24 | 7.08 | 8.79 |

Draft

**Tabl 3: Genedigaethau, marwolaethau a newid naturiol a ragwelir, prif ragamcanion rhwng 2014 a 2023**

| Canol 2014-15 | | | Canol 2022-23 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Genedigaethau | Marwolaethau | Newid naturiol | Genedigaethau | Marwolaethau | Newid naturiol |
| 600 | 700 | -100 | 700 | 700 | 0 |

Ffynhonnell: https://gov.wales/docs/statistics/2018/181031-workplace-employment-industry-2001-2017-en.pdf

Fel y'i nodir yn y tabl uchod, rhagwelir y bydd poblogaeth Ceredigion yn cynyddu oddeutu 6,000 (neu 8.8%) rhwng 2014 a 2039. Dyma'r pedwerydd cynnydd uchaf a ragwelir yng Nghymru. Rhagwelir y bydd cynnydd yn y rhan fwyaf o grwpiau oedran, ac eithrio'r rheiny rhwng 16 a 17 oed a rhwng 60 (menywod)/65 (dynion) a 74 oed. Bydd mewnfudo net yn golygu cynnydd o 7,300 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (gyda mewnfudo rhyngwladol yn arwain at ddau draean o hynny); caiff hyn ei wrthbwyso ychydig gan leihad yn y boblogaeth yn sgil newid naturiol o 600 o bobl. Hefyd, mae Ceredigion yn un o ddau awdurdod lle mae disgwyl i'r oedran canolrifol leihau (Gwynedd yw'r llall).

**Asesiad o'r Effaith ar y Iaith**

Ystyriwyd symudiad y boblogaeth wrth baratoi'r Strategaeth a Ffefrir i ddod. Mae angen cyffredinol am fwy o dai i ddiwallu anghenion y boblogaeth gynyddol. Mae'r papur pwnc Poblogaeth a Thai diwygiedig wedi asesu'r patrymau ym mhoblogaeth y gorffennol, y boblogaeth bresennol a'r boblogaeth a ragwelir yn ardal y cynllun, sydd wedi helpu i sefydlu gofyniad tai perthnasol ar gyfer cyfnod y cynllun newydd. Gosodir y cynnydd rhagweledig mewn anheddau ar gyfer CDLl diwygiedig 2018-2033 Ceredigion ar 3,000 o anheddau.

Mae gan wahanol fathau o ddatblygiadau newydd, yn enwedig tai, ddylanwad uniongyrchol ac anuniongyrchol ar boblogaeth ardal. Gall datblygiad newydd, yn enwedig tai newydd, arwain at lif o nifer gymesur fawr o breswylwyr di-Gymraeg i ardal ac mae'n debygol o danseilio cymunedau Cymraeg llai yn bennaf. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd lefel y twf yn cael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar

Draft

y Gymraeg gan y gallai prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy helpu i gadw'r boblogaeth bresennol. Mae'r Strategaeth a Ffefrir i ddod yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i ddiwallu anghenion y gymuned leol, yn enwedig anghenion pobl ifanc a'r henoed. Bydd dosbarthu tai ledled ardal y cynllun yn darparu mwy o ddewis a gwell hyblygrwydd i bobl aros yn eu cymunedau.

Mae'r strategaeth, ynghyd â gwaith Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru hefyd yn hwyluso'r ddarpariaeth o gyfleoedd economaidd ledled ardal y cynllun. Dylai hyn hefyd helpu i gadw pobl ifanc mewn cymunedau, yn enwedig rhai o'r cymunedau mwy gwledig, gan gynnal neu wella'r cydbwysedd demograffig mewn cymunedau felly.

Polisi DM01: Rheoli Effeithiau Datblygiad ar Gymunedau a'r Gymraeg a DM08: Mae arwyddion ac enwau lleoedd dwyieithog hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ledled y sir yn uniongyrchol, ac yn ceisio osgoi unrhyw niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned a achosir gan ddatblygiad amhriodol.

Yn ogystal â hynny, roedd y sefyllfa ynghylch y Gymraeg yn ffactor allweddol a ystyriwyd fel rhan o'r broses o bennu'r strategaeth aneddiadau.

Felly, ar y cyfan, ystyrir nad yw'r gofynion tai fel y'u hamlinellir yn y Strategaeth a Ffefrir i ddod yn debygol o arwain at gynnydd neu leihad sylweddol yn y boblogaeth a allai effeithio ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg/Saesneg. Gall datblygiadau mawr gael effaith ar y Gymraeg, ond fel y nodwyd yn flaenorol, bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal ar bob safle a ddyrannwyd. Os canfyddir y bydd y safle'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg, bydd y safle hwnnw naill ai ddim yn cael ei ddyrannu neu bydd mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith.

**Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol cymunedau trwy hwyluso datblygiad sy'n diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd holl adrannau cymdeithas (cyfleusterau cymunedol, darpariaeth addysg, cyfleusterau hamdden, siopau ac ati) gan felly sicrhau y cedwir y boblogaeth

Draft

gan wneud yr ardal yn fwy deniadol i bobl o oedran gweithio sydd wedi gadael yr ardal i ddychwelyd.

- Sicrhau bod dyraniadau tai mewn ardaloedd priodol a'u bod yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cymysgedd priodol o fathau o dai a fforddiadwyedd sy'n diwallu anghenion lleol cymunedau preswyl yn hytrach na gofynion mewnfudo neu gartrefi gwyliau.
- Hybu datblygiad economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, i sicrhau bod yr ardal yn ddeniadol i'r boblogaeth bresennol ac i'r rheiny sy'n dymuno dychwelyd i'r ardal.
- Ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith fel rhan o geisiadau cynllunio ar gyfer hap-ddatblygiad mawr (mewn ardaloedd o sensitifrwydd ac arwyddocâd ieithyddol).
- Adolygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol presennol a diwygio yn unol â hynny.

Draft

| 2. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo? |
|---|
| a) A allai hyn arwain at gynnydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd di-Gymraeg? |
| b) A fydd y newid yn barhaol neu dros dro? |
| **Cefndir** |
| Rhan allweddol o newid mewn poblogaeth yw mewnfudo. Mae graddfa mewnfudo'n dibynnu'n sylweddol ar y math o ddatblygiad mewn ardal benodol. Er enghraifft, ni fydd datblygiad cartrefi ymddeol mewn cymuned y mae'r mwyafrif ohoni'n bobl ifanc yn diwallu angen lleol a gallai arwain at newid cymdeithasol parhaol. |
| **Dadansoddiad llinell sylfaen** |
| Rhwng 2001 a 2017, mae'r gwahaniaeth net rhwng y bobl sy'n symud i mewn ac allan o Geredigion (o'i gymharu â gweddill y DU) wedi bod ychydig yn negyddol (143 o bobl). Mae hyn er gwaethaf gwahaniaeth net negyddol yn digwydd dim ond unwaith rhwng 2001 a 2011. Ers 2011 (tan 2017), bu gwahaniaeth net negyddol bob blwyddyn yn olynol. |

**Tabl 4: Mudo rhwng Ceredigion a gweddill y DU fesul blwyddyn o 2001-2002 i 2016-2017**

| | **Ceredigion** | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **I mewn** | **Allan** | **Net** |
| 2001–2002 | 5830 | 5610 | 220 |
| 2002–2003 | 6100 | 5590 | 510 |
| 2003–2004 | 6030 | 5430 | 600 |
| 2004–2005 | 6110 | 5800 | 310 |
| 2005–2006 | 5960 | 5950 | 10 |
| 2006–2007 | 6000 | 5970 | 30 |
| 2007–2008 | 5580 | 5840 | -260 |
| 2008–2009 | 6070 | 5340 | 730 |
| 2009–2010 | 5690 | 5540 | 150 |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2010–2011 | 6465 | 5799 | 666 |
| 2011–2012 | 5676 | 6040 | -364 |
| 2012–2013 | 5342 | 6070 | -728 |
| 2014–2015 | 5068 | 5952 | -884 |
| 2015–2016 | 4969 | 5641 | -672 |
| 2016–2017 | 5503 | 5964 | -461 |

Ffynhonnell: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Migration/Internal/migrationbetweenwalesandrestofuk-by-localauthority-flow-periodofchange

Fel y mae'r tabl uchod yn dangos, gwelwyd cynnydd net tan 2011. O 2011 ymlaen, bu lleihad net mawr bob blwyddyn sy'n gorbwyso'r cynnydd net a welwyd yn flaenorol i greu lleihad net cyffredinol. Y prif reswm dros y newid ers 2011 yw lleihad mawr yn nifer y myfyrwyr prifysgol yng Ngheredigion.

Mae'r tabl isod yn nodi'n fanwl yr all-lif net o bobl yn ôl grŵp oedran.

**Tabl 5: Allfudo rhwng Ceredigion a'r DU fesul grŵp oedran rhwng 2011-2012 a 2016-2017**

| **Cyfnod** | **Pob oedran** | | | | | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **0–15** | **16–24** | **25–44** | **45–64** | **Dros 65** | |
| 2011–2012 | 421 | 3057 | 1423 | 589 | 310 | 5799 |
| 2012–2013 | 454 | 3273 | 1403 | 477 | 433 | 6040 |
| 2013–2014 | 388 | 3249 | 1383 | 560 | 496 | 6076 |
| 2014–2015 | 422 | 3206 | 1374 | 515 | 435 | 5952 |
| 2015–2016 | 404 | 2908 | 1420 | 532 | 377 | 5641 |
| 2016–2017 | 385 | 3012 | 1520 | 626 | 421 | 5964 |

Ffynhonnell: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Migration/Internal/migrationoriginsanddestinationsbetweenlocalauthoritiesinwales-by-periodofchange-agegroup-gender

Draft

Rhwng 16 a 24 oed yw'r grŵp oedran sydd wedi gweld y lleihad net mwyaf bob blwyddyn ers 2011. Mae'n debygol mai un o'r prif resymau dros hyn yw bod pobl ifanc yn gadael yr ysgol ac yn gadael yr ardal i fynd i'r brifysgol. O'r herwydd, ni fydd nifer fawr yn dychwelyd yn dilyn eu hastudiaethau y tu hwnt i'r sir. Mae hefyd yn tynnu sylw at effaith y mewnlif o fyfyrwyr i'r ddwy brif brifysgol yng Ngheredigion ac yna eu hall-lif ar ôl gorffen eu hastudiaethau. Cyn 2011, ni chyfrifid hyn yn yr un modd ag y'i cyfrifir bellach. Y grwpiau oedran 0-15 oed a thros 65 oed sydd wedi gweld yr all-lif lleiaf o bobl.

Mae canlyniadau'r Arolwg Deiliadaeth Tai Blynyddol yn bwysig er mwyn nodi o ble mae meddianwyr tai newydd wedi symud (boed hynny o Geredigion, o Gymru, o'r DU neu o dramor) ac a yw'r meddianwyr yn siarad Cymraeg. Dengys arolwg 2018 y daeth 28 o'r ymatebion (atebodd 27% o feddianwyr tai a gwblhawyd yn 2017-2018) o dai a oedd wedi'u cwblhau yn ddiweddar. Mae'r tabl isod yn dangos o ble roedd meddianwyr wedi symud:

**Tabl 6: Lleoliad meddianwyr tai newydd**

| | | |
|---|---|---|
| Ceredigion | 21 | 75% |
| Cymru | 6 | 21.5% |
| y DU | 1 | 3.5% |
| Dramor | 0 | 0% |

Mae'r tabl uchod yn dangos bod y rhan fwyaf o feddianwyr cartrefi newydd yng Ngheredigion eisoes yn byw yn y sir. Dim ond saith o'r cartrefi oedd â meddianwyr nad oeddent eisoes yn byw yng Ngheredigion (roedd chwech o'r rhain yn byw yng Nghymru, ac o bosibl eisoes yn byw mewn awdurdod cyfagos).

Roedd 66 o feddianwyr o fewn y 28 o dai. Mae'r tabl isod yn dangos sgiliau Cymraeg y meddianwyr:

Draft

**Tabl 7: Sgiliau Cymraeg**

| | |
|---|---|
| Siaradwr Cymraeg rhugl | 44 |
| Canolradd | 8 |
| Dysgwr | 4 |
| Dim sgiliau Cymraeg | 10 |

Mae hyn yn dangos bod mwyafrif y bobl sy'n meddiannu ar dai newydd yng Ngheredigion yn siarad Cymraeg.

**Asesiad o'r Effaith ar y Iaith**

Fel y nodwyd ym maen prawf 1 uchod, gall datblygiad newydd, yn enwedig tai newydd, arwain at fewnlifiad o nifer gymesur fawr o breswylwyr di-Gymraeg i ardal, sy'n debygol o danseilio cymunedau Cymraeg llai yn bennaf, ac mae hyn yn gwneud cymhathu yn anodd. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd lefel y twf yn cael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar y Gymraeg gan y gallai prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy helpu i gadw'r boblogaeth bresennol. Mae'r Strategaeth a Ffefrir i ddod yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i ddiwallu anghenion y gymuned leol yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn y sir. Bydd dosbarthu tai ledled Ceredigion yn gymesur yn darparu mwy o ddewis a gwell hyblygrwydd i bobl aros yn eu cymunedau. Bydd y strategaeth yn darparu ar gyfer y twf a ragwelir yn y boblogaeth.

Mae union effaith twf tai ar y Gymraeg yn ansicr ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd lefel y twf yn cael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar y Gymraeg gan y gallai prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy helpu i gadw'r boblogaeth bresennol. I'r gwrthwyneb, mae'n bosibl y byddant hefyd yn annog mwy o bobl ddi-Gymraeg i symud i mewn i’r ardal. Bydd p’un a fydd newid mewn patrymau mewnfudo yn effeithio ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar yr ardal a'r math o gynigion yn yr ardal honno.

Mae'r strategaeth hefyd yn hwyluso'r ddarpariaeth o gyfleoedd economaidd ledled ardal y cynllun. Dylai hyn helpu hefyd i gadw pobl ifanc mewn cymunedau, yn

Draft

| |
|---|
| enwedig rhai o'r cymunedau mwy gwledig, gan gynnal neu wella'r cydbwysedd demograffig mewn cymunedau felly.<br><br>Polisi DM01: Mae rheoli effeithiau datblygiad ar gymunedau ac ar y Gymraeg hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yng Ngheredigion yn uniongyrchol, ac yn ceisio osgoi unrhyw niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned a achosir gan ddatblygiad amhriodol.<br><br>Mae'n hanfodol bwysig bod y cynllun yn darparu cyflenwad digonol o dai i ddiwallu anghenion lleol er mwyn cadw'r boblogaeth yn eu cymunedau. Ystyrir bod y strategaeth yn darparu ar gyfer y newidiadau a ragwelir yn y boblogaeth yn ystod cyfnod y cynllun. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai'r polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br>• Sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol cymunedau trwy hwyluso datblygiad sy'n diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd holl adrannau cymdeithas, gan felly sicrhau y cedwir y boblogaeth gan wneud yr ardal yn fwy deniadol i bobl o oedran gweithio sydd wedi gadael yr ardal i ddychwelyd.<br>• Sicrhau y dyrennir tair mewn ardaloedd priodol a'u bod yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cymysgedd priodol o fathau o dai a fforddiadwyedd sy'n diwallu anghenion lleol cymunedau preswyl yn hytrach na gofynion mewnfudo neu gartrefi gwyliau.<br>• Hwyluso'r ddarpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy i ddiwallu'r angen lleol sy'n bodloni gofynion cymunedau.<br>• Hybu datblygiad economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, i sicrhau bod yr ardal yn ddeniadol i'r boblogaeth bresennol ac i'r rheiny sy'n dymuno dychwelyd i'r ardal.<br>• Ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith fel rhan o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sy'n debygol o gael effaith ar y Gymraeg.<br>• Adolygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol presennol a diwygio yn unol â hynny. |

Draft

Draft

| **3. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at allfudo?** |
|---|
| a) A yw'r broses o allfudo yn debygol o arwain at golli aelwydydd Cymraeg eu hiaith? |
| b) A fydd unrhyw newid yn barhaol neu dros dro? |
| **Cefndir** |
| Mae allfudo o gymuned benodol yn dibynnu ar y math o ddatblygiad sy'n digwydd yn ogystal â strwythur y boblogaeth bresennol mewn cymuned benodol. Er enghraifft, gallai troi cyfleusterau cymdeithasol yn gyfleusterau preswyl wneud pobl ifanc yn gyndyn o aros yn y gymuned neu ddychwelyd iddi. Enghraifft allweddol arall yw'r diffyg cyfleoedd cyflogaeth i ennill y sgiliau perthnasol i agor y drws i'r farchnad cyflogaeth. |
| **Dadansoddiad llinell sylfaen** |
| Cyfeirier at ddadansoddiad llinell sylfaen Cwestiwn 2 |
| **Asesiad o'r Effaith ar y Iaith** |
| Dylai dosbarthiad cymesur gwaith datblygu ledled y sir, gan gynnwys cefn gwlad lle mae angen lleol a lle mae polisi yn caniatáu, helpu i gefnogi bywiogrwydd cymunedol trwy ddarparu tai, cyfleusterau a gwasanaethau yn lleol, lle bo'u hangen a lle maent yn hygyrch trwy amryw ddulliau o drafnidiaeth. Yn ei dro, dylai hyn helpu i gadw'r boblogaeth frodorol ac felly hefyd y defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Mae'r Strategaeth a Ffefrir i ddod yn cynnig rhannu'r strategaeth fel a ganlyn:<br><br>Canolfan Gwasanaeth Trefol 55%<br>Canolfan Gwasanaeth Cefn Gwlad 25%<br>Aneddiadau Cyswllt 20%<br><br>Mae'r dadansoddiad a ddangosir uchod yn caniatáu i'r CDLl wella cynaliadwyedd cyffredinol y sir a sicrhau bywiogrwydd ac iechyd hanfodol y sir trwy gryfhau prif drefi Ceredigion (Canolfannau Gwasanaeth Trefol), a thrwy gydnabod yr angen penodol i wella cynaliadwyedd ledled ardal wledig helaeth Ceredigion ac ymateb |

Draft

iddo mewn ffordd strategol.

**Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol cymunedau trwy hwyluso datblygiad sy'n diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd holl adrannau cymdeithas, gan felly sicrhau y cedwir y boblogaeth gan wneud yr ardal yn fwy deniadol i bobl o oedran gweithio sydd wedi gadael yr ardal i ddychwelyd.
- Sicrhau y dyrennir tai mewn ardaloedd priodol a'u bod yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cymysgedd priodol o fathau o dai a fforddiadwyedd sy'n diwallu anghenion lleol cymunedau preswyl yn hytrach na gofynion mewnfudo neu gartrefi gwyliau.
- Hwyluso'r ddarpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy i ddiwallu'r angen lleol sy'n bodloni gofynion cymunedau.

Hybu datblygiad economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, i sicrhau bod yr ardal yn ddeniadol i'r boblogaeth bresennol ac i'r rheiny sy'n dymuno dychwelyd i'r ardal.

Draft

**4. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at strwythur newidiol o ran oedran yn y gymuned?**

a) Arwain at bobl ifanc/canol oed/hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal neu'n symud i mewn iddi, gan arwain at y canlynol:

i) Newidiadau mewn patrymau traddodiadol, gan arwain at fwy o ddymuniad i symud i ffwrdd?

ii) Tensiynau cymdeithasol/chwalu rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol.

**Cefndir**

Gall datblygiad ddylanwadu'n fawr ar strwythur y boblogaeth mewn unrhyw gymuned. Gall y math o ddatblygiad bennu a yw grŵp oedran penodol yn debygol o adael ardal ac a yw grŵp oedran gwahanol yn debygol o symud i mewn i ardal.

**Dadansoddiad llinell sylfaen**

**Tabl 8: Strwythur oedran Ceredigion (data cyfrifiad 2011)**

| **Oedran** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| *Pawb* | *75922* |
| 0-4 | 3472 |
| 5-7 | 2015 |
| 8-9 | 1331 |
| 10-14 | 3642 |
| 15 | 770 |
| 16-17 | 1607 |
| 18-19 | 4255 |
| 20-24 | 8191 |
| 25-29 | 3614 |
| 30-44 | 11283 |
| 45-59 | 14463 |
| 60-64 | 5574 |
| 65-74 | 8418 |
| 75-84 | 5151 |

Draft


| | |
|---|---|
| 85-89 | 1406 |
| 90+ | 730 |
| Cymedr oedran | 41.68 *(i ddau le degol)* |
| Oedran canolrifol | 42 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011


http://www.ukcensusdata.com/ceredigion-w06000008#sthash.7BLuNHUt.dpbs

- Grŵp oedran 45-59 oed sydd â'r mwyaf o bobl, gyda 30-44 oed yn ail. Yn dilyn y rhain, y categorïau oedran mwyaf poblog oedd 65-74, 20-24, 60-64, 75-84 a 18-19 (a'r cyfan â mwy na 4,000 o bobl).
- Nodir bod nifer y bobl ym mhob grŵp oedran rhwng 0-19 oed yn llai na 4,000 (er bod y grŵp oedran yn cynnwys llai o amrediadau oedran).

**Ffigur 1**



**Ffigur 2**




Uchod, gweler pyramidiau rhagamcanion oedran Ceredigion ar gyfer canol 2011 a chanol 2017 yn y drefn honno. Y prif bwynt i'w nodi yw bod nifer y bobl yn y categorïau oedran 20, 21 a 22 wedi lleihau'n eithaf sylweddol.

Cwblhawyd rhagamcanion canol blwyddyn 2011 yn fuan ar ôl data'r cyfrifiad. Mae strwythur poblogaeth y sir yn dangos yn glir effaith myfyrwyr prifysgol (Aberystwyth a'r Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan) ar oedran a rhyw, gyda chynnydd sylweddol rhwng 18 a 22 oed. Gwelir y bariau hiraf yn y pyramid yng nghategori'r dynion 20 oed (1500) a'r menywod 20 oed (1400).

Erbyn canol 2017, er bod cynnydd o hyd yng nghategorïau oedrannau'r myfyrwyr addysg uwch, mae lleihad eithaf sylweddol yn y categorïau 20, 21 a 22 oed. Y nifer fwyaf mewn unrhyw grŵp oedran erbyn yr adeg hon yw 1100 o bobl yng nghategori'r dynion 21 oed a 1000 yng nghategori'r menywod 19 oed. Rheswm posibl dros hyn yw lleihad yn nifer y myfyrwyr sy'n mynd i'r prifysgolion lleol a chynnydd yn y nifer sy'n gadael y sir i fynd i'r brifysgol.



Draft

Bu cynnydd yn oedran canolrifol poblogaeth Ceredigion o 42.9 yng nghanol 2011 i 45.7 yng nghanol 2017.

**Asesiad o'r Effaith ar y Iaith**

Mae'r Strategaeth a Ffefrir i ddod yn cydnabod bod y boblogaeth yn heneiddio. Mae'r dosbarthiad cymesur o waith datblygu a hwylusir o dan yr opsiwn gofodol a ffefrir yn debygol o annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau neu i ddychwelyd atynt, gan greu cymunedau mwy cytbwys felly, a fydd yn gwella cydlyniant a bywiogrwydd cymunedol yn y sir o ganlyniad. Cyflawnir hyn trwy gynnig amrywiaeth o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer amrywiaeth o anghenion cyflogaeth a ddosbarthir ledled y sir. Polisi S05: Nod tai fforddiadwy, yn enwedig, yw hwyluso'r gwaith o ddatblygu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol a ddylai annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau.

Bwriad y Strategaeth a Ffefrir i ddod yw diogelu safleoedd neu ddyrannu cyflogaeth benodol yn bennaf yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol ac mewn lleoliadau eraill sy'n addas at y defnydd hwn o dir a all greu mwy o gyfleoedd cyflogaeth. Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth priodol ar raddfa fach hefyd mewn ardaloedd eraill o'r sir pan fyddant mewn lleoliad addas. Dylai hyn helpu i gadw pobl ifanc yn eu cymunedau hefyd, gan ddwyn budd i'r Gymraeg felly.

I fynd i'r afael â'r boblogaeth sy'n heneiddio, mae'n bwysig darparu amrywiaeth o dai addas i sicrhau y gall y boblogaeth hŷn aros yn eu cymunedau. Cyfran sylweddol o'r cynnydd rhagweledig mewn aelwydydd yn y dyfodol fydd pobl 65 oed neu hŷn, felly ceisir darpariaeth tai addas i bobl hŷn, yn enwedig mewn cynlluniau datblygu mwy. Mae gofyniad polisi LU02 i sicrhau y caiff pob annedd newydd ei hadeiladu i safonau tai am oes hefyd yn helpu i sicrhau y gall stoc tai newydd ddiwallu anghenion pobl wrth iddynt heneiddio.

Fodd bynnag, gan fod llawer o wasanaethau allweddol (e.e. gwasanaethau a

Draft

| |
|---|
| chyfleusterau iechyd) wedi'u lleoli yn y prif aneddiadau, mae'n bosibl y bydd pobl hŷn yn ei chael yn anodd defnyddio'r rhain. Bydd yr union effaith yn dibynnu ar leoliad y datblygiad (datblygiad tai yn ogystal â datblygiad sy'n ymwneud ag iechyd) o ran rhwydwaith trafnidiaeth effeithiol. Felly, trwy ddyrannu mwyafrif y twf mewn ardaloedd sydd â mynediad i gyfleusterau gofal iechyd heb fod angen car, gellir lliniaru rhai o'r problemau hyn.<br><br>Ar y cyfan, fodd bynnag, mae'n anodd rhagweld union raddfa'r effeithiau posibl ar strwythur oedran poblogaeth y sir. Bydd llawer yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn aneddiadau, prisiau tai a chyfleoedd cyflogaeth. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo:** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br>• Hwyluso'r gwaith o ddatblygu system drafnidiaeth effeithiol a chynaliadwy a fyddai'n galluogi pobl o bob oedran, ond yn enwedig pobl hŷn, i allu defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau allweddol sydd wedi'u lleoli yn y prif aneddiadau.<br>• Hwyluso tai priodol i bobl o bob oedran.<br>• Sicrhau bod polisïau hyblyg ar gyfer cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig gan gynnwys arallgyfeirio amaethyddol.<br>• Sicrhau cydbwysedd yng nghyfansoddiad cymdeithasol cymunedau trwy hwyluso datblygiad sy'n diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd holl adrannau cymdeithas, gan felly sicrhau y cedwir y boblogaeth gan wneud yr ardal yn fwy deniadol i bobl o oedran gweithio sydd wedi gadael yr ardal i ddychwelyd.<br>• Hybu datblygiad economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, i sicrhau bod yr ardal yn ddeniadol i'r boblogaeth bresennol ac i'r rheiny sy'n dymuno dychwelyd i'r ardal. |

Draft

**5. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol?**

a) Cynyddu'r perygl o salwch, gan felly lleihau'r manteision o fyw yn y gymuned?

b) Gwneud bywyd yn fwy drud o bosibl, gan felly cynyddu'r perygl o straen/problemau ariannol i'r boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith?

**Cefndir**

Mae cyswllt anorfod rhwng iechyd a chymuned. Er enghraifft, gall amddifadedd iechyd gynyddu os na fydd tai yn diwallu anghenion, os caiff ffyrdd ac adeiledd eu cynllunio'n wael, os bydd cyfleoedd cyfyngedig i gerdded neu i feicio neu os bydd prinder mannau agored hygyrch o werth hamdden. Gall y mathau hyn o ddirywiad mewn ansawdd bywyd effeithio ar sefydlogrwydd cymuned a gallai'r bobl sy'n gallu fforddio symud i ffwrdd wneud hynny, gan achosi dirywiad cymdeithasol felly a all effeithio ar y Gymraeg yn y pen draw.

**Dadansoddiad llinell sylfaen**

Yn 2011, dywedodd 47.1% o boblogaeth Ceredigion fod eu hiechyd yn 'dda iawn' a dywedodd 32.1% ei fod yn 'dda'. Roedd hyn yn fwy na'r cyfraddau cyfatebol ledled Cymru, sef 46.7% a 31.1% yn y drefn honno. Roedd y gyfran a ddywedodd fod eu hiechyd yn 'wael' neu'n 'wael iawn' yn uwch yng Nghymru yn gyffredinol nag yng Ngheredigion, fel y mae'r tabl isod yn dangos.

**Tabl 9: Iechyd cyffredinol (Cyfrifiad 2011)**

| | | Iechyd da iawn | | Iechyd da | | Iechyd gweddol | | Iechyd gwael | | Iechyd gwael iawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ceredigion | 75922 | 35796 | 47.1 | 24369 | 32.1 | 10946 | 14.4 | 3660 | 4.9 | 1151 | 1.5 |
| Cymru | 3063456 | 1428697 | 46.7 | 953363 | 31.1 | 447789 | 14.6 | 178222 | 5.8 | 55385 | 1.8 |


http://www.ukcensusdata.com/wales-w92000004#sthash.uQ2me65S.dpbs

http://www.ukcensusdata.com/ceredigion-w06000008#sthash.uuCXzi0o.dpbs

Ffynhonnell: Data Cyfrifiad 2011

Draft

**Ffigur 3**




Mae'r tabl canlynol yn dangos iechyd cyffredinol y boblogaeth yn ôl ward.

**Tabl 10: Iechyd cyffredinol yn ôl ward (2011)**

| Pawb | % y bobl a ddywedodd fod eu hiechyd yn 'dda iawn' | % y bobl a ddywedodd fod eu hiechyd yn 'wael iawn' |
|---|---|---|
| Uchaf | Aberystwyth Bronglais (56) ac Aberystwyth Canol (56) | Aberteifi – Teifi (2.9) |
| Ail uchaf | Llanbadarn Fawr – Sulien (54) | Llanfihangel Ystrad (2.5) |
| Ail isaf | Aberteifi – Mwldan (41) | Llanbadarn Fawr – Padarn (0.4) |
| Isaf | Aberteifi – Rhyd-y-Fuwch (38) | Aberystwyth Bronglais (0.3) |

Fel y mae'r tabl uchod yn dangos, y ward a oedd â'r gyfradd uchaf o 'iechyd da iawn' oedd Aberystwyth Bronglais ac Aberystwyth Canol (56%). Hefyd, Aberystwyth Bronglais oedd â'r ganran isaf o bobl a ddywedodd fod eu hiechyd yn 'wael iawn' (0.3%). Aberteifi – Teifi oedd â'r gyfradd uchaf a ddywedodd fod eu

Draft

| |
|---|
| hiechyd yn 'wael iawn' (2.9%) ac Aberteifi – Rhyd-y-Fuwch oedd â'r gyfradd isaf o bobl a ddywedodd fod eu hiechyd yn 'dda iawn' (38%). |
| **Asesiad o'r Effaith ar y Iaith** |
| Nid ystyrir bod y strategaeth arfaethedig a'r cynigion yn debygol o gael effaith negyddol ar iechyd y boblogaeth am sawl rheswm.<br><br>Mae dosbarthiad cymesur y gwaith datblygu ledled y sir yn mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth drefol yn ogystal â'r boblogaeth wledig, ac yn sicrhau bod gan gyfran eang o'r boblogaeth fynediad da at gyfleusterau a gwasanaethau cymdeithasol-economaidd. Felly, byddai'r manteision iechyd cyffredinol yn cael eu rhannu'n gyfartal ledled y sir. Trwy hwyluso tai newydd a darparu ar gyfer datblygu economaidd, bydd y strategaeth yn gwella bywiogrwydd a llesiant cymunedol.<br><br>Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth o adeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol i gynnal a hybu cymunedau. Ymhlith y polisïau i helpu i gyflawni'r canlyniad hwn mae polisïau S01 i S05 ac LU22 (cyfleusterau cymunedol) ac LU23 (darparu mannau agored newydd) y strategaeth.<br><br>Bydd targedu'r rhan fwyaf o'r gwaith datblygu yn y prif ganolfannau hefyd yn golygu y byddai preswylwyr yn agosach at wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth, ac felly bydd llai o angen i deithio a ddylai helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth breifat ac i wella iechyd y boblogaeth gyffredinol. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo:** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br>• Hybu ffyrdd iachus o fyw a hwyluso'r gwaith o ddatblygu dulliau iach o deithio, gan gynnwys cerdded a beicio.<br>• Sicrhau bod yr holl gymunedau yn y sir wedi'u cysylltu â rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy ac effeithiol.<br>• Hybu mynediad hawdd i fannau agored, gwasanaethau a chyfleusterau hamdden a chwaraeon a chreu mannau agored newydd.<br>• Hwyluso'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau gofal iechyd priodol sy'n hygyrch i bob adran o'r gymuned. |

Draft

| 6. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar amwynder yr ardal leol? |
|---|
| a) Dirywio'r ansawdd amgylcheddol, gan felly lleihau'r manteision o fyw yn y gymuned? |
| **Cefndir** |
| Gallai dirywiad yn yr ansawdd amgylcheddol neu'r amwynder cyffredinol ysgogi aelwydydd sydd â mwy o rym gwario i allfudo. Gall hyn, yn ei dro, effeithio ar gydbwysedd y preswylwyr Cymraeg/Saesneg eu hiaith. |
| **Dadansoddiad llinell sylfaen** |
| Mae poblogaeth Ceredigion wedi'i gwasgaru'n eang and mae'r sir yn ddaearyddol fawr (1,990km²). Mae'r rhan fwyaf ohoni yn dir amaethyddol, yn rhostir agored neu'n goedwig, ac mae ardaloedd o ucheldir i'r dwyrain yn ffurfio cyfran sylweddol o Fynyddoedd Cambria. Mae ganddi 80km o arfordir. Mae ei chwe phrif dref, Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron, ynghyd â'r trefi cyfagos ar y ffin, yn cefnogi ardal gefn gwlad fawr. Mae Bae Aberteifi, Mynyddoedd Cambria ac aberoedd Dyfi a Theifi yn ffurfio amlinellau naturiol o ffiniau'r sir.<br><br>Mae tirwedd yn bwysig, nid yn unig fel golygfeydd, ond gan ei bod yn cysylltu diwylliant â natur, a'r gorffennol â'r presennol. Mae tirweddau gwerthfawr a thirweddau y gofalir amdanynt yn dda yn hanfodol i lesiant cymdeithasol a chymdeithas economaidd iach. Pennir gwerth ar dirweddau am eu diddordeb hanfodol, eu cyfraniad at hunaniaeth genedlaethol a hynodrwydd lleol.<br><br>Mae gan Geredigion gyfoeth o fioamrywiaeth a geoamrywiaeth, a gydnabyddir gan nifer y safleoedd cadwraeth natur:<br>• Safleoedd rhyngwladol: 12 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), tair Ardal Warchodaeth Arbennig (AGA) a dau safle Ramsar;<br>• Safleoedd cenedlaethol: 101 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chwe Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG); a |

Draft

- Safleoedd lleol: Tair Gwarchodfa Natur Leol, 50 o Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol, saith safle sy'n eiddo i Gyngor Sir Ceredigion a reolir at ddibenion cadwraeth natur, 18 o Warchodfeydd Natur yr Ymddiriedolaeth Natur ac amryw safleoedd eraill gan gynnwys Gwarchodfeydd yr RSPB ac Arfordir Treftadaeth Ceredigion.

Gall cyfanrwydd y safleoedd hyn fod dan berygl cyson. Gall pwysau gwaith datblygu, er enghraifft o ganlyniad i fwy o weithgareddau hamdden, gyfrannu at amrywiaeth ehangach o broblemau, megis newid hinsawdd, a allai fygwth cyflwr y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ymhlith y pwysau ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNGau) sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu mae newid hinsawdd, rhywogaethau goresgynnol, problemau draenio, gorfaethu o ffynonellau dŵr allanol, newidiadau mewn lefelau dŵr, datblygu arfordirol ac amddiffynfeydd llifogydd ac ansawdd dŵr gwael.

Hefyd, mae ardal y CDLl wedi pennu gwerth ar adnoddau tirwedd, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd dynodedig megis gerddi a pharciau hanesyddol, ardaloedd cadwraeth a thirweddau hanesyddol. Mae'r ardal yn arbennig o adnabyddus am ei morliniau a'i thirweddau arfordirol.

Dynodwyd Ardaloedd Cadwraeth gan eu bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Ar hyn o bryd, mae gan Geredigion 13 o Ardaloedd Cadwraeth, sef:

- Aberystwyth;
- Aberaeron;
- Aberteifi;
- Adpar;
- Ceinewydd;
- Cenarth;
- Llanbedr Pont Steffan;

Draft

| |
|---|
| - Llanbadarn Fawr;<br>- Llandysul;<br>- Llanddewi Brefi;<br>- Llanrhystud;<br>- Llansantffraid;<br>- Tregaron.<br>Mae gan Geredigion 1,890 o adeiladau rhestredig hefyd. |
| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith** |
| Dylai datblygiadau newydd a reolir yn briodol gynnal ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol/diwylliannol neu wella ansawdd yr amgylchedd adeiledig presennol. Gan fod yr opsiwn gofodol a ffefrir yn caniatáu dosbarthu datblygiadau'n fwy cymesur, bydd yr effaith bosibl ar yr amgylchedd, gan gynnwys tirweddau a threfluniau, yn fwy gwasgaredig ledled ardal y cynllun. Caniateir swm cyfyngedig o ddatblygiadau newydd yn y rhan fwyaf o aneddiadau a fydd yn cyfrannu at batrymau twf naturiol mewn aneddiadau a fydd, o ganlyniad, yn llai tebygol o effeithio ar werthoedd amwynderau ardaloedd lleol.<br><br>Er y gallai patrwm gwasgaredig datblygiadau leihau'r cyfraniadau gan ddatblygwyr at gyfleusterau ac amwynderau cyhoeddus, bydd y gwir effaith yn dibynnu'n sylweddol ar raddfa, natur a lleoliad datblygiadau newydd o ran trefluniau a thirweddau o werth. Byddai angen dylunio datblygiad i safon uchel gan gynnwys y cymeriad gwledig a threflun presennol.<br><br>Nod y strategaeth yw cynnal cymeriad trefol/gwledig cymysg ac arbennig y sir yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig. Hybir cymeriad unigol a rolau ategol canol trefi trwy ddatblygiadau, gwelliannau i dir y cyhoedd, i gyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus ac i gysylltiadau cerdded/beicio. Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth o adeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol i gynnal a hybu cymunedau.<br><br>Nod Polisi S01 Twf Cynaliadwy, DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol, DM15 Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol, DM16 Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol, DM17 Tirwedd Gyffredinol, DM18 Ardaloedd Tirwedd Arbennig, DM19 Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol yw hybu gwelliannau i'r amgylchedd |

Draft

adeiledig, hanesyddol a naturiol, cadw a gwella'r amgylchedd naturiol, a gwarchod a chadw asedau diwylliannol a threftadaeth yn y drefn honno. Dylai'r rhain i gyd ddwyn budd i amwynderau.

**Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i broblemau cymdeithasol gan fod y cynllun yn mynd ati i greu polisïau/dynodiadau/canllawiau atodol penodol ar gyfer safleoedd amwynder/cyfleusterau hamdden.
- Sicrhau y dynodir datblygiadau i safon uchaf nad yw'n cael effaith niweidiol ar ffurf a chymeriad y treflun, y tirlun neu'r amgylchedd naturiol neu hanesyddol cyfagos.
- Sicrhau bod llai o effaith ar amwynderau gweledol ac y ceisir cyfleoedd i wella.
- Ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr, lle bo'n briodol, gyfrannu at wella amwynderau.

Draft

**7. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fygythiad o gynnydd mewn trosedd neu drais yn y gymuned?**

a) Cynyddu'r perygl o drosedd neu drais, gan leihau'r manteision o fyw yn y gymuned felly?

**Cefndir**

Gallai cynnydd mewn trosedd, neu fwy o ofn trosedd, arwain at fwy o allfudo a all fygwth cydbwysedd cymdeithasol, sy'n debygol o weithio'n groes i fuddiannau'r Gymraeg, sydd ond yn gallu ffynnu mewn cymunedau cytbwys a chynaliadwy.

**Dadansoddiad llinell sylfaen**

Mae Data Monitro Blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Rhagfyr 2017 yn dangos ystadegau'r troseddau hysbysadwy fel a ganlyn:

**Tabl 11: Troseddau hysbysadwy**

| | |
|---|---|
| Trais gydag anaf | 474 |
| Trais heb anaf (gan gynnwys aflonyddu ac ymosod) | 621 |
| Lladrata | 5 |
| Dwyn o'r unigolyn | 15 |
| Difrod troseddol a thanau bwriadol | 616 |
| Bwrgleriaeth ddomestig | 127 |
| Bwrgleriaeth nad yw'n ddomestig | 110 |
| Troseddau cerbydau (gan gynnwys dwyn cerbydau a dwyn o gerbydau) | 118 |
| Troseddau cyffuriau | 302 |

Draft

| | |
|---|---|
| Troseddau rhyw | 179 |

Ffynhonnell: https://www.ceredigion.gov.uk/oldicm/utilities/action/act_download.cfm?mediaid=56583&langtoken=eng

Caiff troseddau hysbysadwy eu cofnodi gan yr heddlu yn ôl math. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol o ran y math o droseddau hysbysadwy neu eu nifer ers mabwysiadu'r cynllun.

Mae'r tabl isod yn cynnwys data ardal ehangach yr heddlu sy'n rhychwantu Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys (Medi 2018). Er gwaethaf hyn, mae'n amlwg bod gan Ddyfed-Powys (sy'n cynnwys Ceredigion) y gyfradd leiaf o drosedd o bell ffordd o blith pob ardal heddlu yng Nghymru.

**Tabl 12: Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fesul ardal heddlu Medi 2018 (fesul 1,000 o'r boblogaeth)**

| **Ardal heddlu** | **Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd (ac eithrio twyll)** |
|---|---|
| **Cymru** | **78.6** |
| Dyfed-Powys | 50.7 |
| Gwent | 93.2 |
| Gogledd Cymru | 80.3 |
| De Cymru | 82.1 |

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/policeforceareadatatables

**Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith**

Mae cyswllt anorfod rhwng amddifadedd cymdeithasol a throsedd. Fel arfer, nodweddir ardaloedd o amddifadedd gyda chyfraddau uchel o ddiweithdra, tai o

Draft

ansawdd gwael a diffyg cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae dosbarthiad cymesur o ddatblygiadau'n debygol o leihau amddifadedd yn y sir yn ei gyfanrwydd trwy ddarpariaeth uniongyrchol o dai newydd, datblygiad economaidd a chyfleusterau cymunedol ac adeiledd newydd angenrheidiol i gynnal a gwella cymunedau, a fydd yn helpu i leihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofn trosedd.

Yn ogystal â hynny, lliniarir unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol i ryw raddau gan Bolisi S01: Twf Cynaliadwy, sy'n benodol yn hybu safonau uchel o ddylunio i leihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofn trosedd.

**Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo**

Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:

- Dylai polisïau manwl a/neu ganllawiau cynllunio atodol annog lleihad mewn cyfraddau troseddau trwy hyrwyddo egwyddorion dylunio da ym mhob datblygiad, gan gynnwys strydoedd diogel sy'n gwella diogelwch cymunedau.

Draft

**8. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol?**

a) O bosib, arwain at fusnesau lleol, Cymraeg eu hiaith yn dirwyn i ben, yn sgil:

- Lleihad yn y boblogaeth leol gyffredinol?
- Cynnydd y nifer y preswylwyr di-Gymraeg?
- Cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol/defnyddiol?

**Cefndir**

Mae'n bosibl y gall datblygiadau newydd amhriodol neu ddiffyg cyfleoedd busnes addas gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol presennol trwy, e.e. lleihau cyfleoedd/sail i ymestyn, lleihau sylfaen eu cwsmeriaid, a allai arwain at adrannau o'r boblogaeth yn methu â chael nwyddau neu ddefnyddio gwasanaethau. Yn sgil hynny, gall siaradwyr Cymraeg allfudo i chwilio am well amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau.

**Dadansoddiad llinell sylfaen**

Fel y gellir gweld yn y tabl isod, mae cyfran y busnesau yn y diwydiant amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yn sylweddol uwch na'r gyfran yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru.

**Tabl 13: Busnesau yn ôl diwydiant (Mawrth 2013)**

| Busnes yn ôl diwydiant (%) | Ceredigion | De-orllewin a chanolbarth Cymru |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 31.6 | 22.3 |
| Manwerthu | 10.3 | 10.6 |
| Adeiladu | 9.1 | 9.5 |
| Llety a Gwasanaethau Bwyd | 7.7 | 7.7 |
| Gweinyddu Busnes a Gwasanaethau Cymorth | 5.4 | 6.1 |

Draft

| | | |
|---|---|---|
| Cynhyrchu proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 5.3 | 7.2 |
| Cynhyrchu | 4.7 | 5.3 |
| Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill | 4.7 | 5.8 |
| Iechyd | 4.2 | 5.8 |
| Cyfanwerthu | 3.2 | 3.5 |
| Masnach Moduron | 2.8 | 3.2 |
| Trafnidiaeth a Storio (gan gynnwys y Post) | 2.4 | 3.1 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 2.4 | 2.6 |
| Eiddo | 2.3 | 2.1 |
| Addysg | 1.9 | 2.4 |
| Cyllid ac Yswiriant | 1 | 1.6 |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn | 1 | 1.3 |

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

http://176.32.230.11/informceredigion1.com/wp-content/uploads/2014/05/Cipolwg-ar-Ceredigion-Jan-2014.pdf

**Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith**

Bydd yr union effaith ar fusnesau lleol yn dibynnu ar raddfa, natur a lleoliad datblygiadau newydd o ran busnesau presennol yn yr ardal. Mae'r Strategaeth a Ffefrir i ddod yn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau mewn ardaloedd trefol yn ogystal ag ardaloedd gwledig a ddylai gyfrannu at ddatblygu economaidd amrywiol. Mae'r strategaeth economaidd yn y Strategaeth a Ffefrir i ddod yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau cynnydd mewn allbwn economaidd gan amryw sectorau, sy'n cynyddu nifer y swyddi yn ogystal â darparu ar gyfer ffurfio

Draft

| |
|---|
| busnesau newydd. Amcan 2 y CDLl yw 'Cefnogi ac annog economi wledig rhyng-gysylltiedig, amrywiol, ffyniannus a chynaliadwy a fydd yn dwyn budd i Geredigion a'i chymunedau lleol; yn ogystal ag ysbrydoli'r gwaith o adfywiogi trefi Ceredigion i fod yn arloesol ac yn effeithiol mewn economi sy'n bwerus ledled y byd'. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br>• Sicrhau bod polisïau priodol ar gyfer cynorthwyo busnesau presennol a chreu cyfleoedd i fusnesau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br>• Hwyluso gwaith datblygu economaidd lleol ar raddfa fach ledled y sir. |

Draft

**9. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith niweidiol ar swyddi lleol?**

a) Creu swyddi i'r boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith (efallai os bydd pobl leol Cymraeg eu hiaith yn meddu ar y sgiliau cywir)?

b) Bygwth swyddi'r boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith (efallai trwy achosi busnesau lleol i gau).


**Cefndir**

Gall datblygiad newydd ddylanwadu ar nifer y swyddi sydd ar gael i'r farchnad lafur leol, yn ogystal â'r math o swyddi a'u hansawdd, a all, yn ei dro, ddylanwadu ar y cyfraddau allfudo/mewnfudo.

**Dadansoddiad llinell sylfaen**

Yn ôl ystadegau cyfrifiad 2011, roedd 61.1% o boblogaeth Ceredigion yn economaidd weithgar. O blith y rhain, roedd 43.2% yn gweithio’n llawn amser.

**Ffigur 4**




Fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a mis Medi 2018 yn dangos bod 69.7% o boblogaeth Ceredigion yn economaidd weithgar, o'u cymharu â 76.2% o boblogaeth gyfan Cymru. Mae cyfran ychydig yn fwy o ddynion (70%) yn economaidd weithgar o'u cymharu â menywod (69.3%). Mae'r gwahaniaeth rhwng dynion a menywod economaidd weithgar yng Ngheredigion yn llai o lawer na'r gwahaniaeth yng Nghymru. Mae hyn yn rhannol gan fod canran y dynion economaidd weithgar yn llai o lawer na phoblogaeth Cymru.

Draft

**Tabl 14: Cyflogaeth a diweithdra (Hydref 2017-Medi 2018)**

| | Ceredigion (Niferoedd) | Ceredigion (%) | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Pawb** | | | | |
| Economaidd weithgar | 34,800 | 69.7 | 76.2 | 78.5 |
| Mewn cyflogaeth | 33,800 | 67.6 | 72.6 | 75.1 |
| Gweithwyr | 24,800 | 51.5 | 62.5 | 64.3 |
| Hunangyflogedig | 7,800 | 13.8 | 9.5 | 10.6 |
| Di-waith (ar sail model) | 1,300 | 3.7 | 4.6 | 4.2 |
| **Dynion** | | | | |
| Economaidd weithgar | 18,300 | 70 | 80.5 | 83.4 |
| Mewn cyflogaeth | 17,600 | 67 | 76.3 | 79.8 |
| Gweithwyr | 11,700 | 46.8 | 62.6 | 65.4 |
| Hunangyflogedig | 5,100 | 17.5 | 13.1 | 14.1 |
| Di-waith | - | - | 5.1 | 4.2 |
| **Menywod** | | | | |
| Economaidd weithgar | 16,500 | 69.3 | 71.9 | 73.6 |
| Mewn cyflogaeth | 16,200 | 68.1 | 68.9 | 70.5 |
| Gweithwyr | 13,100 | 56.6 | 62.4 | 63.1 |
| Hunangyflogedig | 2,600 | 9.7 | 5.9 | 7.1 |
| Di-waith | - | - | 4.1 | 4.1 |

Ffynhonnell: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157390/printable.aspx

Draft

| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith** |
|---|
| Mae'n annhebygol y bydd y Strategaeth a Ffefrir i ddod yn cael effaith niweidiol ar swyddi lleol yn y sir. Mae'r strategaeth economaidd yn y Strategaeth a Ffefrir i ddod yn tynnu sylw at yr angen i wella allbwn economaidd amryw sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi a darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Dylai hyn helpu i gadw'r gweithlu presennol Cymraeg ei iaith a denu preswylwyr blaenorol o oedran gweithio i ddychwelyd i'r ardal.<br><br>Gan fod yr opsiwn gofodol a ffefrir yn hwyluso dosbarthiad cymesur o ddatblygiadau, bydd yn caniatáu datblygiad economaidd y prif ganolfannau a'r aneddiadau mwy gwledig. Bydd hyn yn arwain at ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer amrywiaeth ddaearyddol eang o'r boblogaeth ac yn helpu i wella anghyfartaledd rhwng grwpiau incwm. Mae'r strategaeth yn diogelu safleoedd ac yn gwneud dyraniadau cyflogaeth penodol yn bennaf yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol ynghyd â lleoliadau priodol eraill. Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth priodol o raddfa fach hefyd mewn pentrefi, clystyrau ac yng nghefn gwlad ac yn yr ardaloedd cyfagos.<br><br>Mae'r polisïau strategol yn cefnogi cyfleoedd am dwf economaidd ledled Ceredigion ac yn nodi bod yn rhaid i raddfa cyflogaeth fod yn briodol i'w lleoliad. Mae polisïau Defnydd o Dir LU11 – LU13 ac LU18 – LU21 hefyd yn cefnogi amryw gyfleoedd am dwf economaidd yn y sir.<br><br>Gallai cynnydd yn y boblogaeth breswyl hefyd arwain at gynnydd yn y galw am siopau a gwasanaethau masnachol, gan greu economi leol hyfyw felly. Fodd bynnag, bydd yr union effaith ar gyflogaeth yn dibynnu ar leoliad a lefel y mewnfuddsoddi i'r ardal. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br>• Sicrhau bod polisïau priodol ar gyfer cynorthwyo busnesau presennol a chreu cyfleoedd i fusnesau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br>• Hwyluso gwaith datblygu economaidd lleol ar raddfa fach ledled y sir. |

Draft

| **10. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at well amrywiaeth economaidd?** |
|---|
| a) Arwain, o bosib, at nifer fwy o wahanol swyddi ar gyfer y boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith yn sgil arallgyfeirio economaidd? |
| b) Arwain at fwy o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo? |
| **Cefndir** |
| Gallai datblygiad newydd greu cyfleoedd cyflogaeth newydd, sy'n gofyn am sgiliau penodol: e.e. datblygiad hamdden/twristiaeth ar sail diwydiannau diwylliannol, a gallai ofyn am fwy o ddefnydd o'r iaith fel sgil yn y farchnad lafur. |
| **Dadansoddiad llinell sylfaen** |

Caiff y data diweddaraf ar yr economi ei gasglu ar sail ymchwil Tyfu Canolbarth Cymru. Am y rheswm hwn, mae cyfran fawr o'r dadansoddiad llinell sylfaen hwn yn seiliedig ar ganolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys) yn hytrach na dim ond Ceredigion.

Mae sylfaen fusnes canolbarth Cymru yn cynnwys 12,710 o fusnesau, sef twf o 2.2% ers 2011. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd twf o 14.8% yng Nghymru a 27% yn y DU. Mae 8,695 o'r busnesau yng nghanolbarth Cymru ym Mhowys a 4,015 yng Ngheredigion.

Micro-fusnesau yw 92.6% o'r busnesau yn rhanbarth canolbarth Cymru, sy'n uwch na'r 89.2% a gofrestrwyd yng Nghymru a'r 89.4% ledled y Deyrnas Unedig. Dim ond 0.8% o'r busnesau ledled canolbarth Cymru sy'n fusnesau canolig neu fawr (h.y. busnesau sydd â 50 neu fwy o weithwyr) o'u cymharu â 1.6% yng Nghymru ac 1.9% ledled y DU.


**Tabl 15: Demograffeg busnesau yn ôl maint y busnes**

| | Powys | | Ceredigion | | Mid Wales | | Wales | | UK | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Number | % | Number | % | Number | % | Number | % | Number | % |
| Micro (0-9) | 8,085 | 93.0% | 3,675 | 91.7% | 11,760 | 92.6% | 91,470 | 89.2% | 2,386,735 | 89.4% |
| Small (10-49) | 530 | 6.1% | 310 | 7.7% | 840 | 6.6% | 9,430 | 9.2% | 231,715 | 8.7% |
| Medium-sized (50-249) | 65 | 0.8% | 25 | 0.6% | 90 | 0.7% | 1,375 | 1.3% | 40,530 | 1.5% |
| Large (250+) | 10 | 0.1% | 0 | 0.0% | 10 | 0.1% | 305 | 0.3% | 9,825 | 0.4% |
| | **8,690** | | **4,010** | | **12,700** | | **102,580** | | **2,668,805** | |

Draft

Mae micro-fusnesau'n arbennig o amlwg yn y diwydiant amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota; mae gan 99% o'r busnesau yn y meysydd hyn rhwng 0 a 9 o weithwyr. Mae gan y sector gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn a’r sector gweinyddu busnes a gwasanaethau cymorth gyfrannau sylweddol o ficro-fusnesau hefyd. Mae gan y sectorau iechyd (27.2%), llety a gwasanaethau bwyd (22.9%) a mwyngloddio, chwarela a chyfleustodau (18.2%) gyfran weddol fawr o gwmnïau bach (rhwng 10 a 49 o weithwyr). Gwelir mentrau canolig yn bennaf yn y sectorau iechyd a gweithgynhyrchu, sy'n cynrychioli 6.2% a 4.9% o gyfanswm y stoc busnes yn y drefn honno.

**Ffigur 5: Maint busnesau yn ôl sector**





Mae'r gyfran fawr o ficro-fusnesau ledled canolbarth Cymru yn debygol o gael ei sbarduno gan y nifer fawr o fentrau amaethyddol, sef 36.7% o'r holl fusnesau ledled rhanbarth canolbarth Cymru. Mae hyn oherwydd gwledigrwydd rhanbarth canolbarth Cymru a'i gwagle helaeth.

Ymhlith y sectorau eraill sydd â nifer fawr o fusnesau mae'r diwydiant adeiladu, sydd â 10% o'r mentrau, ynghyd â’r sector llety a gwasanaethau bwyd a'r diwydiannau proffesiynol, technegol a gwyddonol sy’n cyfrif am 7% a 6.9% o'r sylfaen fusnes yn y drefn honno.

Draft


## Ffigur 6: Cyfansoddiad y sylfaen fusnes yn ôl sector economaidd eang




O ran cyflogaeth, mae cyfran fawr o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ledled canolbarth Cymru; gyda'r sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, addysg ac iechyd, gyda'i gilydd, yn cyfrif am 36% o gyfanswm y gyflogaeth o'u cymharu â 32.7% yng Nghymru a 36.4% ledled y DU.

Ymhlith y sectorau nodedig eraill sy'n creu cyflogaeth mae llety a gwasanaethau bwyd(12.2%) a manwerthu (10.6%). Mae'r rhain yn adlewyrchu pwysigrwydd yr economi sylfaen i ganolbarth Cymru, gan fod y sectorau hyn yn darparu gwasanaethau hanfodol i breswylwyr y rhanbarth – mae hyn yn bwysicach fyth oherwydd gwledigrwydd y rhanbarth a'i dibyniaeth ar drefi marchnad bach.

## Ffigur 7: Cyflogaeth yn ôl diwydiant




Draft

Ers 2010, mae strwythur y sylfaen fusnes ledled canolbarth Cymru wedi newid. Bu lleihad mawr yn nifer y mentrau manwerthu, sydd wedi gostwng o 920 i 785 (-14.7%). I'r gwrthwyneb, bu cynnydd yn nifer y mentrau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol o 755 yn 2011 i 990 (+16.6%) yn 2017 a chynnydd sylweddol yn nifer y mentrau gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn o 15 yn 2010 i 85 yn 2017 (+466.7%).

Bu cynnydd yn nifer y gweithwyr o 70,500 yn 2010 i 75,645 yn 2016, sef twf o 7.3%. Cafodd y twf hwn ei sbarduno gan y diwydiant llety a gwasanaethau bwyd, a welodd nifer eu gweithwyr yn cynyddu o 6,250 i 9,250 (+48%) a gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, a gododd o 4,875 i 5,750 (+17.9%) rhwng 2010 a 2016.

**Tabl 16: Newid yn y sylfaen fusnes a chyflogaeth yn ôl sector**

| Sector | Change in business base | | Change in employment | |
|---|---|---|---|---|
| | Number | % | Number | % |
| Agriculture, forestry & fishing | -55 | -1.2% | 720 | 313.0% |
| Mining, quarrying & utilities | 15 | 37.5% | 70 | 9.7% |
| Manufacturing | -10 | -1.9% | 500 | 8.2% |
| Construction | 50 | 4.1% | 750 | 20.7% |
| Motor trades | 0 | 0.0% | 25 | 1.8% |
| Wholesale | -5 | -1.5% | 125 | 5.6% |
| Retail | -135 | -14.7% | 0 | 0.0% |
| Transport & storage (inc postal) | -5 | -1.4% | -125 | -5.5% |
| Accommodation & food services | 30 | 3.5% | 3,000 | 48.0% |
| Information & communication | 15 | 4.9% | 225 | 27.3% |
| Financial & insurance | 20 | 33.3% | -120 | -16.6% |
| Property | 40 | 20.0% | 375 | 46.9% |
| Professional, scientific & technical | 125 | 16.6% | -800 | -21.3% |
| Business administration & support services | 30 | 3.8% | 750 | 32.6% |
| Public administration & defence | 70 | 466.7% | 875 | 17.9% |
| Education | 5 | 4.5% | -500 | -4.5% |
| Health | 40 | 14.0% | -250 | -2.2% |
| Arts, entertainment, recreation & other services | 45 | 7.8% | -750 | -17.1% |

Ffynhonnell: Tyfu Canolbarth Cymru: Adroddiad llinell sylfaen ar y Rhaglenni Ymyriadau ar sail Tystiolaeth

**Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith**

Gan fod yr opsiwn gofodol a ffefrir yn hwyluso dosbarthiad mwy cymesur o ddatblygiadau, byddai'n caniatáu datblygiad economaidd y prif ganolfannau a'r aneddiadau mwy gwledig. Bydd hyn yn arwain at ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer amrywiaeth ddaearyddol ehangach o'r boblogaeth ac yn helpu i wella anghyfartaledd rhwng grwpiau incwm.

Draft

| |
|---|
| Mae'r strategaeth economaidd yn y Strategaeth a Ffefrir i ddod yn hyrwyddo datblygu economaidd amrywiol yn y sir ac yn tynnu sylw at yr angen i gynyddu allbwn economaidd amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi. Mae'r strategaeth yn dyrannu tir cyflogaeth i gyflawni'r amcanion hyn.<br><br>Pennir y ffigur ar gyfer y ddarpariaeth tir cyflogaeth gan y Cynllun Adneuo, ond rhagwelir y bydd yn debyg i'r hyn a ddyrannwyd yn CDLl 1, gan fod y rhan fwyaf o'r tir a ddyrannwyd yn estyniadau i safleoedd presennol ac nid yw'r patrwm hwn wedi newid.<br><br>Fodd bynnag, gallai cyfleoedd cyflogaeth ddenu gweithwyr di-Gymraeg i'r ardal. Ar y llaw arall, y diffyg cyfleoedd cyflogaeth yw un o'r prif resymau pam mae pobl ifanc yn mudo, felly bydd darparu cyfleoedd newydd yn helpu i gadw'r boblogaeth ifanc yn eu cymunedau. Mae Polisi DM01 Rheoli Effeithiau Datblygiad ar Gymunedau a'r Gymraeg yn ceisio osgoi unrhyw niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned a achosir gan ddatblygiad amhriodol ac mae'n gwneud cyfraniad ariannol yn ofynnol trwy gytundeb Adran 106 mewn amgylchiadau priodol.<br><br>Gweler hefyd feini prawf 8 a 9 uchod. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun wneud y canlynol:<br>• Cynnwys polisi priodol ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd priodol mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol.<br>• Hyrwyddo datblygiad amrywiaeth o fentrau sy'n briodol i ardaloedd penodol. |

Draft

| **11. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar lefelau cyflogau lleol?** |
|---|
| a) Cynyddu/lleihau lefel cyflogau, o bosib, yn sgil mwy o gystadleuaeth gweithlu/busnes? |
| **Cefndir** |
| Gallai cystadleuaeth yn y sectorau cyflogaeth arwain at benderfyniadau ynglŷn â'r farchnad lafur o ran lle byddant yn derbyn cyflogaeth ac ansawdd canfyddedig cyfleoedd cyflogaeth. Mewn economi fyd-eang gystadleuol, gallai dibyniaeth cymunedau ar gyflogaeth allweddol fod yn agored i newidiadau anffafriol mewn cyflogau a chystadleuaeth busnes. |
| **Dadansoddiad llinell sylfaen** |
| Yn 2017, roedd yr incwm wythnosol canolrifol gros ar gyfer cyflogaeth amser llawn fel a ganlyn:<br><br>**Tabl 17: Incwm wythnosol canolrifol gros**<br>Ceredigion: £468<br>Cymru: £498<br>y DU: £550<br>Ffynhonnell: ASHE y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br><br>Fel y dangosa'r tabl uchod, roedd gan Geredigion incwm wythnosol canolrifol gros llai ar gyfer swyddi amser llawn yn 2017 na Chymru a'r DU. O ran y tablau yn nadansoddiad llinell sylfaen C10, mae Brexit yn achosi heriau i rai o'r diwydiannau sydd ymhlith y prif gyflogwyr yng Ngheredigion a allai hefyd effeithio ar incwm canolrifol gweithwyr. Gallai hyn fod yn arbennig o amlwg yn y sector amaethyddol, gan y daw taliadau uniongyrchol mwyafrif y ffermwyr yng Nghymru o gyllid yr UE a hwn yw'r rhan fwyaf o'u hincwm.<br><br>Fodd bynnag, drwy ganolbwyntio ar Dyfu Canolbarth Cymru, mae blaenoriaeth ar ‘hybu'r economi’, sy'n nodi bod angen cynyddu'r cyfleoedd cyflogaeth a'r cyfartaledd enillion yng Ngheredigion. Mae'n annog y gwaith o greu fforymau |

**Tabl 17: Incwm wythnosol canolrifol gros**

| | |
|---|---|
| Ceredigion | £468 |
| Cymru | £498 |
| y DU | £550 |

Draft

| |
|---|
| busnes a diwydiant i hyrwyddo gwaith ar y cyd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac yn pwysleisio'r angen am welliannau i fynediad digidol a chorfforol. Mae'r strategaeth yn cynorthwyo buddsoddiad mewn diwydiannau allweddol i Geredigion; nodir mai'r rhain yw twristiaeth ac amaethyddiaeth.<br><br>Blaenoriaeth allweddol arall ar gyfer y strategaeth yw lleihau nifer y bobl ifanc sy'n allfudo er mwyn cynyddu'r boblogaeth oedran gwaith. Hefyd, mae'n helpu i gynyddu cyfartaledd incwm aelwydydd a gwella lefelau cymwysterau preswylwyr yn y sir. |
| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith** |
| Mae'n annhebygol y bydd y Strategaeth a Ffefrir i ddod yn cael effaith niweidiol ar lefelau cyflogau yn y sir. Mae gwaith Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a'r twf economaidd rhagweledig sy'n deillio ohono yn canolbwyntio ar wella ansawdd y swyddi sydd ar gael yn lleol, a allai helpu i wella cyflogau. Mae'r strategaeth economaidd yn y Strategaeth a Ffefrir i ddod yn tynnu sylw at yr angen i wella allbwn economaidd amryw sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi a darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Dylai hyn helpu i gadw'r gweithlu presennol Cymraeg ei iaith.<br><br>Gweler hefyd feini prawf 8, 9 a 10 uchod. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br>• Cynnwys polisi priodol ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd priodol mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol.<br>• Hyrwyddo datblygiad amrywiaeth o fentrau sy'n briodol i ardaloedd penodol. |

Draft

**12. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar gyfartaledd cost tai?**

a) Gorfodi pobl leol Cymraeg eu hiaith i adael y gymuned?

b) Arwain, o bosib, at gynnydd mewn digartrefedd/straen tai ymysg aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith?

c) Atal pobl leol Cymraeg eu hiaith rhag dychwelyd i'r ardal/cymuned?

**Cefndir**

Gall dosbarthiad gofodol datblygiad arwain at naill ai cynnydd neu leihad mewn prisiau tai ac mae hyn yn debygol o effeithio ar wahanol adrannau'r o'r gymuned yn anghymesur. Hefyd, gallai hyn achosi naill ai mewnfudo neu allfudo yn ogystal ag effaith benodol ar raddfa'r defnydd o iaith mewn cymuned.

Y lefel o dwf tai a ffefrir yn y Strategaeth a Ffefrir yw'r Opsiwn Twf Canolig, sef cyfanswm o 3,000 o unedau o dai ychwanegol erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Credir bod hyn yn lefel briodol a realistig o dwf i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.

**Dadansoddiad llinell sylfaen**

Mae Ceredigion, fel gweddill y DU, wedi gweld cynnydd dramatig mewn prisiau tai dros y blynyddoedd diweddar, fel y'i gwelir yn y tabl isod yn y cynnydd rhwng 2017 a 2018. Gwelodd Ceredigion gynnydd o 9.1% o fewn un flwyddyn, o'i gymharu â chynnydd o 5.2% yng Nghymru. Gwelodd Ceredigion y pumed cynnydd canrannol uchaf o ran y newid mewn prisiau blynyddol rhwng 2017 a 2018 o blith holl siroedd Cymru.


**Tabl 18: Newid mewn Prisiau Blynyddol ar gyfer Ceredigion a Chymru**

| | **Rhagfyr 2018** | **Rhagfyr 2017** | **Gwahaniaeth** |
|---|---|---|---|
| Ceredigion | £198,286 | £181,703 | 9.1% |
| Cymru | £161,845 | £153,791 | 5.2% |

Tynnir sylw at y pris cyfartalog uchel ar y map uchod. Mae'n amlwg bod mwyafrif yr awdurdodau wedi gweld pris cyfartalog llai na Cheredigion, ym mis Rhagfyr 2018.

Draft

**Ffigur 8: Pris cyfartalog yn ôl awdurdod lleol (Rhagfyr 2018)**




Mae'r tablau isod yn dangos nifer y gwerthiannau yng Ngheredigion a Chymru yn 2017 ac yn 2018. Bu lleihad o 6 yng Ngheredigion a ddilynodd y patrwm cenedlaethol o leihau.

**Tabl 19: Nifer y gwerthiannau yng Ngheredigion a Chymru**

| | **Hydref 2018** | **Hydref 2017** |
|---|---|---|
| Ceredigion | 97 | 103 |
| Cymru | 3,911 | 4,471 |

Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/publications/uk-house-price-index-wales-december-2018/uk-house-price-index-wales-december-2018

Rhaid nodi y gwelwyd nifer weddol isel o werthiannau ac amrywiaeth fawr yn y mathau o eiddo a werthwyd yng Ngheredigion. Mae hyn yn cyfateb i amrywiaeth fawr ym mhrisiau'r eiddo a werthir, a allai gynyddu pris cyfartalog tŷ.

O ran tai fforddiadwy, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn nodi bod o leiaf 20% o bob annedd a ganiateir yn fforddiadwy. Cyrhaeddwyd y targed hwn gan fod 28% o'r holl ddatblygiadau preswyl ers mabwysiadu'r cynllun yn fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o dai fforddiadwy, o Werthu ar Ddisgownt i LCC.

Draft

| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith** |
|---|
| Ar yr adeg hon, mae'n anodd pennu union effaith y Strategaeth a Ffefrir ar brisiau tai yn y sir. Fodd bynnag, dylai'r strategaeth gynyddu argaeledd a fforddiadwyedd tai yng Ngheredigion yn ogystal â'r amrywiaeth o dai.<br><br>Mae'r strategaeth tai yn hwyluso'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy sy'n briodol o ran eu dyluniad a'u maint. Ar sail rhagamcanion y Sefyllfaoedd Twf a ffefrir o ran anghenion tai, mae'r strategaeth yn darparu ar gyfer 3,000 o gartrefi ychwanegol rhwng 2018 a 2033, sy'n darparu cyfleoedd am gyfradd datblygu fwy realistig a chyraeddadwy nag yn ystod y cynllun cyfredol. Bydd cyfran o dai newydd yn 'dai fforddiadwy'. Dylai hyn ei gwneud yn haws i ddarpar berchnogion tai brynu neu rentu cartrefi newydd a fforddiadwy, yn enwedig y preswylwyr sydd â chysylltiad lleol.<br><br>Yn wir, mae'r Strategaeth a Ffefrir i ddod yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i ddiwallu anghenion y gymuned leol, yn enwedig anghenion pobl ifanc a'r henoed. Bydd dosbarthu tai ledled y sir yn darparu mwy o ddewis a gwell hyblygrwydd i bobl aros yn eu cymunedau. Bydd y strategaeth hefyd yn hwyluso'r ddarpariaeth o dai a chyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig. Dylai hyn hefyd helpu i gadw pobl ifanc yn y cymunedau hyn.<br><br>Dylai'r polisïau strategol canlynol yn y strategaeth helpu i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu tai fforddiadwy sy'n bodloni gofynion y boblogaeth leol: S01-S05. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br>• Amlinellu'r gofyniad am dai fforddiadwy mewn datblygiadau tai newydd.<br>• Hwyluso datblygiadau tai priodol mewn lleoliadau ble y mae eu hangen fwyaf.<br>• Hyrwyddo'r gwaith o gyflwyno'r datblygiad yn raddol er mwyn sicrhau y gall gwahanol ardaloedd a chymunedau ymdopi â'r datblygiad heb erydu'r iaith. |

Draft

- Ystyried goblygiadau cynnydd yn nifer yr ail gartrefi yn y sir.
- Cynnwys mesurau i reoli deiliadaeth tai newydd mewn ardaloedd penodol.

Draft

| **13. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol?** |
| --- |
| a) Bygwth/diogelu ysgolion lleol yn sgil cynnydd/lleihad yn nifer y myfyrwyr? |
| b) Newid y cydbwysedd rhwng myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a myfyrwyr di-Gymraeg? |
| **Cefndir** |
| Gall datblygiad arwain at wasanaethau lleol, megis ysgolion, yn elwa ar gynnydd mewn poblogaeth iau, ond gallai diffyg datblygiad ac, yn ei dro, dim newid neu ddirywiad mewn anghydbwysedd presennol mewn proffiliau oedran presennol cymunedau fygwth hyfywedd ysgolion yn y dyfodol. |
| **Dadansoddiad llinell sylfaen** |
| Mae'r ddarpariaeth bresennol o ysgolion yng Ngheredigion fel a ganlyn:<br>• 39 o ysgolion cynradd, pedair ysgol uwchradd, dwy ysgol ar gyfer plant 3-19 oed ac un ar gyfer plant 3-16 oed.<br><br>Bydd lleoliad a chapasiti ysgolion yn ffactor wrth benderfynu ar leoliad datblygiad. Mae mwyafrif yr ysgolion mewn canolfan gwasanaeth trefol neu wledig ac maent yn gyfleuster allweddol a ystyrir wrth bennu pa aneddiadau a ddylai fod yn ganolfannau gwasanaeth. Felly, ar gyfer y rhan fwyaf o ysgolion, mae dyraniadau ar gael neu wedi'u cynllunio yn eu canolfan gwasanaeth.<br><br>Dylai ysgolion fod â chapasiti digonol i gynnal unrhyw gynnydd mewn poblogaeth a grëir gan ddatblygiad preswyl. Nod polisi'r Gymraeg ar gyfer ysgolion y sir yw sicrhau bod pob disgybl yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys sy'n berthnasol i'w hoedran, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.<br><br>Er mai nod y polisi yw dwyieithrwydd, rhoddir pwyslais ar y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar (hyd ddiwedd CA1) er mwyn creu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu ymhellach. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod mwyafrif yr ysgolion yn dechrau cyflwyno Saesneg yn ffurfiol ar ddiwedd CA1. Mewn cyfnodau allweddol eraill, disgwylir i ysgolion baratoi i ddatblygu amgyffred disgybl o'r Gymraeg. Mae |

Draft

hyn yn golygu y caiff Cymraeg ei haddysgu fel iaith gyntaf yn ysgolion cynradd y sir (ac eithrio un ysgol). Gallai hyn arwain at rieni di-Gymraeg yn dysgu neu'n gwerthfawrogi'r iaith, gan gryfhau ei statws mewn cymunedau felly.

**Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith**

Ar yr adeg hon, mae'n anodd pennu beth fydd union effaith y Strategaeth a Ffefrir i ddod ar ysgolion lleol gan y bydd yr effaith yn dibynnu ar raddfa a lleoliad y datblygiad newydd.

Gall peidio â chynllunio datblygiad tai newydd ychwanegol yn nalgylch ysgolion roi pwysau gormodol ac annerbyniol ar eu gallu i weithredu'n effeithiol, yn sgil y plant ychwanegol y bydd angen eu cynnal. Gall gweithio ar y cyd a chyflwyno datblygiad yn raddol liniaru'r effeithiau. Gall goblygiadau cynllunio, sy'n sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr at ysgolion lleol fod yn fodd o oresgyn hyn ac fe'u ceisir pan fo'n briodol.

Hefyd, gall datblygiad newydd arwain at fewnlif o bobl ddi-Gymraeg a all amharu ar gydbwysedd ieithyddol ysgolion. Yn aml, y datblygiadau sy'n fwy tebygol o gael effaith annerbyniol ar yr iaith yw'r datblygiadau hynny sy'n fawr o ran eu maint mewn perthynas â strwythur presennol y gymuned/gallu cymuned i amsugno datblygiad tai newydd/math o farchnad dai sy'n gweithredu yn yr ardal, h.y. mae rhai ardaloedd marchnad dai yn fwy tebygol o ddenu preswylwyr sydd eisoes yn byw yn y sir, yn hytrach na denu perchnogion ail gartrefi/cartrefi gwyliau.

Fodd bynnag, fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir i ddod, ystyriwyd cyfleusterau allweddol mewn aneddiadau, gan gynnwys ysgolion lleol a'u capasiti. Hefyd, cafodd aneddiadau eu dosbarthu yn ôl hierarchaeth sy'n ystyried presenoldeb ysgolion a'u gallu i amsugno datblygiad newydd o ran eu cymeriad cymdeithasol. Yn ogystal â hynny, mae Polisi DM01 Rheoli Effeithiau Datblygiad ar Gymunedau a'r Gymraeg yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir yn uniongyrchol, ac yn ceisio osgoi unrhyw niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned a achosir gan ddatblygiad amhriodol.

Draft

| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| --- |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br>• Sicrhau bod gan ysgolion gapasiti digonol, naill ai nawr neu yn y dyfodol, i ateb y galw ychwanegol sy'n deillio o ddatblygiad preswyl newydd.<br>• Cynnwys mesurau i hwyluso'r gwaith o gyflwyno datblygiad newydd mewn modd amserol (h.y. gam wrth gam).<br>• Cael cymorth canllawiau sy'n esbonio'r gofyniad i negodi goblygiadau cynllunio er mwyn sicrhau cyfraniadau addysgol gan ddatblygwyr mewn datblygiadau priodol.<br>• Ystyried proses y cyngor o ad-drefnu ysgolion. |

Draft

| **14. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar y ddarpariaeth gofal iechyd?** |
|---|
| a) Bygwth/diogelu cyfleusterau/gwasanaethau lleol cyfrwng Cymraeg? |
| **Cefndir** |
| Mae argaeledd cyfleusterau gofal iechyd yn ffactor allweddol i bobl sy'n penderfynu a ydynt am aros mewn ardal neu symud i ardal am y tro cyntaf. Mae hyn yn arbennig o wir i bobl hŷn, lle mae canolfannau iechyd wedi dod yn fannau cymdeithasol sy'n cefnogi rhwydweithiau Cymraeg eu hiaith. |
| **Dadansoddiad llinell sylfaen** |

O ran darparwyr gofal sylfaenol, mae'r rhwydwaith lleol yng Ngheredigion yn cynnwys:

**Tabl 20: Nifer y darparwyr gofal sylfaenol**

| | |
|---|---|
| **Practisau meddyg teulu** | 14 |
| **Deintyddfeydd (GIG)** | 7 |
| **Fferyllfeydd** | 23 |
| **Optegyddion** | 9 |

Ffynhonnell: http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur/bwrddiechydprifysgolhyweldda/optegyddion

Ymhlith darparwyr gofal eilaidd Ceredigion mae ysbytai lleol, yn bennaf Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth. Dyma'r ysbyty mwyaf a'r brif ganolfan weinyddol. Mae'n rhychwantu ardal ddaearyddol fawr i'r gogledd ac i'r de o Aberystwyth. Yr ysbytai lleol eraill yn yr awdurdodau cyfagos sy'n darparu gwasanaethau iechyd i breswylwyr Ceredigion yw Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llwynhelyg.

Caiff y rhain eu cynnal gan rwydwaith o ysbytai cymunedol:

- Ysbyty Aberaeron
- Ysbyty Coffa Aberteifi a'r Cylch

Draft

| |
|---|
| • Ysbyty Cymunedol Tregaron |
| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith** |
| Ystyriwyd darpariaeth gofal iechyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir i ddod. Cydnabyddir bod cynnydd yn y boblogaeth breswyl yn debygol o roi pwysau ychwanegol ar gapasiti'r cyfleusterau gofal iechyd presennol. Fodd bynnag, gellid lliniaru'r effaith hon trwy ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gyfrannu at y cyfryw wasanaethau.<br><br>Mae mwyafrif y gwasanaethau a chyfleusterau iechyd allweddol yn y prif ganolfannau trefol. Mae hyn yn golygu y bydd y strategol ofodol a ffefrir, sy'n targedu cyfran fwy o waith datblygu yn y prif ganolfannau, yn caniatáu mynediad da i fwyafrif y boblogaeth i'r cyfleusterau hyn.<br><br>Fodd bynnag, ar y llaw arall, mae mynediad i wasanaethau iechyd mewn rhai ardaloedd gwledig yn wael. Mae'r Strategaeth Aneddiadau ddrafft yn cyfeirio datblygiad at rwydwaith o aneddiadau a gynhelir gan rwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy, gan sicrhau felly bod preswylwyr yr unedau tai newydd yn cael mynediad rhesymol i gyfleusterau a gwasanaethau. Mae'n bwysig bod y cynllun yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy sy'n gwella hygyrchedd yn yr ardaloedd hyn. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br>• Cael eu hategu gan ganllawiau ynglŷn â'r gofynion am oblygiadau cynllunio i sicrhau bod y datblygwr yn darparu'r cyfleusterau angenrheidiol neu'n cyfrannu atynt er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth gynyddol.<br>• Hwyluso rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy ac effeithlon yn y sir gan gynnwys ardaloedd gwledig. |

| **15. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar y ddarpariaeth o gyfleusterau / gwasanaethau / cyfleoedd i gyfranogi yn y gymuned leol ac o safbwynt hamdden neu adloniant?** |
|---|
| a) Bygwth/diogelu cyfleusterau / gwasanaethau / cyfleoedd i gyfranogi yn y gymuned leol ac o safbwynt hamdden neu adloniant, neu gymunedau lleol Cymraeg eu hiaith, gan orfodi adrannau penodol o'r boblogaeth allan o'r ardal/cymuned felly e.e. pobl hŷn, pobl anabl neu bobl ifanc? |
| **Cefndir** |
| Mae amrywiaeth ac argaeledd cyfleusterau yn y gymuned leol ac o safbwynt hamdden neu adloniant yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal bywiogrwydd cymunedol ac yn helpu i gadw'r boblogaeth bresennol yn eu cymunedau. |
| **Dadansoddiad llinell sylfaen** |
| Mae amrywiaeth o grwpiau a gweithgareddau i bobl o bob oedran i hyrwyddo'r gymuned leol, hamdden neu adloniant yng Ngheredigion.<br><br>Gan ganolbwyntio'n bennaf ar grwpiau Cymraeg i blant a phobl ifanc, mae'r rhain fel a ganlyn:<br><br>• CFfI Ceredigion – Mae 18 o glybiau ffermwyr ifanc yng Ngheredigion a chanddynt gyfanswm o 700 a mwy o aelodau rhwng 10 a 26 oed. Mae CFfI Ceredigion yn gweithredu bron yn gyfan gwbl yn Gymraeg. O bryd i'w gilydd, mae'n cyfathrebu'n ddwyieithog er mwyn cynnwys pobl ddi-Gymraeg, ond Cymraeg yw'r iaith bennaf yn y sir.<br>• Urdd Gobaith Cymru – Mae gan Urdd Gobaith Cymru gysylltiadau cryf a hanesyddol â Cheredigion. Roedd pencadlys y sefydliad yn Aberystwyth am ddegawdau ac mae Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog yn nodwedd allweddol o fywyd yn y sir. Yn 2016, roedd gan yr Urdd ddeg adran bentrefol yn y sir a dau glwb yn Llanbedr Pont Steffan ac yn Aberystwyth.<br>Yn ogystal â hynny, mae gan yr Urdd ganghennau mewn:<br>– 57 o ysgolion cynradd<br>– Wyth ysgol uwchradd |

Draft

- Un coleg addysg bellach
- Un asiantaeth hyfforddi ieuenctid
- Un brifysgol

Ym mis Mawrth 2016, roedd gan yr Urdd 4,259 o aelodau yn y sir.

- Theatr Felinfach – Mae Theatr Felinfach yn rhan allweddol o dirwedd ddiwylliannol Cymru yng Ngheredigion. Mae gan y theatr draddodiad hir o weithio gyda phlant ac ieuenctid. Yn ogystal â darparu gwasanaeth ymgynghori i ysgolion a grwpiau cymunedol, trefnir y gweithgareddau canlynol:
  - Tic Toc – sesiynau creadigol i blant rhwng 0 a 3 oed
  - Gwndinis – sesiynau creadigol i blant rhwng 4 a 6 oed
  - Dramatic – sesiynau creadigol i blant rhwng 7 a 11 oed
  - Cadw Sŵn – cwmni theatr i ddisgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9
  - CIC! – cwmni theatr ieuenctid
  - Cwmni Dawns Ieuenctid Ceredigion

  Hefyd, anogir pobl ifanc i gymryd rhan mewn cynyrchiadau megis y pantomein blynyddol enwog a Chwmni Actorion Felin-fach.

  Mae'r theatr yn cynnal oddeutu 60 o brosiectau artistig cyfranogol bob blwyddyn, sy'n denu tua 13,000 o unigolion i'w gweithgareddau. Mae'r pantomein blynyddol enwog yn denu cynulleidfaoedd o tua 2,000 bob mis Rhagfyr.
- Ysgol Gerdd Ceredigion – Mae Ysgol Gerdd Ceredigion yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu canu a pherfformio i safon uchel iawn. Mae'r ysgol gerdd yn Adpar, Castellnewydd Emlyn, dan nawdd Islwyn Evans. Mae gan yr ysgol dri chôr – Côr Iau, Côr Hŷn a Bois Ceredigion. Mae cysylltiad â Chôr Cywair hefyd. Mae'r corau'n perfformio ac yn cystadlu'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Cymraeg yw iaith bennaf yr ysgol gerdd. Mae oddeutu 40-50 o bobl ifanc yn aelodau o'r ysgol gerdd.

  Wrth gwrs, mae nifer o grwpiau dwyieithog eraill ar gael, o glybiau pêl-droed lleol, i Sgowtiaid a Geidiaid, i wersi dawnsio lle cefnogir y Gymraeg ynghyd ag ieithoedd eraill.

Ymhlith y grwpiau cymdeithasol Cymraeg i oedolion mae:

- Merched y Wawr – mae 33 o ganghennau Merched y Wawr yng Ngheredigion a deg Clwb Gwawr, a chanddynt 1000 a mwy o aelodau rhyngddynt.

Draft

| |
|---|
| • Yr Hoelion Wyth – Cymdeithas ddiwylliannol Gymraeg i ddynion yw'r Hoelion Wyth. Mae ganddi chwe changen yng ngorllewin Cymru ac mae tair o'r rhain yng Ngheredigion.<br><br>Ymhlith y cyfleusterau hamdden mae:<br>• Cyfleusterau hamdden – Mae chwe chanolfan hamdden yn y sir ynghyd â thri phwll nofio a weithredir gan y cyngor.<br><br>Ymhlith y gweithgareddau artistig a diwylliannol mae:<br>• Eisteddfodau lleol – Mae 20 o eisteddfodau lleol yng Ngheredigion a'r ardal gyfagos. |
| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith** |
| Mae'n annhebygol y bydd y strategaeth yn cael effaith niweidiol ar y ddarpariaeth o gyfleusterau yn y gymuned leol neu gyfleusterau hamdden neu adloniant. Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau y caiff y gwaith datblygu ei ddosbarthu i gryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r cynllun. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i gynnal cymeriad trefol/gwledig cymysg ac arbennig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.<br><br>Fel y dangosa'r dadansoddiad llinell sylfaen, mae llu o grwpiau a gweithgareddau ar gael i holl breswylwyr Ceredigion. Mae llawer o'r rhain yn gweithredu gyda'r Gymraeg fel eu prif iaith ac o'r herwydd, nid yw'r strategaeth yn debygol o effeithio ar hyn yn negyddol. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun wneud y canlynol:<br>• Ceisio diogelu cyfleusterau / gwasanaethau / cyfleoedd i gyfranogi yn y gymuned leol ac o safbwynt hamdden neu adloniant.<br>• Gwarchod a gwella cymeriad yr aneddiadau. |

Draft

| **16. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar y ddarpariaeth o wasanaethau lleol, megis siopau, swyddfeydd post, banciau, tafarndai?** |
|---|
| a) Bygwth/diogelu siopau, swyddfeydd post, banciau a thafarndai mewn cymunedau lleol Cymraeg eu hiaith, gan orfodi adrannau penodol o'r boblogaeth allan o'r ardal/cymuned felly e.e. pobl hŷn, pobl anabl neu bobl ifanc? |
| **Cefndir** |
| Mae argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal bywiogrwydd cymunedol ac yn helpu i gadw'r boblogaeth bresennol yn eu cymunedau neu ddenu pobl â chysylltiadau lleol i ddychwelyd i ardal. |
| **Dadansoddiad llinell sylfaen** |

**Tabl 21: Nifer y busnesau yn ôl dosbarthiadau defnydd**

| **Canolfan** | **Dosbarth defnydd A1, A2, A3** |
|---|---|
| Aberaeron | 70 |
| Aberteifi | 236 |
| Aberystwyth | 330 |
| Llanbedr Pont Steffan | 102 |
| Llandysul | 37 |
| Tregaron | 24 |

Mae'r tabl uchod yn dangos nifer y dosbarthiadau defnydd A yn y chwe phrif ganol tref yng Ngheredigion. Yn ogystal â hynny, yn ystod y blynyddoedd diweddar, ni fu amrywiaeth sylweddol yn y math o gyfleusterau mewn canolfannau gwasanaeth gwledig a'u nifer. Ni ddylai'r Strategaeth a Ffefrir effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau lleol gan fod y strategaeth yn debyg i'r CDLl cyfredol ac felly, mae data'r flwyddyn flaenorol yn awgrymu

Draft

na ddylai hyn niweidio cyfleusterau lleol ac mewn rhai ardaloedd, anogid twf. O'r herwydd, mae'r CDLl yn parhau i hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach.

**Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith**

Mae'n annhebygol y bydd y strategaeth yn cael effaith niweidiol ar y ddarpariaeth o wasanaethau lleol, megis siopau, ar yr adeg hon. Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau y caiff y gwaith datblygu ei ddosbarthu i gryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r cynllun. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i gynnal cymeriad trefol/gwledig cymysg ac arbennig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir i ddod wedi ystyried argaeledd gwasanaethau mewn aneddiadau. Dosbarthwyd aneddiadau yn ôl hierarchaeth ar sail argaeledd eu gwasanaethau i fodloni gofynion preswylwyr. Dylai hyn sicrhau na ddylai lefelau amhriodol o ddatblygiadau gael effaith niweidiol ar wasanaethau mewn cymunedau.

Hefyd, mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau yr hybir cymeriad unigol a rolau ategol canol trefi trwy ddatblygiadau, gwelliannau i dir y cyhoedd, i gyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus ac i gysylltiadau cerdded/beicio. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth o adeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen i gynnal a hybu cymunedau. Yn enwedig, nod penodol Polisïau LU18: Cynigion Manwerthu Ledled y Sir, LU19: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol, LU20: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig, LU21: Newid o Ddefnydd Manwerthu Presennol ac LU22 Darpariaeth Gymunedol yw diogelu siopau a gwasanaethau mewn canolfannau gwasanaeth gwledig rhag colled ddiangen a chefnogir cynigion am wasanaethau cymunedol aml-bwrpas.

Draft

| Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo |
| --- |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br><br>• Ceisio diogelu gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn y sir sydd mewn lleoliadau hygyrch.<br>• Gwarchod a gwella cymeriad yr aneddiadau. |

Drafft

**17. A fydd y strategaeth, o bosib, yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol yn y gymuned Cymraeg ei hiaith?**

a) Cael effaith anghyfartal sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan roi mantais i rai grwpiau a rhoi grwpiau eraill dan anfantais?

b) Mynd yn groes i werthoedd traddodiadol rhannau penodol o'r gymuned?

**Cefndir**

Gallai rhai mathau o ddatblygiadau effeithio'n negyddol ar gymunedau lleol, gan arwain at densiynau cymdeithasol neu wrthdaro. Er enghraifft, gallai canolfannau siopa newydd fygwth siopau lleol a allai fod o werth mawr i'r gymuned. Gall y cyfryw wrthdaro annog pobl i gredu nad ystyrir pryderon diwylliannol sydd, yn ei dro, yn gallu lladd ysbryd cymunedau Cymraeg.

**Dadansoddiad llinell sylfaen**

Mae’r Mynegrif Amddifadedd Lluosog (MALI) ar gyfer Cymru wedi dangos bod 2.2% o 46 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Ceredigion yn y 10% fwyaf difreintiedig tra bod 39.1% yn y 50% fwyaf difreintiedig. Ar y cyd ag un awdurdod lleol arall, Ceredigion yw'r trydydd awdurdod lleol sydd â’r nifer isaf yn y 10% fwyaf difreintiedig. O fewn parthau penodol y MALI ar gyfer Cymru, roedd amrywiaeth yng nghanlyniadau Ceredigion. O ran y parth iechyd a'r parth addysg, nid oedd gan Geredigion Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% fwyaf difreintiedig. Dim ond 21.7% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Ngheredigion oedd yn y 50% fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y parth addysg. Hwn oedd y lleiaf yng Nghymru. Fodd bynnag, Ceredigion oedd yr ail awdurdod lleol â’r gyfran uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% fwyaf difreintiedig yn y parth mynediad i wasanaethau. Yn sgil hyn, Ceredigion oedd â'r gyfran uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 50% fwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef 82.6%.

Ystyrir y CGTau fel yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y sir ac er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, targedir twf datblygu yma.

Er mwyn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n rhoi eu barn ar y twf a'r datblygiad yn eu cymunedau, caniataodd y broses ymgynghori i hyn ddigwydd. Cynhaliwyd yr

Draft

| |
|---|
| holl gyfarfodydd a chynhyrchwyd yr holl ddogfennaeth yn y broses hon yn Gymraeg.<br><br>Ffynhonnell: https://gweddill.gov.wales/docs/statistics/2015/150812-wimd-2014-revised-cy.pdf |
| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith** |
| Bydd yr union effaith ar wahanol rannau o gymunedau'n dibynnu ar y math o ddatblygiad a'i leoliad. Fodd bynnag, gallai'r dosbarthiad cymesur o ddatblygiadau leihau anghydraddoldeb trwy hwyluso dosbarthiad mwy cyfartal o ddatblygiadau mewn modd gofodol. Mae'n caniatáu datblygiadau newydd cyfyngedig, yn enwedig tai, yn yr aneddiadau mwyaf hygyrch, ac yn cyfrannu at dwf organig mewn aneddiadau na fydd yn cael effaith niweidiol ar hyfywedd cymunedol o ganlyniad. Hefyd, bydd yn helpu i gefnogi bywiogrwydd cymunedol a hybu cynhwysiant cymdeithasol ac, yn ei dro, yn helpu i gynnal gwerthoedd diwylliannol yn y cymunedau hyn. Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau y caiff y gwaith datblygu ei ddosbarthu i gryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r cynllun. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i gynnal cymeriad trefol/gwledig cymysg ac arbennig y sir yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.<br><br>Polisi DM01: Mae Rheoli Effeithiau Datblygiad ar Gymunedau a'r Gymraeg hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir yn uniongyrchol, ac yn ceisio osgoi unrhyw niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned a achosir gan ddatblygiad amhriodol. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br><br>• Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol pob adran o gymdeithas a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp.<br>• Gwneud Asesiadau o'r Effaith ar yr Iaith yn ofynnol fel rhan o geisiadau cynllunio sy'n debygol o gael effaith ar y Gymraeg yn unol â'r trothwyon ac yn yr ardaloedd i'w pennu. |

Draft

| **18. A fydd y strategaeth yn arwain, o bosib, at newidiadau mewn traddodiadau/diwylliannau Cymreig?** |
| --- |
| a) Arwain at aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith yn symud o'r ardaloedd? |
| b) Arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd di-Gymraeg nad ydynt yn lleol? |
| c) Arwain at erydu cysylltiadau teuluol neu rwydweithiau cymdeithasol eraill? |
| d) Arwain at newidiadau sylweddol yn y cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth newid traddodiadol? |
| e) Effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith trwy gyflwyno/sbarduno newid cymdeithasol? |
| **Cefndir** |
| Gall rhai mathau o ddatblygiadau arwain at waredu pobl Gymraeg eu hiaith neu gyflwyno pobl ddi-Gymraeg. |
| **Dadansoddiad llinell sylfaen** |
| Gweler y dadansoddiad llinell sylfaen ar gyfer meini prawf 1, 2, 3 a 10 uchod. |
| **Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith** |
| Ar y cyfan, mae'n annhebygol y bydd y strategaeth yn arwain at newidiadau sylweddol mewn traddodiadau a diwylliannau Cymreig lleol a allai niweidio'r iaith.<br><br>Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau y caiff y gwaith datblygu ei ddosbarthu i gryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r cynllun. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i gynnal cymeriad trefol/gwledig cymysg ac arbennig y sir yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol nodedig.<br><br>Fel y'i trafodwyd yn yr adrannau blaenorol, mae'r Strategaeth a Ffefrir i ddod yn helpu i gadw preswylwyr Cymraeg eu hiaith yn eu cymunedau trwy hwyluso'r gwaith o ddatblygu tai fforddiadwy a thrwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth. Hybir bywiogrwydd a hyfywedd cymunedol hefyd trwy amryw bolisïau yn y strategaeth. Bydd y rhain yn helpu i gefnogi mentrau sy'n datblygu cymunedau sefydlog, diogel, |

Draft

| |
|---|
| iach a chryf, sy'n golygu parchu a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl sicrhau y caiff nodweddion cymunedau presennol eu gwarchod a'u hybu trwy hwyluso cyfleoedd am dai a chyflogaeth pan fydd eu hangen. |

Drafft

**19. A yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith bosibl ar grwpiau gwirfoddol/gweithgareddau/ieuenctid lleol?**

a) Ysgogi pobl leol sy’n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned oherwydd:

- Ysgogi cynnydd mewn diweithdra/straen economaidd?
- Ysgogi cynnydd mewn prisiau tai/straen sy'n ymwneud â thai?

**Cefndir**

Mae gan grwpiau gwirfoddol, gweithgareddau ac ieuenctid lleol ddylanwad sylweddol ar y Gymraeg trwy ddarparu gweithgareddau a chymorth i breswylwyr. Mae'r cyfryw grwpiau'n chwarae rôl bwysig mewn cynnal hyfywedd a llesiant cymunedol.

**Dadansoddiad llinell sylfaen**

Cyflogaeth:

Yn ôl ystadegau cyfrifiad 2011, roedd 61.1% o boblogaeth Ceredigion yn economaidd weithgar. Fodd bynnag, mae ffigurau mwy diweddar ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a mis Medi 2018 yn dangos bod 69.7% o boblogaeth Ceredigion yn economaidd weithgar, o'u cymharu â 76.2% o boblogaeth gyfan Cymru. Mae cyfran ychydig yn fwy o ddynion (70%) yn economaidd weithgar o'u cymharu â menywod (69.3%). Mae'r gwahaniaeth rhwng dynion a menywod economaidd weithgar yng Ngheredigion yn sylweddol lai na'r gwahaniaeth yng Nghymru. Mae hyn yn rhannol gan fod canran y dynion economaidd weithgar ychydig yn llai na phoblogaeth Cymru.

**Tabl 22: Cyflogaeth a Diweithdra (Hydref 2017-Medi 2018)**

| | Ceredigion (Niferoedd) | Ceredigion (%) | Cymru (%) | Prydain Fawr (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Pawb** | | | | |
| Economaidd weithgar | 34,800 | 69.7 | 76.2 | 78.5 |
| Mewn cyflogaeth | 33,800 | 67.6 | 72.6 | 75.1 |

Draft

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 24,800 | 51.5 | 62.5 | 64.3 |
| Hunangyflogedig | 7,800 | 13.8 | 9.5 | 10.6 |
| Di-waith (ar sail model) | 1,300 | 3.7 | 4.6 | 4.2 |
| **Dynion** | | | | |
| Economaidd weithgar | 18,300 | 70 | 80.5 | 83.4 |
| Mewn cyflogaeth | 17,600 | 67 | 76.3 | 79.8 |
| Gweithwyr | 11,700 | 46.8 | 62.6 | 65.4 |
| Hunangyflogedig | 5,100 | 17.5 | 13.1 | 14.1 |
| Di-waith | - | - | 5.1 | 4.2 |
| **Menywod** | | | | |
| Economaidd weithgar | 16,500 | 69.3 | 71.9 | 73.6 |
| Mewn cyflogaeth | 16,200 | 68.1 | 68.9 | 70.5 |
| Gweithwyr | 13,100 | 56.6 | 62.4 | 63.1 |
| Hunangyflogedig | 2,600 | 9.7 | 5.9 | 7.1 |
| Di-waith | - | - | 4.1 | 4.1 |

Ffynhonnell:
https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157390/printable.aspx

Prisiau tai:
Dengys data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fod Ceredigion wedi gweld cynnydd o 9.1% mewn prisiau tai rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Rhagfyr 2018. Gwelwyd cynnydd yng Nghymru hefyd, ond ar ganran is sef 5.2% yn yr un flwyddyn. Gwelodd Ceredigion y pumed cynnydd canrannol uchaf o ran y newid mewn prisiau blynyddol rhwng 2017 a 2018 o blith holl siroedd Cymru.

Draft

**Tabl 23: Newid mewn prisiau blynyddol ar gyfer Ceredigion a Chymru**

| | Rhagfyr 2018 | Rhagfyr 2017 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Ceredigion | £198,286 | £181,703 | 9.1% |
| Cymru | £161,845 | £153,791 | 5.2% |

Fodd bynnag, mae nifer y gwerthiannau tai yng Ngheredigion yn weddol isel fel y dengys y tabl isod:

**Tabl 24: Nifer y gwerthiannau yng Ngheredigion a Chymru**

| | Hydref 2018 | Hydref 2017 |
|---|---|---|
| Ceredigion | 97 | 103 |
| Cymru | 3,911 | 4,471 |

Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/publications/uk-house-price-index-wales-december-2018/uk-house-price-index-wales-december-2018

Felly, gyda nifer isel o werthiannau ac amrywiaeth fawr yn y mathau o eiddo a werthir, mae'n bosibl iawn y gallai'r cyfartaledd godi o ganlyniad i werthu nifer fach o eiddo am bris uchel.

**Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith**

Cyflogaeth:

Mae'n annhebygol y bydd y Strategaeth a Ffefrir i ddod yn cael effaith niweidiol ar swyddi lleol yn y sir. Mae'r strategaeth economaidd yn y Strategaeth a Ffefrir i ddod yn tynnu sylw at yr angen i wella allbwn economaidd amryw sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi a darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Dylai hyn helpu i gadw'r gweithlu presennol Cymraeg ei iaith a denu preswylwyr blaenorol o oedran gweithio i ddychwelyd i'r ardal.

Gan fod yr opsiwn gofodol a ffefrir yn hwyluso dosbarthiad cymesur o ddatblygiadau, bydd yn caniatáu datblygiad economaidd y prif ganolfannau a'r aneddiadau mwy gwledig. Bydd hyn yn arwain at ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ar

Draft

gyfer amrywiaeth ddaearyddol eang o'r boblogaeth ac yn helpu i wella anghyfartaledd rhwng grwpiau incwm. Mae'r strategaeth yn diogelu safleoedd ac yn gwneud dyraniadau cyflogaeth penodol yn bennaf yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol ynghyd â lleoliadau priodol eraill. Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth priodol o raddfa fach hefyd mewn pentrefi, clystyrau ac yng nghefn gwlad ac yn yr ardaloedd cyfagos.

Mae'r polisïau strategol yn cefnogi cyfleoedd am dwf economaidd ledled Ceredigion ac yn nodi bod yn rhaid i raddfa cyflogaeth fod yn briodol i'w lleoliad. Mae polisïau Defnydd o Dir LU11 – LU13 ac LU18 – LU21 hefyd yn cefnogi amryw gyfleoedd am dwf economaidd yn y sir.

Gallai cynnydd yn y boblogaeth breswyl hefyd arwain at gynnydd yn y galw am siopau a gwasanaethau masnachol, gan greu economi leol hyfyw felly. Fodd bynnag, bydd yr union effaith ar gyflogaeth yn dibynnu ar leoliad a lefel y mewnfuddsoddi i'r ardal.

**Prisiau tai:**
Ar yr adeg hon, mae'n anodd pennu union effaith y Strategaeth a Ffefrir i ddod ar brisiau tai yn y sir. Fodd bynnag, dylai'r strategaeth gynyddu argaeledd a fforddiadwyedd tai yng Ngheredigion yn ogystal â'r amrywiaeth o dai.

Mae'r strategaeth tai yn hwyluso'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy sy'n briodol o ran eu dyluniad a'u maint. Ar sail rhagamcanion y Sefyllfaoedd Twf a ffefrir o ran anghenion tai, mae'r strategaeth yn darparu ar gyfer 3,000 o gartrefi ychwanegol rhwng 2018 a 2033, sy'n darparu cyfleoedd am gyfradd datblygu fwy realistig a chyraeddadwy nag yn ystod y cynllun cyfredol. Bydd cyfran o dai newydd yn 'dai fforddiadwy'. Dylai hyn ei gwneud yn haws i ddarpar berchnogion tai brynu neu rentu cartrefi newydd a fforddiadwy, yn enwedig y preswylwyr sydd â chysylltiad lleol.

Yn wir, mae'r Strategaeth a Ffefrir i ddod yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i ddiwallu anghenion y gymuned leol, yn enwedig anghenion pobl ifanc a'r henoed. Bydd dosbarthu tai ledled y sir yn darparu mwy o ddewis a gwell hyblygrwydd i bobl aros yn eu cymunedau. Bydd y strategaeth hefyd yn hwyluso'r

Draft

| |
|---|
| ddarpariaeth o dai a chyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig. Dylai hyn hefyd helpu i gadw pobl ifanc yn y cymunedau hyn.<br><br>Dylai'r polisïau strategol canlynol yn y strategaeth helpu i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu tai fforddiadwy sy'n bodloni gofynion y boblogaeth leol: S01-S05. |
| **Goblygiadau i'r CDLl wedi'i Adneuo** |
| Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo wneud y canlynol:<br>• Sicrhau bod polisïau priodol ar gyfer cynorthwyo busnesau presennol a chreu cyfleoedd i fusnesau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br>• Hwyluso gwaith datblygu economaidd lleol ar raddfa fach ledled y sir.<br>• Amlinellu'r gofyniad am dai fforddiadwy mewn datblygiadau tai newydd.<br>• Hwyluso datblygiadau tai priodol mewn lleoliadau ble y mae eu hangen fwyaf.<br>• Hyrwyddo'r gwaith o gyflwyno'r datblygiad yn raddol er mwyn sicrhau y gall gwahanol ardaloedd a chymunedau ymdopi â'r datblygiad heb erydu'r iaith.<br>• Ystyried goblygiadau cynnydd yn nifer yr ail gartrefi yn y sir.<br>• Cynnwys mesurau i reoli deiliadaeth tai newydd mewn ardaloedd penodol. |

Draft

# 2. Casgliad

2.1.1 Er na allwn bennu union leoliad a graddfa'r gwaith datblygu yn y sir yn y dyfodol, mae tueddiadau'r gorffennol a thystiolaeth yn caniatáu inni ragweld patrymau'r dyfodol. Ar ôl cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir, gallwn ddod i'r casgliad nad yw'n debygol y bydd effaith niweidiol ar y Gymraeg. Un o'r rhesymau dros hyn yw nad yw nifer o elfennau'r strategaeth yn cael eu newid yn sylweddol ac felly, ni fydd yr effaith yn newid yn sylweddol chwaith. Nid yn unig y mae'n debygol na fydd y Strategaeth a Ffefrir yn achosi effaith niweidiol, ond gyda'r polisïau a gynigir, caiff yr iaith ei hyrwyddo a'i hybu.